
ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2019
# Adroddiad Canlyniadau



## Manylion cyswllt

Nia Jones

Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 4088 E-bost: ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru

SFR117/2019 © Hawlfraint y Goron 2019

OGL

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0, oni nodir yn wahanol.

## Tabl Cynnwys

1. Beth yw MALIC? ..... 2
2. MALIC 2019 Mynegai Cyffredinol ..... 7
3. Y Maes Incwm ..... 30
4. Y Maes Cyflogaeth ..... 39
5. Y Maes Iechyd ..... 48
6. Y Maes Addysg ..... 57
7. Y Maes Mynediad Daearyddol at Wasanaethau ..... 65
8. Y Maes Tai ..... 75
9. Y Maes Diogelwch Cymunedol ..... 84
10. Maes yr Amgylchedd Ffisegol ..... 92

Atodiad A: Rhagor o Gefndir MALIC ..... 101

Atodiad B: Rhestr o holl ddangosyddion MALIC 2019 ..... 104

Rydym yn ddiolchgar am gyfraniadau llawer o bobl a sefydliadau sydd wedi darparu data a chyngor ar gyfer MALIC 2019.

# 1. Beth yw MALIC?

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw'r dull swyddogol ar gyfer mesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n dod o dan faner Ystadegau Gwladol, ac yn cael ei baratoi gan ystadegwyr Llywodraeth Cymru.

Mae MALIC yn dangos yr ardaloedd lle mae'r crynodiadau uchaf o nifer o wahanol fathau o amddifadedd. Prif nod y Mynegai yw darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen am yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru er mwyn llywio amrywiaeth o benderfyniadau, megis ariannu neu dargedu rhaglenni a gwasanaethau ar gyfer ardaloedd lleol. Mae MALIC yn rhoi safle rhwng 1 (mwyaf difreintiedig) a 1,909 (lleiaf difreintiedig) i'r holl ardaloedd bach yng Nghymru.

## 1.1. Beth mae MALIC yn ei fesur?

Ar hyn o bryd mae MALIC yn cynnwys wyth maes (neu fath) gwahanol o amddifadedd. Mae pob maes wedi ei ffurfio o amrywiaeth o wahanol ddangosyddion. Dyma'r meysydd sydd wedi'u cynnwys ym MALIC 2019:

- Incwm
- Cyflogaeth
- Iechyd
- Addysg
- Mynediad i Wasanaethau
- Tai
- Diogelwch Cymunedol
- Yr Amgylchedd Ffisegol

Mae MALIC yn ddull ar gyfer mesur amddifadedd lluosog ac mae'n gwneud hynny ar sail ardal a hefyd yn mesur amddifadedd cymharol. Mae eglurhad pellach o'r termau hyn yn ein Canllaw MALIC 2019 ond, ar gyfer MALIC, dyma'r pethau pwysig i'w cofio:

- Mae 'lluosog' yn cyfeirio at feysydd lluosog y mynegai, a hefyd y ffordd y gall y dangosyddion gasglu data ar agweddau materol a chymdeithasol ar amddifadedd.
- Mae 'amddifadedd' yn ymwneud â mwy na bod yn dlawd. Mae'n cyfeirio at angen nad yw'n cael ei ddiwallu a achosir gan ddiffyg adnoddau o fathau gwahanol, nid rhai ariannol yn unig. Gall olygu bod gan bobl lai o adnoddau a chyfleoedd na'r hyn a ddisgwyliwn yn ein cymdeithas, er enghraifft o ran iechyd neu addysg.

- Caiff y meysydd eu cyfrifo ar gyfer yr holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yng Nghymru. Mae 1,909 ACEHI yng Nghymru gyda phoblogaeth o 1,600 o bobl ym mhob un ar gyfartaledd. Ceir rhagor o wybodaeth am ACEHI yn yr Adroddiad Technegol.
- Mae MALIC yn rhoi cipolwg ar wybodaeth am amddifadedd ar sail ardal drwy fesur crynodiadau o amddifadedd. Fodd bynnag, mae llawer o bobl freintiedig yn byw mewn ardaloedd difreintiedig, ac mae llawer o bobl ddifreintiedig yn byw mewn ardaloedd breintiedig.
- Mae'r Mynegai'n darparu ffordd o bennu ardaloedd yn eu trefn, o'r mwyaf i'r lleiaf difreintiedig. Yn hytrach na mesur y lefelau amddifadedd mewn ardal, mae'n mesur a yw'r ardal yn fwy neu'n llai difreintiedig o'i chymharu â holl ardaloedd eraill Cymru.
- Mae dull y Mynegai wedi'i lunio i wahaniaethu'n ddibynadwy rhwng ardaloedd ar begwn mwyaf difreintiedig y dosbarthiad, ond nid ar y pegwn lleiaf difreintiedig. Mae hyn yn golygu bod gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru wedi'u diffinio'n salach na gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd mwy difreintiedig.

### 1.2. Sut mae'r Mynegai'n cael ei lunio

Mae tair elfen sylfaenol yn perthyn i'r Mynegai:

- 47 o setiau data ar gyfer dangosyddion sylfaenol
- Safleoedd ar gyfer yr wyth faes (neu fath) gwahanol o amddifadedd, wedi'u creu drwy gyfuno dangosyddion perthnasol ym mhob maes
- Safleoedd MALIC cyffredinol, wedi'u creu drwy gyfuno safleoedd y meysydd

Caiff yr holl elfennau hyn eu cyfrifo ar gyfer pob un o'r ardaloedd bach (ACEHI) yng Nghymru. Mae data'r dangosyddion, safleoedd y meysydd, a'r safleoedd cyffredinol wedi'u cyhoeddi ar StatsCymru. Ceir rhestr lawn o'r dangosyddion sydd wedi'u cynnwys ym MALIC 2019 yn Atodiad B. Mae gwybodaeth dechnegol fanwl am y dangosyddion a dull MALIC ar gael yn yr Adroddiad Technegol.

I raddau helaeth, mae'r dull a ddefnyddiwyd ym MALIC 2019 yr un fath ar gyfer y Mynegai diwethaf, a luniwyd yn 2014, ac mae'n cynnwys gwybodaeth am yr un wyth maes o amddifadedd. Fodd bynnag, mae ychydig o newidiadau wedi'u gwneud i'r Mynegai, gan gynnwys:

- newidiadau i ddangosyddion unigol, neu ddangosyddion newydd yn cael eu cynnwys yn y meysydd Iechyd, Addysg, Mynediad i Wasanaethau, yr Amgylchedd Ffisegol a Thai
- newidiadau bach i'r pwysoliad cymharol a gymhwysir i'r meysydd (neu fathau) o amddifadedd.

Defnyddir swm sydd wedi'i bwysoli o sgôr amddifadedd pob maes i lunio MALIC. Mae'r pwysoliad yn adlewyrchu pwysigrwydd y maes fel elfen o amddifadedd, ac ansawdd y dangosyddion sydd ar gael ar gyfer y maes hwnnw.

Mae pwysoliad y meysydd ar gyfer MALIC 2019 i'w gweld isod, ynghyd â'r pwysoliad a ddefnyddiwyd yn 2014. Fe wnaeth gwelliannau i ddata a ddefnyddiwyd ar gyfer y meysydd Tai ac Iechyd arwain at drafodaeth i sicrhau cynnydd bach i'w pwysoliad. Er mwyn gallu gwneud hyn, cafodd y pwysoliad ar gyfer y meysydd Incwm a Chyflogaeth eu gostwng ychydig. Fodd bynnag, y meysydd hyn sydd gan y pwysoliad cymharol uchaf o hyd, gan eu bod yn ffactorau cadarn ar gyfer pennu amddifadedd.

Drwy osod ychydig o'r pwysoliad a oedd yn arfer cael ei osod ar Incwm a Chyflogaeth mewn meysydd eraill, adlewyrchir hefyd yr amrywiaeth eang o nodau llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

| | **Pwysoliad maes MALIC 2019** | **Pwysoliad maes MALIC 2014** |
|---|---|---|
| Incwm | 22% | 23.5% |
| Cyflogaeth | 22% | 23.5% |
| Iechyd | 15% | 14% |
| Addysg | 14% | 14% |
| Mynediad i Wasanaethau | 10% | 10% |
| Tai | 7% | 5% |
| Diogelwch Cymunedol | 5% | 5% |
| Yr Amgylchedd Ffisegol | 5% | 5% |

### 1.3. Ar gyfer beth y gellir defnyddio MALIC?

Wrth i nifer o sefydliadau lunio polisïau, rhaglenni a chyllid sy'n seiliedig ar ardaloedd, mae'n bwysig gwybod sut mae amddifadedd wedi'i ddosbarthu ledled Cymru. Gellir defnyddio MALIC (yn aml ynghyd â gwybodaeth arall) er mwyn llywio'r penderfyniadau hyn a rhoi gwell dealltwriaeth o batrymau o ran amddifadedd yng Nghymru. Gellir defnyddio MALIC er mwyn:

- Adnabod yr ardaloedd bach mwyaf difreintiedig
- Cymharu amddifadedd cymharol ardaloedd bach
- Edrych ar yr 8 maes (math) o amddifadedd ar gyfer ardaloedd bach
- Cymharu cyfran yr ardaloedd bach mewn ardal fwy (e.e. awdurdod lleol) sy'n ddifreintiedig iawn
- Defnyddio data dangosyddion (ond nid y safleoedd) i gymharu newid absoliwt dros amser

Gellir defnyddio MALIC hefyd i edrych ar y newid mewn safleoedd amddifadedd cymharol rhwng fersiynau, er enghraifft pa ardaloedd sydd wedi gadael, ymuno neu aros yn y grŵp mwyaf difreintiedig. Gallwch weld y math hwn o ddadansoddiad yn adran 2.6 ar Amddifadedd Hirsefydlog. Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli hyn ar gyfer MALIC 2019. Er mwyn llunio'r trosolwg gorau posibl o amddifadedd cymharol, gan ddefnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael, rydym wedi newid rhai o'r dangosyddion a phwysoliad y meysydd, ac mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi diwygio amcangyfrifon poblogaeth sy'n sail i rai o ddangosyddion MALIC 2014. Mae'n bosibl bod y gwelliannau hyn i'r dull o fesur amddifadedd yn rhan o'r rheswm y mae ardaloedd wedi dod yn fwy (neu'n llai) difreintiedig o'u cymharu ag ardaloedd eraill, yn hytrach na bod newidiadau sylfaenol o ran amddifadedd cymharol ardaloedd ers MALIC 2014. Gweler y Crynodeb o Newidiadau i'r Mynegai ar dudalen we Canllawiau i MALIC i gael manylion am y newidiadau lefel uchel a wnaed ym mhob fersiwn o'r mynegai ers MALIC 2005.

Mae rhaglenni cenedlaethol a lleol gan y Llywodraeth ar gyfer mynd i'r afael ag amddifadedd yn aml yn defnyddio MALIC i dargedu gweithgareddau ar yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Hefyd, caiff ei ddefnyddio'n helaeth gan awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill, y sector gwirfoddol, academyddion a myfyrwyr, a'r sector preifat. Dyma rai enghreifftiau o ddefnyddio MALIC:

- targedu polisïau, a lleoli gwasanaethau neu ardaloedd peilot
- adeiladu proffiliau ardal
- llunio ac asesu ceisiadau am gyllid a grantiau
- mesur effaith amddifadedd ar ganlyniadau fel anghydraddoldebau iechyd
- cysylltu dangosyddion amddifadedd ardaloedd ag arolygon i'w defnyddio wrth ddadansoddi
- modelu gofynion posibl, ee ar heddluoedd a gwasanaethau brys eraill
- llywio cynlluniau i ehangu mynediad
- dangos tystiolaeth o asesiadau anghenion a llesiant lleol
- llunio arolygon sampl neu astudiaethau eraill

Mae dogfen Ganllaw MALIC 2019 yn rhoi manylion pellach am ble i ddechrau os ydych am ddefnyddio MALIC i ddarparu proffil ardal, neu dargedu gweithgarwch.

I sicrhau'r defnydd gorau o'r Mynegai, dylid ei ddefnyddio ar y cyd â mathau eraill o wybodaeth, naill ai o ddangosyddion sylfaenol, data eraill a gyhoeddwyd, neu wybodaeth leol. Mae cyfeiriadau at wybodaeth gyd-destunol ddefnyddiol wedi eu cynnwys ar ddiwedd pennod pob maes. Mae nifer o ffynonellau gwybodaeth ar ardaloedd lleol a allai fod o fudd i ddefnyddwyr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Data ar drefi a chymunedau penodol yng Nghymru sydd ar gael drwy'r adnodd Deall Lleoedd Cymru

- Data ar awdurdodau lleol sydd ar gael drwy'r adnodd Llefydd Llewyrchus Cymru
- Ystadegau'r Farchnad Lafur a'r Cyfrifiad ar gyfer ardaloedd lleol sydd ar gael drwy wefan Nomis y Swyddfa Ystadegau Gwladol

### 1.4. Cyfyngiadau MALIC

Mae'n bwysig cofio nad MALIC yw'r unig ffordd o fesur amddifadedd. Cafodd MALIC ei ddatblygu at ddiben penodol, sef mesur crynodiadau o amddifadedd ar lefel ardal fach.

Isod ceir ychydig o gyfyngiadau MALIC, ac mae rhagor o fanylion ar gael yng Nghanllaw MALIC 2019. Ni ellir defnyddio MALIC er mwyn:

- Mesur pa mor ddifreintiedig yw ardal fach
- Dweud faint yn fwy difreintiedig yw un ardal o'i chymharu ag ardal arall – gall y gwahaniaeth rhwng dau safle fod yn fach neu'n fawr
- Defnyddio safleoedd i awgrymu newid absoliwt dros amser (gan eu bod yn fesurau cymharol)
- Pennu pobl ddifreintiedig – nid yw pawb sy'n ddifreintiedig yn byw mewn ardal ddifreintiedig
- Cymharu â gwledydd eraill yn y DU - mae pob gwlad yn mesur amddifadedd ychydig yn wahanol
- Mesur digonedd (nid yw diffyg amddifadedd yr un fath â chael digonedd)

### 1.5. Manylion pellach

Mae pecyn o gynhyrchion ar gael mewn perthynas â MALIC 2019, gan gynnwys deunyddiau Canllaw, Adroddiad Technegol a gwefan ryngweithiol. Mae manylion cyhoeddiadau eraill sy'n bodoli eisoes neu rai sydd ar y gweill ar gael ar wefan MALIC. Mae safleoedd cyffredinol, safleoedd meysydd a data dangosyddion sylfaenol MALIC 2019 wedi'u cyhoeddi ar StatsCymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru.

### 1.6. Y diweddariad nesaf

Fel arfer caiff MALIC ei ddiweddaru fesul 3 i 5 mlynedd, ond nid yw'r dyddiadau cyhoeddi ar gyfer Mynegeion yn y dyfodol wedi'u cyhoeddi eto. Gall defnyddwyr ddilyn hynt datblygiadau yn y dyfodol drwy gofrestru i gael negeseuon e-bost â'r wybodaeth ddiweddaraf. I gofrestru, anfonwch e-bost i ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru gan gynnwys 'tanysgrifio' yn y pennawd pwnc.


## 2. MALIC 2019 Mynegai Cyffredinol

### 2.1. Methodoleg: Mynegai Cyffredinol

Am ddisgrifiad llawn o'r ffordd y cafodd y Mynegai, ei feysydd a'r dangosyddion sylfaenol eu llunio, gweler Adroddiad Technegol MALIC 2019.

**Meysydd**

Mae MALIC 2019 yn cynnwys wyth maes (neu fath) gwahanol o amddifadedd. Mae pob maes yn seiliedig ar amrywiaeth o ddangosyddion gwahanol. Rhoddir y pwysoliadau ar gyfer yr wyth maes isod:




**Newidiadau methodolegol rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019**

Fel yr esboniwyd yn y cyflwyniad, mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd o fewn MALIC 2019 fwy neu lai yr un peth â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer y Mynegai diwethaf, a luniwyd yn 2014, gyda'r un wyth maes o amddifadedd yn cael eu cofnodi. Fodd bynnag, bu rhai newidiadau i'r Mynegai, gan gynnwys:

- newidiadau i ddangosyddion unigol, a'r penderfyniad i gynnwys dangosyddion newydd yn y meysydd Iechyd, Addysg, Mynediad i Wasanaethau, yr Amgylchedd Ffisegol a Thai
- newidiadau bach i'r pwysoliadau perthnasol a gymhwysir at y meysydd (neu fathau) o amddifadedd.

Disgrifir y newidiadau hyn yn fanylach ym mhenodau'r meysydd perthnasol, ac yn Adroddiad Technegol MALIC 2019.


### 2.2. Canlyniadau allweddol y Mynegai Cyffredinol

- Ym MALIC 2019, roedd pocedi o amddifadedd cymharol uchel yn ninasoedd a chymoedd y de, ac mewn rhai trefi ar yr arfordir ac ar y ffin yn y gogledd. Dangosir hyn ar y map sy'n dilyn.
- Mae'r darlun cyffredinol yn debyg i'r un a roddwyd gan MALIC 2014. Roedd saith o'r 10 ardal fwyaf difreintiedig o MALIC 2014 yn dal i fod ymhlith y 10 ardal fwyaf difreintiedig ym MALIC 2019.

- Yr ardal fach fwyaf difreintiedig yng Nghymru ym MALIC 2019 oedd Gorllewin y Rhyl 2 (yr ardal o amgylch Stryd Fawr y Rhyl) yn Sir Ddinbych, sef yr ardal fwyaf difreintiedig ond un ym MALIC 2014. Bellach, ardal gyfagos Gorllewin y Rhyl 1 yw'r ardal fwyaf difreintiedig ond un.
- Bellach, yr ardal fwyaf difreintiedig flaenorol ym MALIC 2014, sef Sant Iago 3 (sy'n cynnwys rhan helaeth o Stad Parc Lansbury yng Nghaerffili) yw'r drydedd ardal fwyaf difreintiedig.
- Yr awdurdod lleol â'r gyfran uchaf o ardaloedd bach yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ym MALIC 2019 oedd Casnewydd (24.2%). Blaenau Gwent a oedd â'r ganran uchaf o ardaloedd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (85.1%).
- Nid oedd gan Sir Fynwy unrhyw ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig a dim ond 1.3% oedd gan Bowys (neu 1 ardal).
- Mae dadansoddiad o amddifadedd hirsefydlog yn edrych ar ardaloedd sydd wedi bod ymhlith y 50 o ardaloedd mwyaf difreintiedig ar gyfer pob fersiwn o MALIC yn ystod y 15 mlynedd diwethaf. Mae 26 o ardaloedd bach o amddifadedd hirsefydlog, sydd wedi'u rhannu rhwng 10 Awdurdod Lleol.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

# Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru



## 2.3. Cymharu rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019

Gellir lawrlwytho'r set lawn o safleoedd y meysydd o MALIC 2019 a'r dangosyddion sylfaenol o dudalennu gwe StatsCymru Llywodraeth Cymru.

Ni ellir defnyddio MALIC i gymharu amddifadedd ar gyfer un ardal â'i hamddifadedd mewn fersiwn flaenorol o'r Mynegai. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad canlynol yn dangos sut mae grwpiau amddifadedd MALIC 2019 yn cymharu â grwpiau amddifadedd MALIC 2014. Mae dull gweithredu tebyg wedi'i ddefnyddio yn yr adrannau dadansoddi eraill.

Dengys y tabl isod nifer yr ardaloedd bach (ACEHIau) ym mhob un o grwpiau amddifadedd MALIC ar gyfer MALIC 2014 a MALIC 2019. Caiff y grwpiau amddifadedd eu defnyddio o fewn y prif ddadansoddiad MALIC, gan gynnwys mapiau. Maent wedi'u bwriadu i gael grwpiau llai yn y pen mwy difreintiedig, lle mae'r gwahaniaeth rhwng yr ardaloedd yn fwy na'r pen lleiaf difreintiedig.

Dengys y groeslinell, mewn print trwm, nifer y meysydd sydd wedi aros yn yr un grŵp amddifadedd. Uwchlaw'r groeslinell ceir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud o grŵp mwy difreintiedig i grŵp llai difreintiedig. Islaw'r groeslinell ceir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud o grŵp llai difreintiedig i grŵp mwy difreintiedig.

**Tabl 1: Symudiadau rhwng grwpiau amddifadedd ar gyfer y Mynegai Cyffredinol, rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019**

| | | Maes MALIC 2019 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Y 10% mwyaf difreintiedig (safleoedd 1-191) | Y 10-20% mwyaf difreintiedig (safleoedd 192-382) | Yr 20-30% mwyaf difreintiedig (safleoedd 383-573) | Y 30-50% mwyaf difreintiedig (safleoedd 574-955) | Y 50% lleiaf difreintiedig (safleoedd 956-1909) | Cyfanswm (safleoedd 1-1909) |
| Maes MALIC 2014 | Y 10% mwyaf difreintiedig (safleoedd 1-191) | **165** | 25 | 1 | 0 | 0 | 191 |
| | Y 10-20% mwyaf difreintiedig (safleoedd 192-382) | 25 | **130** | 35 | 1 | 0 | 191 |
| | Yr 20-30% mwyaf difreintiedig (safleoedd 383-573) | 1 | 36 | **112** | 42 | 0 | 191 |
| | Y 30-50% mwyaf difreintiedig (safleoedd 574-955) | 0 | 0 | 43 | **284** | 55 | 382 |
| | Y 50% lleiaf difreintiedig (safleoedd 956-1909) | 0 | 0 | 0 | 55 | **899** | 954 |
| | Cyfanswm (safleoedd 1-1909) | 191 | 191 | 191 | 382 | 954 | **1909** |

Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd wedi aros yn yr un grŵp amddifadedd rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019 (ar y groeslinell). Dim ond tair ardal sydd wedi newid o fwy nag un grŵp amddifadedd. Fodd

bynnag, dylid nodi bod y safleoedd yn gymharol ac na ellir dod i unrhyw gasgliad ynglŷn â newidiadau i lefelau amddifadedd ar sail y newidiadau i safleoedd y Mynegai. Gellir dadansoddi'r dangosyddion sylfaenol, sy'n mesur gwahanol fathau o amddifadedd, er mwyn deall sut mae lefelau amddifadedd wedi newid mewn ardaloedd unigol.

O'r tair ardal sydd wedi symud o fwy na dau grŵp amddifadedd, symudodd un o grŵp yr 20-30% mwyaf difreintiedig ym MALIC 2014 i grŵp y 10% mwyaf difreintiedig yn 2019. Yr ardal hon yw Colwyn 2, a leolir o amgylch ardal Tan-y-Lan a Phenrhyn Penmaen yn Hen Golwyn yng Nghonwy, a newidiodd ei safle cyffredinol o 522 yn 2014 i 190 yn 2019. Daeth yn gymharol fwy difreintiedig mewn pum maes, yn y drefn ganlynol o'r newid mwyaf i'r un lleiaf: Iechyd, Incwm, Cyflogaeth, Diogelwch Cymunedol ac Addysg.

Daeth y ddwy ardal arall a symudodd gryn dipyn yn gymharol lai difreintiedig.

- Symudodd Melin Ifan Ddu 2, yng Nghwm Ogwr (Pen-y-bont ar Ogwr), o grŵp y 10% mwyaf difreintiedig ym MALIC 2014 i grŵp yr 20-30% mwyaf difreintiedig ym MALIC 2019. Newidiodd ei safle yn y Mynegai cyffredinol o 171 yn 2014 i 392 yn 2019. Daeth yr ardal hon yn gymharol lai difreintiedig mewn saith o'r meysydd, yn y drefn ganlynol o'r newid mwyaf i'r un lleiaf: Diogelwch Cymunedol, Addysg, Iechyd, Mynediad i Wasanaethau, Cyflogaeth, yr Amgylchedd Ffisegol ac Incwm. Fodd bynnag, daeth yn gymharol fwy difreintiedig ym maes Tai (noder bod y dull o fesur amddifadedd tai wedi newid).
- Mae Gorllewin Tonyrefail 1 yn cynnwys Edmondstown a rhan o Penrhiwfer, i'r de o Donypandy yn Rhondda Cynon Taf. Symudodd o grŵp y 10-20% mwyaf difreintiedig ym MALIC 2014 i grŵp y 30-50% mwyaf difreintiedig ym MALIC 2019, a newidiodd ei safle yn y Mynegai cyffredinol o 280 i 577. Daeth yr ardal hon yn gymharol lai difreintiedig mewn saith maes, yn y drefn ganlynol o'r newid mwyaf i'r un lleiaf: Diogelwch Cymunedol, yr Amgylchedd Ffisegol, Addysg, Iechyd, Cyflogaeth, Mynediad i Wasanaethau ac Incwm.

### 2.4. Dadansoddi'r ardaloedd mwyaf difreintiedig ym MALIC 2019

Mae'r tabl isod yn rhestru'r 10 ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru, fel y'u pennwyd gan MALIC 2019, ynghyd â thair ardal a oedd ymhlith y 10 ardal fwyaf difreintiedig ym MALIC 2014, ond sydd wedi symud allan o'r grŵp hwnnw ym MALIC 2019.

Noder nad yw MALIC yn mesur lefel amddifadedd mewn ardal fach, yn hytrach mae'n mesur a yw ardal yn fwy neu'n llai difreintiedig o'i chymharu ag ardaloedd bach eraill yng Nghymru. Nid yw'n bosibl nodi, ar sail newid mewn safle yn unig, a yw amddifadedd wedi gwella mewn ardal ai peidio, ond gellir defnyddio'r dangosyddion sylfaenol i wneud hyn.

Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ardaloedd wedi gweld gostyngiadau yn y gyfradd amddifadedd cyflogaeth rhwng mynegeion. Yn gyffredinol, gostyngodd y gyfradd amddifadedd cyflogaeth[1] o 13% ym MALIC 2014 i 10% ym MALIC 2019. Mae'n bosib fod ardaloedd mewn safle uchel o amddifadedd o gymharu ag ardaloedd eraill wedi gweld gostyngiad mewn amddifadedd absoliwt ers MALIC 2014.

- Gorllewin y Rhyl 2, Sir Ddinbych oedd yr ardal fach fwyaf difreintiedig yng Nghymru (roedd yn yr ail safle ym MALIC 2014).
- Roedd saith o'r 10 ardal fwyaf difreintiedig ym MALIC 2014 yn dal i fod ymhlith y 10 ardal fwyaf difreintiedig ym MALIC 2019.
- Mae tair ardal wedi symud allan o grŵp y 10 ardal fwyaf difreintiedig ers MALIC 2014.

**Tabl 2: Ardaloedd mwyaf difreintiedig MALIC 2019**

| ACEHI | Awdurdoed Lleol | Enw ACEHI | Safle MALIC 2014 | Safle MALIC 2019 |
|---|---|---|---|---|
| W01000240 | Sir Ddinbych | Rhyl Gorllewin 2 | 2 | 1 |
| W01000239 | Sir Ddinbych | Rhyl Gorllewin 1 | 11 | 2 |
| W01001421 | Caerffili | Sant Iago 3 | 1 | 3 |
| W01001274 | Rhondda Cynon Taf | Pendyrus 1 | 5 | 4 |
| W01000991 | Pen-y-bont ar Ogwr | Caerau (Pen-y-bont ar Ogwr) 1 | 6 | 5 |
| W01001209 | Rhondda Cynon Taf | Penrhiw-ceiber 1 | 15 | 6 |
| W01001308 | Merthyr Tudful | Penydarren 1 | 14 | 7 |
| W01001428 | Caerffili | Twyn Carno 1 | 7 | 8 |
| W01000413 | Wrecsam | Queensway 1 | 3 | 9 |
| W01001662 | Casnewydd | Pilgwenlli 4 | 10 | 10 |
| W01001874 | Caerdydd | Y Sblot 6 | 4 | 12 |
| W01001303 | Merthyr Tudful | Ynyswen 2 | 8 | 34 |
| W01001222 | Rhondda Cynon Taf | Pen-y-waun 2 | 9 | 15 |

Rydym yn edrych ar y 10 ardal fwyaf difreintiedig (a'r rhai sydd wedi gadael grŵp y 10 ardal fwyaf difreintiedig) yn fanylach isod, gan roi cyd-destun ychwanegol am yr ardaloedd.

---


[1] Mae'r dangosydd amddifadedd cyflogaeth yn mesur cyfradd y bobl o oedran gweithio sy'n cael lwfans ceisio gwaith, lwfans cyflogaeth a chymorth, neu ar gredyd cynhwysol a nid mewn gwaith. Mae newidiadau i'r system les ers MALIC 2014 yn golygu bod trothwyon cymhwysedd a meini prawf ar gyfer rhai budd-daliadau wedi newid.

Fel rhan o'r disgrifiadau hyn, rydym yn cyfeirio at “ddosbarthiadau ardal” a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), sy'n defnyddio data economaidd-gymdeithasol a demograffig o bob cyfrifiad i nodi rhannau o'r wlad â nodweddion tebyg, a'u rhoi mewn grwpiau yn seiliedig ar dechnegau ystadegol. Ar ôl Cyfrifiad 2011, cafodd ardaloedd cynnyrch ehangach eu dosbarthu'n uwch-grwpiau, ac oddi tanynt, yn grwpiau. Mae rhai enghreifftiau o uwch-grwpiau yn cynnwys “cymunedau dan bwysau” neu “byw yng nghefn gwlad”. Cyhoeddir data ar aelodaeth o glwstwr o ardaloedd cynnyrch ehangach ar wefan y SYG, yn ogystal â disgrifiadau o'r gwahanol grwpiau.

Rydym hefyd yn cyfeirio at y ffynonellau canlynol:

- Amcangyfrifon Poblogaeth ACEHIau 2017 ar StatsCymru
- Ystadegau allweddol o Gyfrifiad 2011
- Data dangosyddion MALIC 2019 ar amddifadedd incwm

## 1. Gorllewin y Rhyl 2, Sir Ddinbych





Gorllewin y Rhyl 2, o amgylch Stryd Fawr y Rhyl, yw'r ardal fach fwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl MALIC 2019. Dengys ei [phroffil amddifadedd ym MALIC 2019] fod Gorllewin y Rhyl 2 ymhlith y 10 ardal fwyaf difreintiedig ar gyfer y meysydd Incwm, Cyflogaeth, Iechyd, Addysg a Diogelwch Cymunedol. Mae hefyd ymhlith y 10% (191) o ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran Tai. Dengys data dangosyddion MALIC fod 61% o'r bobl yng Ngorllewin y Rhyl 2 mewn amddifadedd incwm yn 2016-17.

Yn flaenorol, roedd yr ardal yn yr ail safle (sef yr ardal fwyaf difreintiedig ond un) ym MALIC 2014. Mae'n un o'r ardaloedd o amddifadedd “hirsefydlog” a ddisgrifir yn adran 2.6, sy'n nodi ardaloedd sydd wedi bod ymhlith y 50 o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gyson ers MALIC 2005. Mae Gorllewin y Rhyl 2 wedi bod yn y safle cyntaf neu'r ail safle (sef yr ardal fwyaf difreintiedig neu'r ardal fwyaf difreintiedig ond un) ym mhob fersiwn o'r Mynegai ers MALIC 2005.

Dengys amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer 2017 fod 20% o boblogaeth yr ardal o dan 16 oed a bod 67% rhwng 16 a 64 oed (sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 18% a 62% yn y drefn honno). Dangosodd Cyfrifiad 2011:

- bod bron 80% o'r tai wedi'u rhentu: 49% o dai rhent preifat a 30% o gartrefi rhent cymdeithasol (o gymharu â 14% ac 16% ar gyfer Cymru, yn y drefn honno)
- cyfran uwch na'r cyfartaledd o aelwydydd un person (60% o gymharu â 31% ar gyfer Cymru)
- bod 77% o'r anheddau yn fflatiau, yn fflatiau deulawr neu'n rhandai (13% ar gyfer Cymru), yn hytrach na thŷ cyfan
- ganran uwch na'r cyfartaledd o bobl o grŵp ethnig heb fod yn wyn (6.2% o gymharu â 4.4% ledled Cymru)
- bod bron 10% o'r trigolion wedi'u geni y tu allan i'r DU (5.5% ledled Cymru)
- bod dosbarthiadau ardal y Cyfrifiad yn rhoi Gorllewin y Rhyl 2 yn y categori “cymunedau dan bwysau” (a'r grŵp “rhentwyr dan orfodaeth”), sydd â'r gyfradd diweithdra uchaf ar draws y categorïau

### 2. Gorllewin y Rhyl 1, Sir Ddinbych





Gorllewin y Rhyl 1, yr ardal dai teras canolog sy'n ffinio â Gorllewin y Rhyl 2 (uchod), yw'r ardal fach fwyaf difreintiedig ond un yng Nghymru yn ôl MALIC 2019. Dengys ei [phroffil amddifadedd ym MALIC 2019](#) fod Gorllewin y Rhyl 1 ymhlith y 10 ardal fwyaf difreintiedig ar gyfer y meysydd Incwm, Cyflogaeth ac Iechyd. Mae hefyd ymhlith y 10% (191) o ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran Addysg, Tai a Diogelwch Cymunedol. Dengys data dangosyddion MALIC fod 50% o'r bobl yng Ngorllewin y Rhyl 1 mewn amddifadedd incwm yn 2016-17.

Yn flaenorol, roedd yr ardal yn yr 11eg safle ym MALIC 2014. Mae'n un o'r ardaloedd o amddifadedd "hirsefydlog" a ddisgrifir yn adran 2.6, sy'n nodi ardaloedd sydd wedi bod ymhlith y 50 o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gyson ers MALIC 2005. Mae Gorllewin y Rhyl 1 wedi bod ymhlith y 12 o ardaloedd mwyaf difreintiedig ar gyfer pob fersiwn o'r Mynegai ers MALIC 2005.

Dengys amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer 2017 fod mwy nag 20% o boblogaeth yr ardal o dan 16 oed a bod 66% rhwng 16 a 64 oed (sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 18% a 62% yn y drefn honno). Dangosodd Cyfrifiad 2011:

- bod 70% o'r tai wedi'u rhentu: 44% o dai rhent preifat a 26% o gartrefi rhent cymdeithasol (o gymharu â 14% ac 16% ar gyfer Cymru, yn y drefn honno)
- cyfran uwch na'r cyfartaledd o aelwydydd un person (53% o gymharu â 31% ar gyfer Cymru)
- bod 64% o'r anheddau yn fflatiau, yn fflatiau deulawr neu'n rhandai (13% ar gyfer Cymru), yn hytrach na thŷ cyfan
- ganran uwch na'r cyfartaledd o bobl o grŵp ethnig heb fod yn wyn (8.6% o gymharu â 4.4% ledled Cymru)
- bod bron 11% o'r trigolion wedi'u geni y tu allan i'r DU (5.5% ledled Cymru)
- bod dosbarthiadau ardal y Cyfrifiad yn rhoi Gorllewin y Rhyl 1 yn y categori "cymunedau dan bwysau" (a'r grŵp "rhentwyr dan orfodaeth"), sydd â'r gyfradd diweithdra uchaf ar draws y categorïau.

### 3. Sant Iago 3, Caerffili





Mae Sant Iago 3 yng Nghaerffili yn cynnwys rhan helaeth o Stad Parc Lansbury. Dengys ei phroffil amddifadedd ym MALIC 2019 fod Sant Iago 3 ymhlith y 10 ardal fwyaf difreintiedig ar gyfer y meysydd Incwm, Cyflogaeth ac Iechyd. Mae hefyd ymhlith y 10% (191) o ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran Addysg, Diogelwch Cymunedol a'r Amgylchedd Ffisegol. Dengys Data dangosyddion MALIC fod 47% o'r bobl yn Sant Iago 3 mewn amddifadedd incwm yn 2016-17.

Yn flaenorol, roedd yr ardal yn y safle cyntaf (sef yr ardal fwyaf difreintiedig) ym MALIC 2014. Mae'n un o'r ardaloedd o amddifadedd "hirsefydlog" a ddisgrifir yn adran 2.6, sy'n nodi ardaloedd sydd wedi bod ymhlith y 50 o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gyson ers MALIC 2005. Mae Sant Iago 3 wedi bod ymhlith y naw ardal fwyaf difreintiedig ers MALIC 2008 (ym MALIC 2005 roedd yn y 18fed safle).

Dengys amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer 2017 fod 24% o boblogaeth yr ardal o dan 16 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 18%. Dangosodd Cyfrifiad 2011:

- fod 77% o'r tai wedi'u rhentu, tai rhent cymdeithasol yn bennaf, a oedd yn cyfrif am 70% o'r tai (o gymharu ag 16% tai rhent cymdeithasol ledled Cymru)
- cyfrannau ychydig yn uwch na'r cyfartaledd o aelwydydd un person (38% o gymharu â 31% ar gyfer Cymru) ac o aelwydydd â phlant dibynnol (35% o gymharu ag 28% ar gyfer Cymru)
- bod 34% o'r anheddau yn fflatiau, yn fflatiau deulawr neu'n rhandai (13% ar gyfer Cymru), yn hytrach na thŷ cyfan
- bod dosbarthiadau ardal y Cyfrifiad yn rhoi Sant Iago 3 yn y categori "cymunedau dan bwysau" (a'r grŵp "cymunedau gwyn sy'n wynebu heriau"), sydd â'r gyfradd diweithdra uchaf ar draws y categorïau

### 4. Pendyrus 1, Rhondda Cynon Taf





Lleolir Pendyrus 1 o amgylch ardal Pen-rhys yng Nghwm Rhondda. Dengys ei [phroffil amddifadedd ym MALIC 2019] fod Pendyrus 1 ymhlith y 10 ardal fwyaf difreintiedig ar gyfer y meysydd Incwm ac Iechyd. Mae hefyd ymhlith y 10% (191) o ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran Cyflogaeth, Addysg a Diogelwch Cymunedol. Dengys data dangosyddion MALIC fod 47% o'r bobl ym Mhendyrus 1 mewn amddifadedd incwm yn 2016-17.

Yn flaenorol, roedd yr ardal yn y pumed safle ym MALIC 2014. Mae'n un o'r ardaloedd o amddifadedd “hirsefydlog” a ddisgrifir yn adran 2.6, sy'n nodi ardaloedd sydd wedi bod ymhlith y 50 o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gyson ers MALIC 2005. Mae Pendyrus 1 wedi mynd yn gymharol fwy difreintiedig ar gyfer pob fersiwn o'r Mynegai ers MALIC 2005.

Dengys amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer 2017 fod 26% o boblogaeth yr ardal o dan 16 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 18%. Dangosodd Cyfrifiad 2011:

- fod 57% o'r tai wedi'u rhentu, tai rhent cymdeithasol yn bennaf, a oedd yn cyfrif am 42% o'r tai (o gymharu ag 16% tai rhent cymdeithasol ledled Cymru)
- cyfrannau ychydig yn uwch na'r cyfartaledd o aelwydydd un person (36% o gymharu â 31% ar gyfer Cymru) ac o aelwydydd â phlant dibynnol (34% o gymharu ag 28% ar gyfer Cymru)
- bod dosbarthiadau ardal y Cyfrifiad yn rhoi Pendyrus 1 yn y categori “cymunedau dan bwysau” (a'r grŵp “cymunedau gwyn sy'n wynebu heriau”), sydd â'r gyfradd diweithdra uchaf ar draws y categorïau

## 5. Caerau (Pen-y-bont ar Ogwr) 1, Pen-y-bont ar Ogwr





Mae Caerau (Pen-y-bont ar Ogwr) 1 yn cynnwys Parc Caerau a'r Stad Tudor. Dengys ei phroffil amddifadedd ym MALIC 2019 fod yr ardal ymhlith y 10 ardal fwyaf difreintiedig ar gyfer y meysydd Cyflogaeth ac Iechyd. Mae yn y safle cyntaf (sef yr ardal fwyaf difreintiedig) ar gyfer Iechyd. Mae hefyd ymhlith y 10% (191) o ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran Incwm, Addysg a Diogelwch Cymunedol. Dengys data dangosyddion MALIC fod 46% o'r bobl yng Nghaerau 1 mewn amddifadedd incwm yn 2016-17.

Yn flaenorol, roedd yr ardal yn y chweched safle ym MALIC 2014. Mae'n un o'r ardaloedd o amddifadedd "hirsefydlog" a ddisgrifir yn adran 2.6, sy'n nodi ardaloedd sydd wedi bod ymhlith y 50 o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gyson ers MALIC 2005. Mae Caerau 1 wedi mynd yn gymharol fwy difreintiedig ar gyfer pob fersiwn o'r Mynegai ers MALIC 2005.

Dengys amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer 2017 fod 26% o boblogaeth yr ardal o dan 16 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 18%. Dangosodd Cyfrifiad 2011:

- fod 49% o'r tai wedi'u rhentu, tai rhent cymdeithasol yn bennaf, a oedd yn cyfrif am 39% o'r tai (o gymharu ag 16% tai rhent cymdeithasol ledled Cymru)
- cyfran ychydig yn uwch na'r cyfartaledd o aelwydydd â phlant dibynnol (32% o gymharu ag 28% ar gyfer Cymru)
- bod dosbarthiadau ardal y Cyfrifiad yn rhoi Caerau (Pen-y-bont ar Ogwr) 1 yn y categori "cymunedau dan bwysau" (a'r grŵp "cymunedau gwyn sy'n wynebu heriau"), sydd â'r gyfradd diweithdra uchaf ar draws y categorïau

### 6. Penrhiw-ceibr 1, Rhondda Cynon Taf





Mae Penrhiw-ceibr 1 yn rhychwantu pentref Perthcelyn a rhan o Penrhiwceiber. Dengys ei phroffil amddifadedd ym MALIC 2019 fod Penrhiw-ceibr 1 ymhlith y 10 ardal fwyaf difreintiedig ar gyfer y meysydd Iechyd ac Addysg. Mae hefyd ymhlith y 10% (191) o ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran Incwm a Chyflogaeth. Dengys data dangosyddion MALIC fod 45% o'r bobl ym Mhenrhiw-ceibr 1 mewn amddifadedd incwm yn 2016-17.

Yn flaenorol, roedd yr ardal yn y pymthegfed safle ym MALIC 2014. Mae'n un o'r ardaloedd o amddifadedd "hirsefydlog" a ddisgrifir yn adran 2.6, sy'n nodi ardaloedd sydd wedi bod ymhlith y 50 o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gyson ers MALIC 2005. Mae Penrhiw-ceibr 1 wedi bod ymhlith y 15 o ardaloedd mwyaf difreintiedig ers MALIC 2005.

Dengys amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer 2017 fod 24% o boblogaeth yr ardal o dan 16 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 18%. Dangosodd Cyfrifiad 2011:

- fod 48% o'r tai wedi'u rhentu, tai rhent cymdeithasol yn bennaf, a oedd yn cyfrif am 35% o'r tai (o gymharu ag 16% tai rhent cymdeithasol ledled Cymru)
- cyfran ychydig yn uwch na'r cyfartaledd o aelwydydd â phlant dibynnol (37% o gymharu ag 28% ar gyfer Cymru)
- bod dosbarthiadau ardal y Cyfrifiad yn rhoi Penrhiw-ceibr 1 yn y categori "cymunedau dan bwysau" (a'r grŵp "cymunedau gwyn sy'n wynebu heriau"), sydd â'r gyfradd diweithdra uchaf ar draws y categorïau

## 7. Penydarren 1, Merthyr Tudful





Penydarren 1 yw ardal Galon Uchaf o Ferthyr Tudful. Dengys ei phroffil amddifadedd ym MALIC 2019 fod Penydarren 1 ymhlith y 10 ardal fwyaf difreintiedig ar gyfer y meysydd Incwm ac Addysg. Mae hefyd ymhlith y 10% (191) o ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran Cyflogaeth, Iechyd a Thai. Dengys data dangosyddion MALIC fod 46% o'r bobl ym Mhenydarren 1 mewn amddifadedd incwm yn 2016-17.

Yn flaenorol, roedd yr ardal yn y 14eg safle ym MALIC 2014. Mae'n un o'r ardaloedd o amddifadedd "hirsefydlog" a ddisgrifir yn adran 2.6, sy'n nodi ardaloedd sydd wedi bod ymhlith y 50 o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gyson ers MALIC 2005. Mae Penydarren 1 wedi bod ymhlith y 14 o ardaloedd mwyaf difreintiedig ers MALIC 2005.

Dengys amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer 2017 fod 27% o boblogaeth yr ardal o dan 16 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 18%. Dangosodd Cyfrifiad 2011:

- fod 57% o'r tai wedi'u rhentu, tai rhent cymdeithasol yn bennaf, a oedd yn cyfrif am 50% o'r tai (o gymharu ag 16% tai rhent cymdeithasol ledled Cymru)
- cyfran lawer uwch na'r cyfartaledd o aelwydydd â phlant dibynnol (48% o gymharu ag 28% ar gyfer Cymru)
- bod bron pob annedd yn dŷ cyfan (98%, tai pâr yn bennaf) yn hytrach na fflatiau ac ati, sy'n gyfran uwch nag a gofnodwyd ledled Cymru (87%)
- bod dosbarthiadau ardal y Cyfrifiad yn rhoi Penydarren 1 yn y categori "cymunedau dan bwysau" (a'r grŵp "cymunedau gwyn sy'n wynebu heriau"), sydd â'r gyfradd diweithdra uchaf ar draws y categorïau

## 8. Twyn Carno 1, Caerffili





Lleolir Twyn Carno 1 ym mhen gogleddol tref Rhymni. Dengys ei phroffil amddifadedd ym MALIC 2019 fod Twyn Carno 1 ymhlith y 10 ardal fwyaf difreintiedig ar gyfer y meysydd Cyflogaeth ac Addysg. Mae hefyd ymhlith y 10% (191) o ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran Incwm, Iechyd a Diogelwch Cymunedol. Dengys data dangosyddion MALIC fod 43% o'r bobl yn Nhwyn Carno 1 mewn amddifadedd incwm yn 2016-17.

Yn flaenorol, roedd yr ardal yn y seithfed safle ym MALIC 2014. Mae'n un o'r ardaloedd o amddifadedd "hirsefydlog" a ddisgrifir yn adran 2.6, sy'n nodi ardaloedd sydd wedi bod ymhlith y 50 o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gyson ers MALIC 2005. Mae Twyn Carno 1 wedi bod ymhlith yr wyth ardal fwyaf difreintiedig ers MALIC 2005.

Dengys amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer 2017 fod 24% o boblogaeth yr ardal o dan 16 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 18%. Dangosodd Cyfrifiad 2011:

- fod 61% o'r tai wedi'u rhentu, tai rhent cymdeithasol yn bennaf, a oedd yn cyfrif am 57% o'r tai (o gymharu ag 16% tai rhent cymdeithasol ledled Cymru)
- cyfran uwch na'r cyfartaledd o aelwydydd â phlant dibynnol (38% o gymharu ag 28% ar gyfer Cymru)
- bod cyfran ychydig yn uwch o'r anheddau yn fflatiau, yn fflatiau deulawr neu'n rhandai, yn hytrach na thŷ cyfan (18% o gymharu â 13% ar gyfer Cymru)
- bod dosbarthiadau ardal y Cyfrifiad yn rhoi Twyn Carno 1 yn y categori "cymunedau dan bwysau" (a'r grŵp "cymunedau gwyn sy'n wynebu heriau"), sydd â'r gyfradd diweithdra uchaf ar draws y categorïau

### 9. Queensway 1, Wrecsam





Mae Queensway 1 yn rhan o Gymuned Parc Caia yn Wrecsam. Dengys ei phroffil amddifadedd ym MALIC 2019 fod Queensway 1 ymhlith y 10 ardal fwyaf difreintiedig ar gyfer y meysydd Incwm, Addysg a Diogelwch Cymunedol. Mae hefyd ymhlith y 10% (191) o ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran Cyflogaeth ac Iechyd. Dengys data dangosyddion MALIC fod 47% o'r bobl yn Queensway 1 mewn amddifadedd incwm yn 2016-17.

Yn flaenorol, roedd yr ardal yn y trydydd safle (sef y drydedd ardal fwyaf difreintiedig) ym MALIC 2014. Mae'n un o'r ardaloedd o amddifadedd “hirsefydlog” a ddisgrifir yn adran 2.6, sy'n nodi ardaloedd sydd wedi bod ymhlith y 50 o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gyson ers MALIC 2005. Mae Queensway 1 wedi bod ymhlith y naw ardal fwyaf difreintiedig ers MALIC 2005.

Dengys amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer 2017 fod 36% o boblogaeth yr ardal o dan 16 oed, sy'n llawer uwch na chyfartaledd Cymru, sef 18%. Dangosodd Cyfrifiad 2011:

- bod 86% o'r tai wedi'u rhentu, tai rhent cymdeithasol yn bennaf, a oedd yn cyfrif am 85% o'r tai (o gymharu ag 16% tai rhent cymdeithasol ledled Cymru)
- bod gan hanner yr aelwydydd blant dibynnol, sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd (28% ar gyfer Cymru)
- bod 24% o'r anheddau yn fflatiau, yn fflatiau deulawr neu'n rhandai (13% ar gyfer Cymru), yn hytrach na thŷ cyfan
- fod canran ychydig yn uwch na'r cyfartaledd o'r trigolion wedi'u geni y tu allan i'r DU (6.7% o gymharu â 5.5% ledled Cymru)
- bod dosbarthiadau ardal y Cyfrifiad yn rhoi Queensway 1 yn y categori “cymunedau dan bwysau” (a'r grŵp “cymunedau gwyn sy'n wynebu heriau”), sydd â'r gyfradd diweithdra uchaf ar draws y categorïau

### 10. Pillgwenlli 4, Casnewydd




Mae Pillgwenlli 4 yn ardal boblog iawn i'r de o Cardiff Road yng Nghymuned Pillgwenlli yng Nghasnewydd. Dengys [ei phroffil amddifadedd ym MALIC 2019] fod yr ardal ymhlith y 10 ardal fwyaf difreintiedig ar gyfer y maes Diogelwch Cymunedol. Mae hefyd ymhlith y 10% (191) o ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran Incwm, Cyflogaeth ac Iechyd. Dengys data dangosyddion MALIC fod 44% o'r bobl ym Mhillgwenlli 4 mewn amddifadedd incwm yn 2016-17.

Roedd yr ardal hefyd yn y degfed safle ym MALIC 2014. Fodd bynnag, nid yw'n un o'r ardaloedd o amddifadedd "hirsefydlog" a ddisgrifir yn adran 2.6, sy'n nodi ardaloedd sydd wedi bod ymhlith y 50 o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gyson ers MALIC 2005. Y rheswm dros hyn yw ei bod yn y 65ain safle ym MALIC 2005. Ers MALIC 2008, mae wedi bod ymhlith y 27 o ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Dengys amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer 2017 fod 24% o boblogaeth yr ardal o dan 16 oed, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 18%. Dangosodd Cyfrifiad 2011:

- bod 74% o'r tai wedi'u rhentu, tai rhent cymdeithasol yn bennaf, a oedd yn cyfrif am 60% o'r tai (o gymharu ag 16% tai rhent cymdeithasol ledled Cymru)
- cyfran uwch na'r cyfartaledd o aelwydydd un person (50% o gymharu â 31% ar gyfer Cymru), a chyfran ychydig yn uwch lle roedd yr holl breswylwyr yn 65+ oed (24% o gymharu â 23% ledled Cymru)
- bod 53% o'r anheddau yn fflatiau, yn fflatiau deulawr neu'n rhandai (13% ar gyfer Cymru), yn hytrach na thŷ cyfan
- ganran lawer uwch na'r cyfartaledd o bobl o grŵp ethnig heb fod yn wyn (46.9% o gymharu â 4.4% ledled Cymru)
- bod 27% o'r trigolion wedi'u geni y tu allan i'r DU (5.5% ledled Cymru)
- bod dosbarthiadau ardal y Cyfrifiad yn rhoi Pillgwenlli 4 yn y categori "byw amlddiwylliannol" (a'r grŵp "cymysgedd diwylliannol trefol")

### Ardaloedd sydd wedi symud allan o grŵp y 10 ardal fwyaf difreintiedig ers MALIC 2014

**Y Sblot 6, Caerdydd**

Mae'r Sblot 6 yn cwmpasu'r ardal o amgylch East Tyndall Street ac Ocean Way yn ne-ddwyrain Caerdydd. Mae'r ardal bellach yn y 12fed safle ond, yn flaenorol, roedd yn y pedwerydd safle ym MALIC 2014. Mae'r newid hwn i'w briodoli i leihad mewn amddifadedd cymharol ar gyfer Incwm ac Addysg, ymhlith meysydd eraill.

Dengys ei phroffil amddifadedd ym MALIC 2019 fod y Sblot 6 yn dal i fod ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig ar gyfer pob maes ac eithrio Mynediad i Wasanaethau. Er nad yw'n un o'r ardaloedd o amddifadedd “hirsefydlog” a ddisgrifir yn adran 2.6 (sef yr ardaloedd sydd ymhlith y 50 o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gyson), y rheswm dros hyn yw ei bod ychydig y tu allan i grŵp y 50 o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn MALIC 2005 (yn y 54ain safle) a MALIC 2008 (yn y 51ain safle).

**Ynyswen 2, Merthyr Tudful**

Mae Ynyswen 2 yn cynnwys y rhan fwyaf o bentref Ynyswen ar lannau afon Taf. Mae'r ardal bellach yn y 34ain safle ond, yn flaenorol, roedd yn yr wythfed safle ym MALIC 2014. Mae'r newid hwn i'w briodoli i leihad mewn amddifadedd ar gyfer pob un o'r pum maes â'r pwysoliad uchaf (sef Incwm, Cyflogaeth, Iechyd, Addysg a Mynediad i Wasanaethau), yn ogystal â Diogelwch Cymunedol.

Dengys ei phroffil amddifadedd ym MALIC 2019 fod Ynyswen 2 yn dal i fod ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig ar gyfer pob maes ac eithrio Mynediad i Wasanaethau a Diogelwch Cymunedol. Mae'n un o'r ardaloedd o amddifadedd “hirsefydlog” a ddisgrifir yn adran 2.6, sy'n nodi ardaloedd sydd wedi bod ymhlith y 50 o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gyson ers MALIC 2005. MALIC 2014 oedd yr unig dro roedd yr ardal ymhlith y 10 ardal fwyaf difreintiedig.

**Pen-y-waun 2, Rhondda Cynon Taf**


Mae Pen-y-waun 2 yng nghymuned Pen-y-waun ym mhen uchaf Cwm Cynon. Mae'r ardal bellach yn y 15fed safle ond, yn flaenorol, roedd yn y nawfed safle ym MALIC 2014. Mae'r newid hwn i'w briodoli i leihad mewn amddifadedd cymharol ar gyfer meysydd Incwm, Cyflogaeth ac Iechyd.

Dengys ei phroffil amddifadedd ym MALIC 2019 fod Pen-y-waun 2 yn y trydydd safle ar gyfer y maes Addysg a'i fod yn dal i fod ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig hefyd ar gyfer y meysydd Incwm, Cyflogaeth ac Iechyd. Mae'n un o'r ardaloedd o amddifadedd “hirsefydlog” a ddisgrifir yn adran 2.6, sy'n nodi ardaloedd sydd wedi bod ymhlith y 50 o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gyson ers MALIC 2005. Mae Pen-y-waun 2 wedi bod ymhlith y 19 o ardaloedd mwyaf difreintiedig ers MALIC 2005.

## 2.5. Dadansoddi MALIC 2019 yn ôl awdurdod lleol

Dengys y siart isod ddosbarthiad safleoedd MALIC 2019 ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r blychau glas yn cynnwys hanner cyfanswm yr ardaloedd bach ym mhob awdurdod lleol, wedi'i ganoli ar y safle canolrifol (canol) ar gyfer pob awdurdod lleol a dengys y 'wisgers' yr ystod lawn o safleoedd. Mae amddifadedd yn cynyddu wrth i'r safle ostwng (hynny yw, tua gwaelod y plot).

**Siart 1: Plot blychau o safleoedd Cyffredinol MALIC 2019, yn ôl awdurdod lleol**



Dengys y tabl isod, ar gyfer Mynegai cyffredinol MALIC 2019, ganran yr ardaloedd bach (ACEHIau) ym mhob awdurdod lleol a oedd yn y 10%, yr 20%, y 30% a'r 50% o ardaloedd bach mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

**Tabl 3: Ardaloedd difreintiedig MALIC 2019, yn ôl awdurdod lleol**

| Awdurdod lleol | Nifer yr ACEHIau yn yr awdurdod lleol | % yr ACEHIau yn y 10% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-191 | % yr ACEHIau yn yr 20% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-382 | % yr ACEHIau yn y 30% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-573 | % yr ACEHIau yn y 50% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-955 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 2.3 | 13.6 | 18.2 | 38.6 |
| Gwynedd | 73 | 2.7 | 5.5 | 8.2 | 34.2 |
| Conwy | 71 | 5.6 | 12.7 | 19.7 | 40.8 |
| Sir Ddinbych | 58 | 12.1 | 15.5 | 22.4 | 46.6 |
| Sir y Fflint | 92 | 3.3 | 10.9 | 19.6 | 31.5 |
| Wrecsam | 85 | 7.1 | 11.8 | 28.2 | 41.2 |
| Powys | 79 | 1.3 | 6.3 | 11.4 | 24.1 |
| Ceredigion | 46 | 2.2 | 4.3 | 6.5 | 45.7 |
| Sir Benfro | 71 | 5.6 | 11.3 | 15.5 | 42.3 |
| Sir Gaerfyrddin | 112 | 4.5 | 10.7 | 26.8 | 54.5 |
| Abertawe | 148 | 11.5 | 23.6 | 31.1 | 45.9 |
| Castell-nedd Port Talbot | 91 | 15.4 | 33.0 | 45.1 | 69.2 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 6.8 | 20.5 | 39.8 | 55.7 |
| Bro Morgannwg | 79 | 3.8 | 12.7 | 19.0 | 35.4 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 17.5 | 28.6 | 45.5 | 71.4 |
| Merthyr Tudful | 36 | 22.2 | 30.6 | 50.0 | 77.8 |
| Caerffili | 110 | 10.0 | 23.6 | 38.2 | 62.7 |
| Blaenau Gwent | 47 | 12.8 | 44.7 | 63.8 | 85.1 |
| Tor-faen | 60 | 5.0 | 31.7 | 41.7 | 56.7 |
| Sir Fynwy | 56 | 0.0 | 1.8 | 5.4 | 19.6 |
| Casnewydd | 95 | 24.2 | 34.7 | 40.0 | 60.0 |
| Caerdydd | 214 | 18.2 | 27.6 | 34.6 | 49.1 |
| **Cymru** | **1909** | **10** | **20** | **30** | **50** |

Un ffordd o ystyried data MALIC ar lefel awdurdod lleol yw edrych ar gyfran yr ardaloedd yn yr awdurdod lleol sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig (neu'r 20% ac ati) o'r holl ardaloedd yng Nghymru. Gellir ystyried bod y fath ddull yn nodi'r crynodiad o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na lefel amddifadedd gyfartalog.

Yr awdurdod lleol â'r gyfran uchaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ym MALIC 2019 oedd Casnewydd (24.2% neu 23 o ardaloedd).

Nid oedd yr un o ardaloedd Sir Fynwy yn y 10% mwyaf difreintiedig a dim ond 19.6% (neu 11 o ardaloedd) a oedd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Blaenau Gwent a oedd â'r ganran uchaf o ardaloedd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (85.1% neu 40 o ardaloedd). Merthyr Tudful oedd â'r ganran uchaf ond un, gyda 77.8% (neu 28) o'i ardaloedd yn hanner mwyaf difreintiedig Cymru.

Yn gyffredinol, mae gan awdurdodau lleol yn y cymoedd ac awdurdodau lleol trefol grynodiadau uwch o amddifadedd lluosog. Trafodir hyn ymhellach yn yr erthygl ar gyfer MALIC 2014 ar ddadansoddi amddifadedd mewn ardaloedd gwledig, y disgwylir iddi gael ei diweddaru gyda dadansoddiad MALIC 2019 yn gynnar yn 2020.

### 2.6. Amddifadedd Hirsefydlog

Mae ardaloedd bach (ardaloedd cynnyrch ehangach haen is neu ACEHIau) o amddifadedd 'hirsefydlog' yn ardaloedd sydd wedi aros ymhlith y 50 o ardaloedd mwyaf difreintiedig, sy'n cyfateb yn fras i'r 2.6% uchaf o ardaloedd bach yng Nghymru ar gyfer y pum fersiwn ddiwethaf o MALIC lle y cyhoeddwyd safleoedd ardaloedd (sef MALIC 2005, 2008, 2011, 2014 a 2019). Felly, dros gyfnod o 15 mlynedd, ystyrir mai'r ardaloedd bach sy'n perthyn i'r categori hwn yw'r rhai mwyaf difreintiedig, am eu bod wedi ymddangos yn gyson ymhlith y 50 uchaf o'r 1,909 o ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'r dadansoddiad ond yn edrych ar safleoedd mor bell yn ôl â MALIC 2005 am mai hwn oedd y Mynegai cyntaf a oedd yn seiliedig ar ddaearyddiaeth bresennol ACEHIau. Mae'r data sy'n sail i'r dadansoddiad hwn, yn ogystal â chanllawiau ar sut i'w defnyddio wedi cael eu cyhoeddi ar dudalennau gwe StatsCymru Llywodraeth Cymru.

Am fod MALIC yn mesur amddifadedd cymharol, nid yw'n rhoi unrhyw syniad o lefel amddifadedd yn yr ardaloedd bach hyn. Mae'n bosibl bod lefelau amddifadedd yn yr ardaloedd bach sy'n perthyn i'r categori amddifadedd hirsefydlog wedi gostwng ers MALIC 2005, ond mae'r ardaloedd hyn yn dal i fod ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig o'u cymharu ag ardaloedd bach eraill yng Nghymru.

Mae cyfanswm o 26 o ardaloedd bach mewn amddifadedd hirsefydlog, sy'n cyfateb i tua 1.4% o'r holl ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn y tabl isod, wedi'u trefnu yn ôl eu safleoedd Cyffredinol ym MALIC 2019, ac fe'u dangosir hefyd ar y map isod.

O'r ardaloedd bach sydd wedi'u rhestru, mae tair wedi bod ymhlith y 10 ardal fwyaf difreintiedig ers MALIC 2005 (Gorllewin y Rhyl 2, Twyn Carno 1, Queensway 1). Yn ogystal â'r tair ardal fach hyn, mae pump arall (sef Gorllewin y Rhyl 1, Sant Iago 3, Penrhiw-ceibr 1, Penydarren 1, Pen-y-waun 2) yn ffurfio'r wyth ardal fach sydd wedi bod ymhlith yr 20 ardal fwyaf difreintiedig yn gyson.

Mae'r 26 o ardaloedd bach o amddifadedd hirsefydlog wedi'u rhannu rhwng 10 Awdurdod Lleol a cheir y nifer fwyaf ohonynt yn Abertawe. Mae'r wyth ardal fach hyn a leolir yn Abertawe yn cyfrif am bron traean (31%) o'r rhai sy'n ymddangos yn gyson ymhlith y 50 o ardaloedd mwyaf difreintiedig, sef ddwywaith gymaint â'r Awdurdodau Lleol â'r nifer fwyaf ond un (sef Rhondda Cynon Taf a Chaerffili, gyda phedair ardal fach yr un).

**Tabl 4 : ACEHIau o Amddifadedd Hirsefydlog**

| ACEHI | Awdurdod Lleol | Enw ACEHI | Safle MALIC 2019 |
|---|---|---|---|
| W01000240 | Sir Ddinbych | Rhyl Gorllewin 2 | 1 |
| W01000239 | Sir Ddinbych | Rhyl Gorllewin 1 | 2 |
| W01001421 | Caerffili | Sant Iago 3 | 3 |
| W01001274 | Rhondda Cynon Taf | Pendyrus 1 | 4 |
| W01000991 | Pen-y-bont ar Ogwr | Caerau (Pen-y-bont ar Ogwr) 1 | 5 |
| W01001209 | Rhondda Cynon Taf | Penrhiw-ceiber 1 | 6 |
| W01001308 | Merthyr Tudful | Penydarren 1 | 7 |
| W01001428 | Caerffili | Twyn Carno 1 | 8 |
| W01000413 | Wrecsam | Queensway 1 | 9 |
| W01001222 | Rhondda Cynon Taf | Pen-y-waun 2 | 15 |
| W01000863 | Abertawe | Townhill 2 | 16 |
| W01000862 | Abertawe | Townhill 1 | 18 |
| W01000237 | Sir Ddinbych | Rhyl De Orllewin 2 | 19 |
| W01000832 | Abertawe | Penderi 3 | 22 |
| W01000742 | Abertawe | Castell 1 | 23 |
| W01001739 | Caerdydd | Trelái 3 | 24 |
| W01001339 | Caerffili | Bargod 4 | 29 |
| W01000830 | Abertawe | Penderi 1 | 31 |
| W01000864 | Abertawe | Townhill 3 | 32 |
| W01001144 | Rhondda Cynon Taf | Abercynon 2 | 33 |
| W01001303 | Merthyr Tudful | Ynyswen 2 | 34 |
| W01001479 | Blaenau Gwent | Tredegar Canol a Gorllewin 2 | 35 |
| W01000817 | Abertawe | Mynydd-bach 1 | 37 |
| W01000921 | Castell-nedd Port Talbot | Cymer (Castell-nedd Port Talbot) 2 | 38 |
| W01001345 | Caerffili | Bedwas Tretomos a Machen 6 | 43 |
| W01000833 | Abertawe | Penderi 4 | 48 |


Mae 12 o Awdurdodau Lleol heb unrhyw ardaloedd bach o amddifadedd hirsefydlog (sef Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir y Fflint, Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Bro Morgannwg, Torfaen, Casnewydd a Sir Fynwy). Nid yw hyn yn golygu nad oes unrhyw ardaloedd difreintiedig iawn yn yr Awdurdodau Lleol hyn ar hyn o bryd.

Mae 22 o'r ardaloedd bach y nodwyd eu bod mewn amddifadedd hirsefydlog yn cael eu hystyried yn ardaloedd Trefol (Dinesig a Threfol), sy'n cyfateb i 85% o'r cyfanswm. Mae'r 4 arall (15%) yn cael eu hystyried yn ardaloedd Gwledig (Trefol ac ar y Cyrion).

Mae pob un ond un o'r 26 wedi'u lleoli mewn Ardal Adeiledig benodol, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn Abertawe (8), wedi'u dilyn gan y Rhyl (3) a Chaerffili (2). Yr Ardaloedd Adeiledig eraill sydd ag un ardal fach o amddifadedd hirsefydlog yr un yw Abercynon, Aberfan, Bargod, Caerdydd, Hirwaun, Maesteg, Merthyr Tudful, Aberpennar, Rhymni, Tredegar, Pendyrus a Wrecsam. Yr ardal sydd mewn amddifadedd hirsefydlog nad yw mewn Ardal Adeiledig yw Cymer 2 yng Nghastell-nedd Port Talbot, sydd wedi'i chanoli o amgylch pentref Croeserw.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

# Amddifadedd Hirsefydlog




Ardaloedd bach o amddifadedd hirsefydlog

Ffin Awdurdod Lleol

© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2019. Arolwg Ordnans 100021874
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/49/19.20
Tachwedd 2019

**Sir Ddinbych**
Rhyl De Orllewin 2,
Rhyl Gorllewin 1,2





**Wrecsam**
Queensway 1

**Merthyr Tudful**
Penydarren 1,
Ynysowen 2

**Caerffili**
Bargod 4, Bedwas
Tretomos a Machen 6,
Sant Iago 3, Twyn Carno 1

**Blaenau Gwent**
Tredegar Canol
a Gorllewin 2

**Abertawe**
Castell 1,
Mynydd-bach 1,
Penderi 1,3,4,
Townhill 1,2,3




**Castell-nedd Port Talbot**
Cymer (Castell-nedd Port Talbot) 2

**Pen-y-bont ar Ogwr**
Caerau (Pen-y-bont ar Ogwr) 1

**Rhondda Cynon Taf**
Abercynon 2, Pen-y-waun 2,
Pendyrus 1, Penrhiw-ceiber 1

**Caerdydd**
Trelái 3


# 3. Y Maes Incwm

## 3.1. Cyflwyniad

Diben y maes hwn yw mesur cyfran y bobl sydd ag incwm islaw lefel wedi ei diffinio. Mae gan y maes bwysoliad cymharol o 22% yn y mynegai cyffredinol. I gael disgrifiad cyflawn o sut y lluniwyd y maes, gweler Adroddiad Technegol MALIC 2019.

## 3.2. Dangosydd

Mae gan y maes ddangosydd cyfansawdd sengl, sef amddifadedd incwm, sy'n cynnwys pedair elfen:




- Hawlwyr budd-daliadau seiliedig ar incwm; mae hyn yn cynnwys hawlwyr Cymhorthdal Incwm, hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith, hawlwyr Credyd Pensiwn, a hawlwyr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm; a'u plant dibynnol. Daw'r data gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r data'n seiliedig ar gyfartaledd yr unigolion a oedd yn derbyn y budd-daliadau hyn yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17. Un waith yn unig y caiff unigolion sy'n derbyn sawl budd-dal eu cyfrif yn yr elfen hon.
- Nifer y plant a'r oedolion mewn teuluoedd sy'n derbyn Credydau Treth Gwaith a Chredydau Treth Plant, ac y mae eu hincwm yn is na 60% o'r incwm canolrifol ar gyfer Cymru (Cyn

Costau Tai). Daw’r data gan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi, gan ddefnyddio data am gredydau treth 2015/16 fel ag yr oeddent ar 31 Awst 2015.

- Ceiswyr Lloches a Gynorthwyir, hy y rheini a gynorthwyir o dan Adran 95 o'r Ddeddf Lloches a Mewnfudo, a'u plant dibynnol. Daw'r data gan y Swyddfa Gartref, fel ag yr oeddent ar 30 Mehefin 2017.
- Pobl ar Gredyd Cynhwysol a'u plant dibynnol. Rydym yn eithrio'r rhai sy'n "gweithio heb ofynion" yn unol â nodwr "amodoldeb" y set ddata. Daw'r data gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2016-17.

Caiff y dangosyddion eu cyfansymio a'u cyflwyno fel canran o boblogaeth breswyl yr ardal. Daw’r amcangyfrifon ar gyfer y boblogaeth breswyl o Amcangyfrifon Poblogaeth Ardaloedd Bach Canol-2016, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. O ran y pedair ardal sy’n cynnwys carchardai, nid ydym yn cyfrif y boblogaeth a oedd mewn carchardai ganol 2016 (daw'r data gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder) yn yr amcangyfrifon poblogaeth.

O ganlyniad, mae'r dangosydd cyfansawdd yn rhoi darlun trawstoriadol o bobl sydd mewn amddifadedd incwm, a fesurir drwy edrych a yw’r bobl hyn yn derbyn credydau treth neu fudd-daliadau penodol yn seiliedig ar incwm.

Mae pwysoliad y maes wedi gostwng o 23.5% i 22% ar gyfer MALIC 2019. Mae hyn yn adlewyrchu bod y data y gallwn eu defnyddio yn dyddio mwy a mwy (yn sgil effaith cyflwyno Credyd Cynhwysol fesul tipyn), ac yn adlewyrchu dyhead i gynyddu ychydig ar bwysoliad meysydd allweddol eraill yn awr gyda gwell data (iechyd a thai). Mae gwybodaeth dechnegol gyflawn ar y dangosydd ar gael yn Adroddiad Technegol MALIC 2019.

### 3.3. Prif ganlyniadau'r maes incwm

- Ym maes incwm MALIC 2019, roedd pocedi o amddifadedd incwm uchel yng nghymoedd a dinasoedd mawr y De, ac mewn rhai trefi arfordirol yn y Gogledd. Dangosir hyn ar y map sy'n dilyn.
- Roedd gan bob awdurdod lleol ac eithrio Sir Fynwy o leiaf rai ardaloedd gyda dros 30% o bobl mewn amddifadedd incwm (sy'n gyfwerth â bod yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig).
- Yr awdurdodau lleol â’r gyfran fwyaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig oedd Casnewydd, Merthyr Tudful a Chaerdydd, pob un ohonynt ar tua 20%. Nid oedd gan Sir Fynwy unrhyw ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig.
- Ar gyfer y maes incwm, yr ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Gorllewin y Rhyl 2, Sir Ddinbych (o amgylch Stryd Fawr y Rhyl), yr un fath ag ar gyfer MALIC 2014. Roedd wyth o'r 10 ardal fwyaf difreintiedig ym MALIC 2019 hefyd yn y 10 ardal fwyaf difreintiedig ym MALIC 2014.
- Mae’r patrymau amddifadedd incwm cyffredinol a welir ym MALIC 2019 yn debyg i’r rhai hynny a welir ym MALIC 2014.

- Mae 21.6% o’r bobl sy’n ddifreintiedig o ran incwm yn y 10% o ardaloedd bach mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes incwm (yr ardaloedd yn safleoedd 1-191).
- Mae ychydig dros hanner y rheini sy’n ddifreintiedig o ran incwm yn y 28.6% o ardaloedd mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes incwm.
- Ar y cyfan, roedd cyfradd amddifadedd incwm ar gyfer MALIC 2019 ychydig yn is nag ar gyfer MALIC 2014 (16 o'i gymharu â 17%). Er bod y rhan fwyaf o ardaloedd bach wedi gweld gostyngiad yng nghyfradd amddifadedd incwm, gwelodd llawer ohonynt y gyfradd yn aros yr un fath neu'n cynyddu ychydig.

## 3.4. Cymharu’r maes incwm rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019

Gallwch lawrlwytho’r gyfres gyflawn o safleoedd meysydd ym MALIC 2019 a'r dangosyddion sylfaenol oddi ar dudalennau gwe StatsCymru Llywodraeth Cymru.


Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob un o grwpiau amddifadedd MALIC ar gyfer MALIC 2014 a MALIC 2019. Mae’r rhifau lletraws, mewn print trwm, yn dangos nifer yr ardaloedd sydd wedi aros yn yr un grŵp amddifadedd. Uwchben y rhifau lletraws nodir niferoedd yr ardaloedd sydd wedi symud o grŵp mwy difreintiedig i grŵp llai difreintiedig. O dan y rhifau lletraws nodir niferoedd yr ardaloedd sydd wedi symud o grŵp llai difreintiedig i grŵp mwy difreintiedig.

**Tabl 5: Symudiadau rhwng grwpiau amddifadedd incwm rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019**

| | | Maes MALIC 2019 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Y 10% mwyaf difreintiedig (safleoedd 1-191) | Y 10-20% mwyaf difreintiedig (safleoedd 192-382) | Yr 20-30% mwyaf difreintiedig (safleoedd 383-573) | Y 30-50% mwyaf difreintiedig (safleoedd 574-955) | Y 50% lleiaf difreintiedig (safleoedd 956-1909) | Cyfanswm (safleoedd 1-1909) |
| **Maes MALIC 2014** | Y 10% mwyaf difreintiedig (safleoedd 1-191) | **166** | 23 | 1 | 1 | 0 | 191 |
| | Y 10-20% mwyaf difreintiedig (safleoedd 192-382) | 24 | **135** | 30 | 2 | 0 | 191 |
| | Yr 20-30% mwyaf difreintiedig (safleoedd 383-573) | 1 | 33 | **109** | 48 | 0 | 191 |
| | Y 30-50% mwyaf difreintiedig (safleoedd 574-955) | 0 | 0 | 51 | **281** | 50 | 382 |
| | Y 50% lleiaf difreintiedig (safleoedd 956-1909) | 0 | 0 | 0 | 50 | **904** | 954 |
| | Cyfanswm (safleoedd 1-1909) | 191 | 191 | 191 | 382 | 954 | **1909** |

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

# Y Maes Incwm




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2019. Arolwg Ordnans 100021874
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/45/19.20
Tachwedd 2019


Cymharol fwy difreintiedig: Mae un ardal wedi symud o grŵp y 20-30% mwyaf difreintiedig i grŵp y 10% mwyaf difreintiedig ym MALIC 2019. Yr ardal hon oedd Colwyn 2 yn Hen Golwyn (Conwy), lle'r oedd 35% o bobl mewn amddifadedd incwm yn y ffigurau diweddaraf (ar gyfer 2016-17).

Cymharol lai difreintiedig: Mae pedair ardal wedi dod yn gymharol lai difreintiedig yn ôl mwy nag un grŵp amddifadedd, rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019. Roedd dwy o'r ardaloedd hyn yn Llanrhymni (Caerdydd), un yn y Barri ac un yn yr Wyddgrug.

**Dosbarthiad y boblogaeth ddifreintiedig o ran incwm ym MALIC 2019**

Mae'r siart isod yn dangos y safleoedd a'r gwerthoedd dangosyddion ar gyfer y maes incwm ym MALIC 2019.

**Siart 2: Dosbarthiad y maes incwm ym MALIC 2019**




Mae'r plot yn dangos bod cynnydd serth, ar begwn mwyaf difreintiedig y dosbarthiad, yng nghanran y bobl sy'n ddifreintiedig o ran incwm. Gwelir amrywiaeth fawr yng nghanran y bobl sy'n ddifreintiedig o ran incwm yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae'r canrannau'n amrywio o 61% ar gyfer Gorllewin y Rhyl 2, Sir Ddinbych (yr ardal yn safle 1), i 30% ar gyfer Gorllewin Sandfields 4, Port Talbot (yr ardal yn safle 191).

Mae'r tabl isod yn rhoi'r niferoedd hyn mewn cyd-destun. Mae’r 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn cynnwys 21.6% o bobl sy’n ddifreintiedig o ran incwm yng Nghymru. Mae ychydig dros hanner y bobl hynny sy’n ddifreintiedig o ran incwm yn y 28.6% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y maes incwm.


**Tabl 6: Dosbarthiad y boblogaeth sy’n ddifreintiedig o ran incwm, MALIC 2019**

| Canran yr holl bobl mewn amddifadedd incwm | Canran yr ACEHI Cymreig | Safleoedd y maes Incwm |
|---:|---|---:|
| 21.6 | 10% mwyaf difreintiedig | 1 - 191 |
| 38.2 | 20% mwyaf difreintiedig | 1 - 382 |
| 50.0 | 28.6% mwyaf difreintiedig | 1 - 546 |
| 6.7 | 20% lleiaf difreintiedig | 1529 - 1909 |

### 3.5. Dadansoddi’r maes incwm mewn awdurdodau lleol

Mae'r siart isod yn dangos dosbarthiad safleoedd y maes incwm ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae’r blychau glas yn cynnwys hanner cyfanswm yr ardaloedd ym mhob awdurdod lleol, wedi’u canoli ar y safle canolrifol (canol) ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae’r llinellau’n dangos ystod gyflawn y safleoedd. Mae amddifadedd yn cynyddu yn y safleoedd is (hynny yw, tua gwaelod y plot).

**Siart 3: Plot blwch o safleoedd maes incwm MALIC 2019 fesul awdurdod lleol**



Mae'r tabl isod yn dangos canran yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob awdurdod lleol a restrir yn y 10% , 20%, 30% a 50% ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes incwm ym MALIC 2019.

**Tabl 7: Crynodiadau o ardaloedd difreintiedig o ran incwm ym MALIC 2019 fesul awdurdod lleol**

| Awdurdod lleol | Nifer yr ACEHIau yn yr awdurdod lleol | % yr ACEHIau yn y 10% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-191 | % yr ACEHIau yn yr 20% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-382 | % yr ACEHIau yn y 30% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-573 | % yr ACEHIau yn y 50% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-955 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 4.5 | 15.9 | 18.2 | 45.5 |
| Gwynedd | 73 | 4.1 | 5.5 | 5.5 | 34.2 |
| Conwy | 71 | 7.0 | 11.3 | 26.8 | 47.9 |
| Sir Ddinbych | 58 | 12.1 | 17.2 | 31.0 | 56.9 |
| Sir y Fflint | 92 | 2.2 | 12.0 | 18.5 | 34.8 |
| Wrecsam | 85 | 5.9 | 16.5 | 24.7 | 47.1 |
| Powys | 79 | 1.3 | 5.1 | 11.4 | 20.3 |
| Ceredigion | 46 | 2.2 | 4.3 | 8.7 | 32.6 |
| Sir Benfro | 71 | 5.6 | 12.7 | 16.9 | 38.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 112 | 3.6 | 13.4 | 24.1 | 49.1 |
| Abertawe | 148 | 12.8 | 25.0 | 33.1 | 50.0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 91 | 15.4 | 28.6 | 45.1 | 67.0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 6.8 | 19.3 | 39.8 | 56.8 |
| Bro Morgannwg | 79 | 6.3 | 16.5 | 21.5 | 38.0 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 16.2 | 29.9 | 44.8 | 69.5 |
| Merthyr Tudful | 36 | 19.4 | 25.0 | 36.1 | 72.2 |
| Caerffili | 110 | 10.0 | 24.5 | 37.3 | 64.5 |
| Blaenau Gwent | 47 | 10.6 | 36.2 | 57.4 | 80.9 |
| Tor-faen | 60 | 8.3 | 23.3 | 40.0 | 60.0 |
| Sir Fynwy | 56 | 0.0 | 3.6 | 5.4 | 26.8 |
| Casnewydd | 95 | 20.0 | 32.6 | 41.1 | 57.9 |
| Caerdydd | 214 | 19.2 | 27.6 | 35.5 | 44.4 |
| **Cymru** | **1909** | **10** | **20** | **30** | **50** |

Un ffordd o ystyried data MALIC ar lefel yr awdurdodau lleol yw edrych ar gyfran yr ardaloedd yn yr awdurdod lleol sydd yn y 10% mwy difreintiedig (neu’r 20% ac ati) o’r holl ardaloedd yng Nghymru. Gellir ystyried bod y dull hwn yn nodi lle mae’r ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na lefel amddifadedd gyfartalog.

Yr awdurdod lleol â'r gyfran uchaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Casnewydd (ardaloedd 20%, neu 19%), yna Merthyr Tudful a Chaerdydd (19.4 a 19.2% yn y drefn honno).

Nid oedd gan Sir Fynwy unrhyw ardaloedd bach yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a dim ond 1.3% o'i hardaloedd oedd gan Bowys yn y grŵp hwnnw. Y rhain hefyd oedd yr awdurdodau lleol â'r crynodiadau isaf o ardaloedd yn hanner mwyaf difreintiedig Cymru, 20.3% ar gyfer Powys a 26.8% ar gyfer Sir Fynwy.

Blaenau Gwent oedd â'r ganran uchaf o ardaloedd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sef 80.9%.

### 3.6. Newidiadau methodolegol yn y maes incwm rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019

Mae cyflwyno Credyd Cynhwysol wedi cael effaith sylweddol ar fesur maes incwm y MALIC. Mae Credyd Cynhwysol yn cymryd lle'r rhan fwyaf o fudd-daliadau a chredydau treth sy'n mewnbynnu i'r maes hwn. Ar ôl iddo gael ei gyflwyno'n llwyr ym mhob ardal, bydd modd cymharu'r ardaloedd hynny'n uniongyrchol a'u gosod mewn safleoedd yn erbyn ei gilydd hyd yn oed os bydd amodau cymhwyso a lefelau'r budd-daliadau yn wahanol i'r rheini sy'n ymwneud â budd-daliadau sydd yn y MALIC ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, gan ystyried natur ddaearyddol ac amserlenni maith y broses weithredu, mae'r gwahaniaethau rhwng Credyd Cynhwysol a budd-daliadau etifeddol yn golygu ei bod yn bosibl na fyddwn yn cymharu tebyg wrth debyg ar unrhyw adeg benodol wrth gyflwyno Credyd Cynhwysol.

Er na ddechreuwyd cyflwyno gwasanaeth cyflawn Credyd Cynhwysol yng Nghymru tan fis Ebrill 2017, roedd Credyd Cynhwysol wedi cael ei weithredu o’r blaen, yn bennaf ar gyfer hawlwyr sengl newydd Lwfans Ceisio Gwaith.

I sicrhau bod y data'n gyson ar draws ardaloedd, rydym wedi defnyddio data ar adeg cyn dechrau cyflwyno gwasanaeth cyflawn Credyd Cynhwysol yng Nghymru ar gyfer MALIC 2019, sef blwyddyn ariannol 2016-17. Nid yw hyn yn effeithio llawer ar ba mor gyfredol yw'r data o gymharu â mynegeion blaenorol. Mae achosion syml a chynnar o hawlwyr Credyd Cynhwysol wedi cael eu cynnwys.

Ers MALIC 2014, efallai bod newidiadau eraill i’r system lesiant yn golygu bod trothwyon a meini prawf cymhwysedd wedi newid ar gyfer rhai budd-daliadau.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar opsiynau ar gyfer dangosydd addas gan ddefnyddio data ar hawlwyr Credyd Cynhwysol mewn mynegeion yn y dyfodol.

## 3.7. Gwybodaeth gefndir am y maes incwm

**Ystadegau ar fudd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau**

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cyhoeddi amrywiaeth o adnoddau i'ch galluogi chi i lawrlwytho ac addasu ystadegau ar fudd-daliadau, gan gynnwys data ar ardaloedd lleol a data cyfres amser.

**Data ar gyfer Cymru a Lloegr**

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i gyhoeddi cyfres gyson o ddata ar amddifadedd incwm ar gyfer ardaloedd ledled Cymru a Lloegr yn ystod 2020.

**Amcangyfrifon Incwm wedi'u Modelu**

Ar hyn o bryd mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn llunio amcangyfrifon incwm yn seiliedig ar fodel o ardaloedd bach, wedi'u modelu i lawr i lefel Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol o amcangyfrifon arolygon.

**Data ar Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog**

Cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau set ddata ar Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog. Ar sail y data hynny, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddadansoddiad o dlodi yng Nghymru, gan roi dadansoddiadau amrywiol. Ni ellir dadansoddi'r data yn is na lefel Cymru oherwydd cyfyngiadau o ran maint y sampl.

**Ystadegau Arbrofol ar Incwm**

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cyhoeddi ystadegau arbrofol newydd ar incwm, sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol neu'n gysylltiedig â nhw, fel rhan o waith ar y Cyfrifiad Data Gweinyddol. Maent yn dwyn ynghyd ddata o’r cynllun Talu Wrth Ennill a systemau budd-daliadau (ond nad yw eto'n cynnwys incwm o hunangyflogaeth) i lunio amcangyfrifon arbrofol o incwm gros ac incwm net. Mae'r allbynnau'n cynnwys data ar lefel ardaloedd bach ar gyfran y bobl a'r aelwydydd mewn bandiau incwm penodol ar gyfer blwyddyn dreth 2015/16.

Byddwn yn adolygu ansawdd a chwmpas ffynhonnell y data hyn cyn hydref 2020, er mwyn gallu cyhoeddi gwybodaeth gyd-destunol ochr yn ochr â'n set gyntaf o ddiweddariadau i ddangosyddion MALIC 2019.

**Amcangyfrifon o enillion cyflogeion**

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi amcangyfrifon o enillion cyflogeion yn seiliedig ar ddata o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE). Hon yw'r ffynhonnell fwyaf cadarn a chynhwysfawr o ddata enillion ar gyfer y DU. Fodd bynnag, nid oes amcangyfrifon ar gael islaw lefel awdurdod lleol, nid yw'r data ond yn is-set o'r holl ffynonellau incwm ac nid ydynt yn cynnwys yr hunangyflogedig.

# 4. Y Maes Cyflogaeth


## 4.1. Cyflwyniad

Diben y maes hwn yw casglu gwybodaeth am ddiffyg cyflogaeth. Mae hyn yn cwmpasu’r boblogaeth o oedran gweithio nad ydynt yn gweithio, heb i hynny fod o’u gwirfodd, gan gynnwys pobl na allant weithio oherwydd salwch neu bobl sy’n ddi-waith ond sydd wrthi’n chwilio am waith.

Mae gan y maes bwysoliad cymharol o 22% yn y Mynegai cyffredinol. I gael disgrifiad cyflawn o sut y lluniwyd y maes, gweler Adroddiad Technegol MALIC 2019.

## 4.2. Dangosydd

Mae'r maes cyflogaeth yn cynnwys un dangosydd cyfansawdd sengl, sef budd-daliadau yn seiliedig ar gyflogaeth, sy'n cynnwys pedair elfen:




- Hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith
- Hawlwyr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Hawlwyr Budd-dal Analluogrwydd (a Lwfans Anabledd Difrifol)
- Hawlwyr Credyd Cynhwysol nad ydynt mewn cyflogaeth

Mae’r data’n seiliedig ar gyfartaledd o’r unigolion a oedd yn derbyn y budd-daliadau hyn yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17, a daw'r data gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Un waith yn unig y caiff unigolion sy’n hawlio sawl budd-dal eu cyfrif. Caiff holl elfennau’r dangosydd hwn eu cyfansymio ac yna’u rhannu yn ôl poblogaeth oedran gweithio (16-64 oed) yr ardal, i roi un dangosydd.

Daw’r amcangyfrifon poblogaeth hyn o Amcangyfrifon Poblogaeth Ardaloedd Bach Canol-2016 y Swyddfa Ystadegau Gwladol. O ran y pedair ardal sy’n cynnwys carchardai, nid ydym yn cyfrif y

boblogaeth a oedd mewn carchardai ganol 2016 (daw'r data gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder) yn yr amcangyfrifon poblogaeth.

O ganlyniad, mae'r dangosydd cyfansawdd yn rhoi darlun trawstoriadol o bobl mewn amddifadedd cyflogaeth, a fesurir drwy edrych a ydynt yn derbyn budd-daliadau yn seiliedig ar ddiweithdra.

Mae pwysoliad y maes wedi gostwng o 23.5% i 22% ar gyfer MALIC 2019. Mae hyn yn adlewyrchu bod y data y gallwn eu defnyddio yn dyddio mwy a mwy (yn sgil effaith cyflwyno Credyd Cynhwysol fesul tipyn), ac yn adlewyrchu dyhead i gynyddu ychydig ar bwysoliad meysydd allweddol eraill yn awr gyda gwell data (iechyd a thai).


Mae gwybodaeth dechnegol gyflawn ar y dangosydd ar gael yn Adroddiad Technegol MALIC 2019.

### 4.3. Prif ganlyniadau'r maes cyflogaeth

- Ym maes cyflogaeth MALIC 2019, roedd pocedi o amddifadedd cyflogaeth uchel yng nghymoedd a dinasoedd mawr y De, ac mewn rhai trefi arfordirol yn y Gogledd. Dangosir hyn ar y map sy'n dilyn.
- Roedd gan bob awdurdod lleol ac eithrio Sir Fynwy o leiaf rai ardaloedd gyda dros 19% o bobl mewn amddifadedd cyflogaeth (sy'n gyfwerth â bod yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig).
- Blaenau Gwent oedd yr awdurdod lleol â'r gyfran fwyaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes cyflogaeth (23.4%), ac yna Merthyr Tudful (22.2%). Nid oedd gan Sir Fynwy unrhyw ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig.
- Ar gyfer y maes cyflogaeth, yr ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Gorllewin y Rhyl 2, Sir Ddinbych (o amgylch Stryd Fawr y Rhyl), yr un fath ag ar gyfer MALIC 2014. Roedd saith o'r 10 ardal fwyaf difreintiedig ym MALIC 2019 yn dal o fewn y 10 ardal fwyaf difreintiedig ym MALIC 2014.
- Mae’r patrymau amddifadedd cyflogaeth a welir ym MALIC 2019 yn debyg i’r rhai hynny a welwyd ym MALIC 2014.
- Mae 20.8% o’r bobl sy’n ddifreintiedig o ran cyflogaeth yn y 10% o ardaloedd bach mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes cyflogaeth (yr ardaloedd yn y safleoedd 1- 191).
- Mae ychydig yn fwy na hanner y bobl hynny sy’n ddifreintiedig o ran cyflogaeth yn y 29.6% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y maes cyflogaeth.
- Ar y cyfan, roedd cyfradd amddifadedd cyflogaeth ar gyfer MALIC 2019 yn is nag ar gyfer MALIC 2014 (10% o gymharu ag 13%). Er bod y rhan fwyaf o ardaloedd bach wedi gweld gostyngiad yng nghyfradd amddifadedd cyflogaeth, gwelodd rai ohonynt y gyfradd yn aros yr un fath neu'n cynyddu ychydig.

**Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019**

# Y Maes Cyflogaeth




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2019. Arolwg Ordnans 100021874
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/45/19.20
Tachwedd 2019

### 4.4. Cymharu'r maes cyflogaeth rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019

Gallwch lawrlwytho'r gyfres gyflawn o safleoedd meysydd ym MALIC 2019 a'r dangosyddion sylfaenol oddi ar dudalennau gwe StatsCymru Llywodraeth Cymru.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob un o grwpiau amddifadedd MALIC ar gyfer MALIC 2014 a MALIC 2019. Mae'r rhifau lletraws, mewn print trwm, yn dangos nifer yr ardaloedd sydd wedi aros yn yr un grŵp amddifadedd. Uwchben y rhifau lletraws nodir niferoedd ardaloedd sydd wedi symud i grŵp llai difreintiedig. O dan y rhifau lletraws nodir niferoedd ardaloedd sydd wedi symud i grŵp mwy difreintiedig.

**Tabl 8: Symudiadau rhwng grwpiau amddifadedd cyflogaeth rhwng MALIC 2014 a 2019**

| | | Maes Cyflogaeth 2019 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Y 10% mwyaf difreintiedig (safleoedd 1-191) | Y 10-20% mwyaf difreintiedig (safleoedd 192-382) | Yr 20-30% mwyaf difreintiedig (safleoedd 383-573) | Y 30-50% mwyaf difreintiedig (safleoedd 574-955) | Y 50% lleiaf difreintiedig (safleoedd 956-1909) | Cyfanswm (safleoedd 1-1909) |
| Maes Cyflogaeth 2014 | Y 10% mwyaf difreintiedig (safleoedd 1-191) | **165** | 26 | 0 | 0 | 0 | 191 |
| | Y 10-20% mwyaf difreintiedig (safleoedd 192-382) | 23 | **124** | 39 | 5 | 0 | 191 |
| | Yr 20-30% mwyaf difreintiedig (safleoedd 383-573) | 3 | 38 | **109** | 41 | 0 | 191 |
| | Y 30-50% mwyaf difreintiedig (safleoedd 574-955) | 0 | 3 | 43 | **282** | 54 | 382 |
| | Y 50% lleiaf difreintiedig (safleoedd 956-1909) | 0 | 0 | 0 | 54 | **900** | 954 |
| | Cyfanswm (safleoedd 1-1909) | 191 | 191 | 191 | 382 | 954 | **1909** |


Cymharol fwy difreintiedig: Mae chwe ardal wedi dod yn gymharol fwy difreintiedig ym MALIC 2019 o gymharu â MALIC 2014, yn ôl mwy nag un grŵp amddifadedd. Symudodd tair o'r ardaloedd hyn (ym Mhort Talbot, Ceredigion a Dyfrfford Aberdaugleddau) o grŵp y 20-30% mwyaf difreintiedig i'r 10% mwyaf difreintiedig, a symudodd y 3 ardal arall (ym Mae Colwyn, Caerllion ac Abertawe) o grŵp y 30-50% mwyaf difreintiedig i'r 10-20% mwyaf difreintiedig.

Cymharol lai difreintiedig: Mae pum ardal wedi dod yn gymharol lai difreintiedig rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019, yn ôl mwy nag un grŵp amddifadedd. Roedd dwy o'r ardaloedd hyn yng Nghaerdydd, dwy yn Nhreharris, ac un ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a symudodd pob un ohonynt o grŵp y 10-20% mwyaf difreintiedig i grŵp y 30-50% mwyaf difreintiedig.

**Dosbarthiad y boblogaeth ddifreintiedig o ran cyflogaeth ym MALIC 2019**

Mae'r siart isod yn dangos gwerthoedd y dangosyddion a'r safleoedd ar gyfer y maes cyflogaeth ym MALIC 2019.

**Siart 4: Dosbarthiad y maes cyflogaeth ym MALIC 2019**




Mae'r plot yn dangos bod cynnydd serth, ar begwn mwyaf difreintiedig y dosbarthiad, yng nghanran y bobl oedran gweithio sy'n ddifreintiedig o ran cyflogaeth. Mae amrywiaeth fawr yng nghyfradd amddifadedd cyflogaeth o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae'r canrannau'n amrywio o 43% ar gyfer Gorllewin y Rhyl 2, Sir Ddinbych (yr ardal yn safle 1), i 19% ar gyfer y Gurnos 3, Merthyr Tudful (yr ardal yn safle 191).

Mae'r tabl isod yn rhoi'r niferoedd hyn mewn cyd-destun. Mae'r 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn cynnwys 20.8% o'r bobl sy'n ddifreintiedig o ran cyflogaeth yng Nghymru. Mae ychydig yn llai na hanner y rhai hynny sy'n ddifreintiedig o ran cyflogaeth yn y 29.6% o ardaloedd mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes cyflogaeth.


**Tabl 9: Dosbarthiad y boblogaeth sy'n ddifreintiedig o ran cyflogaeth, MALIC 2019**

| Canran yr holl bobl mewn amddifadedd cyflogaeth | Canran yr ACEHI Cymreig | Safleoedd y maes Cyflogaeth |
|---:|---|---:|
| 20.8 | 10% mwyaf difreintiedig | 1 - 191 |
| 36.7 | 20% mwyaf difreintiedig | 1 - 382 |
| 50.0 | 29.6% mwyaf difreintiedig | 1 - 565 |
| 7.5 | 20% lleiaf difreintiedig | 1529 - 1909 |

### 4.5. Dadansoddi’r maes cyflogaeth mewn awdurdodau lleol

Mae'r siart isod yn dangos dosbarthiad safleoedd y maes cyflogaeth ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae’r blychau glas yn cynnwys hanner cyfanswm yr ardaloedd ym mhob awdurdod lleol, wedi’u canoli ar y safle canolrifol (canol) ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae’r llinellau’n dangos ystod gyflawn y safleoedd. Mae amddifadedd yn cynyddu yn y safleoedd is (hynny yw, tua gwaelod y plot).

**Siart 5: Plot blwch o safleoedd maes cyflogaeth MALIC 2019 fesul awdurdod lleol**



Mae'r tabl isod yn dangos canran yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob awdurdod lleol a restrir yn y 10%, yr 20%, y 30% a'r 50% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes cyflogaeth ym MALIC 2019.

**Tabl 10: Crynodiadau o'r ardaloedd difreintiedig o ran cyflogaeth ym MALIC 2019 fesul awdurdod lleol**

| Awdurdod lleol | Nifer yr ACEHIau yn yr awdurdod lleol | % yr ACEHIau yn y 10% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-191 | % yr ACEHIau yn yr 20% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-382 | % yr ACEHIau yn y 30% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-573 | % yr ACEHIau yn y 50% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-955 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 4.5 | 13.6 | 18.2 | 43.2 |
| Gwynedd | 73 | 2.7 | 4.1 | 4.1 | 26.0 |
| Conwy | 71 | 7.0 | 14.1 | 28.2 | 43.7 |
| Sir Ddinbych | 58 | 12.1 | 19.0 | 25.9 | 51.7 |
| Sir y Fflint | 92 | 1.1 | 7.6 | 15.2 | 27.2 |
| Wrecsam | 85 | 3.5 | 9.4 | 18.8 | 44.7 |
| Powys | 79 | 2.5 | 3.8 | 11.4 | 22.8 |
| Ceredigion | 46 | 4.3 | 6.5 | 6.5 | 23.9 |
| Sir Benfro | 71 | 7.0 | 11.3 | 14.1 | 38.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 112 | 6.3 | 16.1 | 27.7 | 56.3 |
| Abertawe | 148 | 14.9 | 23.0 | 30.4 | 52.0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 91 | 18.7 | 36.3 | 53.8 | 74.7 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 6.8 | 29.5 | 39.8 | 61.4 |
| Bro Morgannwg | 79 | 5.1 | 13.9 | 17.7 | 35.4 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 19.5 | 36.4 | 50.6 | 73.4 |
| Merthyr Tudful | 36 | 22.2 | 33.3 | 55.6 | 88.9 |
| Caerffili | 110 | 11.8 | 29.1 | 42.7 | 68.2 |
| Blaenau Gwent | 47 | 23.4 | 48.9 | 72.3 | 91.5 |
| Tor-faen | 60 | 5.0 | 21.7 | 43.3 | 58.3 |
| Sir Fynwy | 56 | 0.0 | 1.8 | 8.9 | 23.2 |
| Casnewydd | 95 | 11.6 | 25.3 | 34.7 | 53.7 |
| Caerdydd | 214 | 14.0 | 18.7 | 27.1 | 39.7 |
| **Cymru** | **1909** | **10** | **20** | **30** | **50** |

Un ffordd o ystyried data MALIC ar lefel yr awdurdodau lleol yw edrych ar gyfran yr ardaloedd yn yr awdurdod lleol sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig (neu'r 20% ac ati) o'r holl ardaloedd yng Nghymru. Gellir ystyried bod y dull hwn yn nodi lle mae'r ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na lefel amddifadedd gyfartalog.

Blaenau Gwent oedd yr awdurdod lleol â'r gyfran fwyaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (23.4%, neu 11 ardal). Merthyr Tudful sydd â'r gyfran fwyaf wedyn o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig (22.2%, neu 8 ardal).

Nid oedd gan Sir Fynwy unrhyw ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig. Dim ond 1.1% o ardaloedd Sir y Fflint oedd yn y 10% mwyaf difreintiedig. Dim ond 22.8% o'r ardaloedd ym Mhowys oedd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda Cheredigion yn agos iawn gyda 23.9%.

Blaenau Gwent oedd â'r ganran uchaf o ardaloedd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (91.5%). Yr uchaf wedyn oedd Merthyr Tudful, gydag 88.9% o'i hardaloedd yn yr hanner mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

### 4.6. Newidiadau methodolegol yn y maes cyflogaeth rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019

Mae cyflwyno Credyd Cynhwysol wedi cael effaith sylweddol ar fesur maes cyflogaeth MALIC. Mae Credyd Cynhwysol yn cymryd lle'r rhan fwyaf o fudd-daliadau a chredydau treth sy'n mewnbynnu i'r maes hwn. Ar ôl iddo gael ei gyflwyno'n llwyr ym mhob ardal, bydd modd cymharu'r ardaloedd hynny'n uniongyrchol a'u gosod mewn safleoedd yn erbyn ei gilydd hyd yn oed os bydd amodau cymhwyso a lefelau'r budd-daliadau yn wahanol i'r rheini sy'n ymwneud â budd-daliadau sydd yn y MALIC ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, gan ystyried natur ddaearyddol ac amserlenni maith y broses weithredu, mae'r gwahaniaethau rhwng Credyd Cynhwysol a budd-daliadau etifeddol yn golygu ei bod yn bosibl na fyddwn yn cymharu tebyg wrth debyg ar unrhyw adeg benodol wrth gyflwyno Credyd Cynhwysol.

Er na ddechreuwyd y gwaith o gyflwyno gwasanaeth cyflawn Credyd Cynhwysol yng Nghymru tan fis Ebrill 2017, roedd Credyd Cynhwysol wedi'i roi ar waith o'r blaen, yn bennaf ar gyfer hawlwyr sengl Lwfans Ceisio Gwaith.

I sicrhau bod y data'n gyson ar draws ardaloedd, ar gyfer MALIC 2019 rydym wedi defnyddio data ar adeg cyn dechrau cyflwyno gwasanaeth cyflawn Credyd Cynhwysol yng Nghymru, sef blwyddyn ariannol 2016-17. Nid yw hyn yn effeithio llawer ar ba mor gyfredol yw'r data o gymharu â mynegeion blaenorol. Mae achosion syml a chynnar o hawlwyr Credyd Cynhwysol wedi'u cynnwys.

Ers MALIC 2014, efallai bod newidiadau eraill i'r system lesiant yn golygu bod trothwyon a meini prawf cymhwysedd wedi newid ar gyfer rhai budd-daliadau.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar opsiynau ar gyfer dangosydd addas gan ddefnyddio data ar hawlwyr Credyd Cynhwysol mewn mynegeion yn y dyfodol.

## 4.7. Gwybodaeth gefndir am y maes cyflogaeth

**Ystadegau ar fudd-daliadau yr Adran Gwaith a Phensiynau**

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cyhoeddi amrywiaeth o adnoddau i'ch galluogi chi i lawrlwytho ac addasu ystadegau ar fudd-daliadau, gan gynnwys data ar ardaloedd lleol a data cyfres amser.

**Data ar gyfer Cymru a Lloegr**

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i gyhoeddi cyfres gyson o ddata ar amddifadedd incwm ar gyfer ardaloedd ledled Cymru a Lloegr yn ystod 2020.

**Aelwydydd heb waith**

Aelwydydd heb waith yw'r rhai lle nad oes yr un o'r oedolion sydd rhwng 16 a 64 oed mewn cyflogaeth. Daw'r data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a'r Arolwg o'r Llafurlu. Mae'r data hyn yn golygu bod modd cynnal dadansoddiad ar lefel awdurdodau lleol, gan gynnwys manylion am bobl mewn aelwydydd heb waith, plant mewn aelwydydd heb waith, unig rieni a deiliadaeth tai. Mae canlyniadau allweddol Cymru ar gael yn nadansoddiad Ystadegau'r Farchnad Lafur ar gyfer Aelwydydd Llywodraeth Cymru.

**Canlyniadau ymchwil y Farchnad Lafur**

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi llunio canlyniadau ymchwil newydd ar gyfer y farchnad lafur fel rhan o waith ar y Cyfrifiad Data Gweinyddol. Y nod yw llunio ystadegau amryw ffactorau ar gyfer ardal fach. Mae'r Swyddfa hefyd wedi cyhoeddi data ar statws y farchnad lafur fesul awdurdod lleol ar gyfer blwyddyn dreth 2011/12.

**Amcangyfrifon o statws y farchnad lafur**

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amcangyfrifon o gyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch economaidd yn seiliedig ar ddata o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Caiff yr amcangyfrifon hyn eu diweddaru bob chwarter ond maent ar gael i lawr at lefel awdurdod lleol yn unig.

# 5. Y Maes Iechyd

## 5.1. Cyflwyniad


Diben y maes hwn yw mesur diffyg iechyd da. Nid yw'r maes hwn yn cynnwys unrhyw is-feysydd. Mae rhai o'r dangosyddion yn y maes hwn wedi'u safoni yn ôl oedran a rhyw er mwyn cyfrif am wahaniaethau yn y boblogaeth ar draws ardaloedd bach.

Mae gan y maes bwysoliad cymharol o 15% yn y mynegai cyffredinol. Mae hyn wedi cynyddu o 14% ym mynegai 2014, yn sgil ychwanegu tri dangosydd newydd; cyflyrau cronig â diagnosis, cyflyrau iechyd meddwl â diagnosis, a phlant rhwng 4 a 5 oed sy'n ordew. Caiff dangosyddion maes iechyd 2019 eu pwysoli fel y dangosir isod.

I gael disgrifiad llawn o'r gwaith o lunio'r maes, edrychwch ar Adroddiad Technegol MALIC 2019.

## 5.2. Dangosyddion y Maes Iechyd

Mae'r maes yn cynnwys saith dangosydd, wedi'u pwysoli fel y dangosir isod:



Mae'r dangosydd ar gyflyrau cronig sydd wedi'u cofnodi gan feddygon teulu yn mesur nifer y bobl fesul 100 sydd â diagnosis o un neu ragor o'r cyflyrau a restrir isod ar hyn o bryd:

  - Clefyd Coronaidd y Galon
  - Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint
  - Strôc a Phwl o Isgemia Dros Dro
  - Clefyd Rhedwelïol Perifferol
  - Clefyd Cronig yn yr Arennau
  - Diabetes Mellitus (math 1 ar gyfer pobl o bob oedran, math 2/arall ar gyfer pobl 17 oed a hŷn)
  - Epilepsi

- Mae'r dangosydd ar gyflyrau iechyd meddwl a gofnodir gan feddygon teulu yn mesur nifer y bobl fesul 100 sydd â diagnosis o un neu ragor o'r cyflyrau a restrir isod ar hyn o bryd:
  - Iselder
  - Hwyliau gwael (cleifion â chofnod o hwyliau gwael a phresgripsiwn amlroddadwy gweithredol ar gyfer gwrth-iselyddion)
  - Anhwylder gorbryder (gan gynnwys anhwylder panig)
  - Dementia
  - Salwch meddwl difrifol (sgitsoffrenia, anhwylder affeithiol deubegynol a seicosis eraill)

Roedd y enwadur ar gyfer y ddau ddangosydd newydd ar gyflyrau cronig a chyflyrau iechyd meddwl â diagnosis yn seiliedig ar gyfrifon diagnosis oddi ar y rhestrau ddiffiniedig uchod o gofrestrau afiechydon ac is-ddangosyddion wedi'u cael gan bractisau meddygon teulu yng Nghymru. Cafodd y cyfrifon hyn eu dad-ddyblygu fel nad oedd cleifion â mwy nag un cyflwr yn cael eu cyfrif ddwywaith. Cafodd data ar lefel cleifion eu cydgrynhoi i ardaloedd bach (ACEHI), yn unol â chyfeiriadau cleifion, fel bod nifer yr achosion yn seiliedig ar le mae pobl yn byw yn hytrach na lle maent wedi cofrestru â meddyg teulu.

- Mae'r dangosydd ar salwch cyfyngus hirdymor yn mesur nifer y bobl â salwch cyfyngus hirdymor fesul 100 o bobl, ac mae wedi ei seilio ar ddata cyfrifiad 2011 (y Swyddfa Ystadegau Gwladol).
- Mae'r dangosydd ar farwolaethau cynamserol yn mesur nifer y marwolaethau ymysg y bobl o dan 75 oed fesul 100,000 o bobl ac mae'n seiliedig ar gyfartaledd 2009-2018 (y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

- Mae’r dangosydd ar Fynychder Canser yn mesur nifer yr achosion o ganser fesul 100,000 o bobl ac roedd yn seiliedig ar gyfartaledd 2007-2016 (Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Felindre).

Mae'r holl ddangosyddion uchod wedi'u safoni yn ôl oedran a rhyw er mwyn addasu ar gyfer nifer disgwyliedig yr achosion o’r cyflwr yn y boblogaeth sylfaenol. Mae hyn yn caniatáu i'r Mynegai ddangos ardaloedd lle mae amddifadedd o ran iechyd yn bodoli y tu hwnt i effaith oedran a rhyw.

- Mae'r dangosydd ar Bwysau Geni Isel yn mesur canran y genedigaethau sengl byw o dan 2.5 kg (5.5lb), ac roedd yn seiliedig ar gyfartaledd 2009-2018 (y Swyddfa Ystadegau Gwladol).
- Mae'r dangosydd ar blant sy'n ordew yn mesur cyfran y plant dosbarth derbyn (y rheini sydd rhwng 4 a 5 oed) sy'n ordew ac mae'n seiliedig ar gyfartaledd 2012-13 i 2017-18, y rhaglen mesur plant.


I gael esboniad llawn o sut y caiff y dangosyddion hyn eu cyfrifo a’u cyfuno, gweler Adroddiad Technegol MALIC 2019.

### 5.3. Canlyniadau allweddol y maes iechyd

- Ym maes iechyd MALIC 2019, roedd pocedi o amddifadedd uchel yng nghymoedd y de a'r dinasoedd mawr, ac mewn rhai trefi ar yr arfordir ac ar y ffin yn y gogledd. Dangosir hyn ar y map sy'n dilyn.
- Yr awdurdodau lleol â'r crynodiadau uchaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig oedd Merthyr Tudful, wedi'i ddilyn gan Flaenau Gwent. Nid oedd gan Ynys Môn, Ceredigion na Sir Fynwy unrhyw ardaloedd bach yn y 10% mwyaf difreintiedig.
- Ar gyfer y maes iechyd, yr ardal fach fwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Caerau 1 (sy’n cynnwys Parc Caerau a’r Stad Tudor) ym Mhen-y-bont ar Ogwr (yn y 6ed safle ym maes iechyd MALIC 2014), wedi'i dilyn gan Orllewin y Rhyl 2 yn Sir Ddinbych (yn y safle 1af ym maes iechyd MALIC 2014).
- Mae patrymau cyffredinol amddifadedd iechyd ym MALIC 2019 yn eithaf tebyg i'r rhai ar gyfer MALIC 2014, gyda dim ond 75 o ardaloedd yn symud fwy nag un grŵp amddifadedd iechyd i'r naill gyfeiriad neu'r llall.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

# Y Maes Iechyd




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2019. Arolwg Ordnans 100021874
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/45/19.20
Tachwedd 2019

## 5.4. Cymharu'r maes iechyd rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019

Gellir lawrlwytho'r set lawn o safleoedd y meysydd o MALIC 2019 a'r dangosyddion sylfaenol o dudalennu gwe StatsCymru Llywodraeth Cymru.

Dengys y tabl isod nifer yr ardaloedd bach (ACEHIau) ym mhob un o grwpiau amddifadedd MALIC ar gyfer MALIC 2014 a MALIC 2019. Dengys y groeslinell, mewn print trwm, nifer yr ardaloedd sydd wedi aros yn yr un grŵp amddifadedd. Uwchlaw'r groeslinell ceir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud o grŵp mwy difreintiedig i grŵp llai difreintiedig. Islaw'r groeslinell ceir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud o grŵp llai difreintiedig i grŵp mwy difreintiedig.

**Tabl 11: Symudiadau rhwng grwpiau amddifadedd iechyd rhwng MALIC 2014 a 2019**

| | | Health domain 2019 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 10% most deprived (ranks 1-191) | 10-20% most deprived (ranks 192-382) | 20-30% most deprived (ranks 383-573) | 30-50% most deprived (ranks 574-955) | 50% least deprived (ranks 956-1909) | Total (ranks 1-1909) |
| Health domain 2014 | 10% most deprived (ranks 1-191) | **143** | 36 | 10 | 1 | 1 | 191 |
| | 10-20% most deprived (ranks 192-382) | 41 | **84** | 50 | 16 | 0 | 191 |
| | 20-30% most deprived (ranks 383-573) | 6 | 46 | **71** | 60 | 8 | 191 |
| | 30-50% most deprived (ranks 574-955) | 1 | 22 | 53 | **222** | 84 | 382 |
| | 50% least deprived (ranks 956-1909) | 0 | 3 | 7 | 83 | **861** | 954 |
| | Total (ranks 1-1909) | 191 | 191 | 191 | 382 | 954 | **1909** |


Cymharol fwy difreintiedig: Mae saith ardal wedi symud o'r tu allan i grŵp yr 20% mwyaf difreintiedig i grŵp y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes hwn ym MALIC 2019. Lleolir yr ardaloedd hyn mewn chwe awdurdod lleol gwahanol, gyda dwy yng Nghaerdydd. Yr unig ardal a symudodd o'r tu allan i grŵp y 30% mwyaf difreintiedig i grŵp y 10% mwyaf difreintiedig oedd Flint Coleshill 2 yn Sir y Fflint.

Cymharol lai difreintiedig: Mae 12 o ardaloedd wedi symud o grŵp y 10% mwyaf difreintiedig i'r tu allan i grŵp yr 20% mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes hwn ym MALIC 2019. Roedd naw o'r rhain naill ai yn Rhondda Cynon Taf (5 ohonynt) neu Gaerffili (4 ohonynt).

### 5.5. Dadansoddi'r maes iechyd yn ôl awdurdod lleol

Dengys y siart isod ddosbarthiad safleoedd y maes iechyd ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r blychau glas yn cynnwys hanner cyfanswm yr ardaloedd ym mhob awdurdod lleol, wedi'i ganoli ar y safle canolrifol (canol) ar gyfer pob awdurdod lleol a dengys y 'wisgers' yr ystod lawn o safleoedd. Mae amddifadedd yn cynyddu wrth i'r safle ostwng (hynny yw, tua gwaelod y plot).

**Siart 6: Plot blychau o safleoedd maes iechyd MALIC 2019, yn ôl awdurdod lleol**



Dengys y tabl isod, ar gyfer maes iechyd MALIC 2019, ganran yr ardaloedd bach (ACEHIau) ym mhob awdurdod lleol a oedd yn y 10%, yr 20%, y 30% a'r 50% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

**Tabl 12: Crynodiadau o ardaloedd sy'n wynebu amddifadedd o ran iechyd ym MALIC 2019, yn ôl awdurdod lleol**

| Awdurdod lleol | Nifer yr ACEHIau yn yr awdurdod lleol | % yr ACEHIau yn y 10% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-191 | % yr ACEHIau yn yr 20% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-382 | % yr ACEHIau yn y 30% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-573 | % yr ACEHIau yn y 50% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-955 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 0.0 | 6.8 | 11.4 | 27.3 |
| Gwynedd | 73 | 1.4 | 4.1 | 6.8 | 20.5 |
| Conwy | 71 | 4.2 | 11.3 | 16.9 | 36.6 |
| Sir Ddinbych | 58 | 17.2 | 17.2 | 29.3 | 53.4 |
| Sir y Fflint | 92 | 5.4 | 12.0 | 18.5 | 34.8 |
| Wrecsam | 85 | 7.1 | 17.6 | 28.2 | 52.9 |
| Powys | 79 | 1.3 | 3.8 | 8.9 | 21.5 |
| Ceredigion | 46 | 0.0 | 0.0 | 4.3 | 8.7 |
| Sir Benfro | 71 | 1.4 | 5.6 | 12.7 | 32.4 |
| Sir Gaerfyrddin | 112 | 3.6 | 9.8 | 21.4 | 48.2 |
| Abertawe | 148 | 12.2 | 25.0 | 30.4 | 52.0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 91 | 16.5 | 33.0 | 46.2 | 74.7 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 15.9 | 33.0 | 47.7 | 63.6 |
| Bro Morgannwg | 79 | 5.1 | 10.1 | 17.7 | 36.7 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 16.9 | 34.4 | 53.2 | 78.6 |
| Merthyr Tudful | 36 | 25.0 | 33.3 | 52.8 | 88.9 |
| Caerffili | 110 | 10.9 | 24.5 | 42.7 | 70.0 |
| Blaenau Gwent | 47 | 19.1 | 36.2 | 61.7 | 87.2 |
| Tor-faen | 60 | 8.3 | 30.0 | 41.7 | 66.7 |
| Sir Fynwy | 56 | 0.0 | 3.6 | 7.1 | 19.6 |
| Casnewydd | 95 | 14.7 | 26.3 | 34.7 | 54.7 |
| Caerdydd | 214 | 15.9 | 26.2 | 32.2 | 43.0 |
| **Cymru** | **1909** | **10** | **20** | **30** | **50** |

Un ffordd o ystyried data MALIC ar lefel awdurdod lleol yw edrych ar gyfran yr ardaloedd yn yr awdurdod lleol sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig (neu'r 20% ac ati) o'r holl ardaloedd yng Nghymru. Gellir ystyried bod y fath ddull yn nodi'r crynodiad o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na lefel amddifadedd gyfartalog.

- Yr awdurdod lleol â'r crynodiad uchaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Merthyr Tudful (25%, neu 9 ardal), wedi'i ddilyn gan Flaenau Gwent (19%, sydd hefyd yn cyfateb i 9 ardal). Ar gyfer Merthyr Tudful, mae 8 o'r ardaloedd yn nhref Merthyr Tudful ei hun neu'n agos ati, ac mae un yn Ynyswen.
- Merthyr Tudful a Blaenau Gwent a oedd â'r ganran uchaf o ardaloedd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru hefyd (y ddau gyda bron 90%).
- Nid oedd gan Ynys Môn, Ceredigion na Sir Fynwy unrhyw ardaloedd bach yn y 10% mwyaf difreintiedig. Dim ond 8.7% o'r ardaloedd yng Ngheredigion a oedd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

## 5.6. Newidiadau methodolegol yn y maes Iechyd rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019

Mae llawer o ddatblygiadau wedi'u gwneud yn y maes iechyd ers MALIC 2014 ac mae statws iechyd cymunedau yn awr yn cael ei gasglu drwy amrywiaeth eang o ffynonellau data. Er mwyn helpu i ddangos hyn, rydym wedi cyflwyno ein dangosyddion mewn tri chategori isod:

**Dangosyddion sy'n ymwneud â phlant**

Yn ogystal â diweddaru'r mesur ar bwysau geni isel, rydym hefyd wedi cynnwys mesur newydd ar blant rhwng 4 a 5 oed sy'n ordew yn ôl y Rhaglen Mesur Plant. Dewisom gynnwys y mesur hwn o ystyried y cysylltiadau rhwng cael pwysau afiach yn ystod plentyndod a chael problemau iechyd hirdymor fel oedolyn.

**Dangosyddion sy'n mesur cyflyrau penodol â diagnosis**

Ym MALIC 2019, rydym wedi ehangu'r amrywiaeth o ddangosyddion o achosion o ganser yn unig, i gynnwys mesurau ar nifer yr achosion o gyflyrau cronig a chyflyrau iechyd meddwl a gofnodir gan feddygon teulu (gweler adran 5.2).

**Dangosyddion sy'n casglu gwybodaeth am statws iechyd y boblogaeth yn fwy cyffredinol**

Nid yw'r dangosydd ar salwch hirdymor cyfyngus wedi newid ers 2014, gan ei fod yn seiliedig ar y cyfrifiad.Cafodd y gyfradd marwolaeth ar sail pob achos ei chynnwys ym MALIC 2011 a MALIC 2014 fel procsi ar gyfer afiachedd. Rydym yn awr yn cynnwys dangosydd ar gyfradd y marwolaethau ar sail pob achos ar gyfer y rheini sy'n iau na 75 oed, sef cyfradd y marwolaethau cynamserol, yn hytrach na'r dangosydd blaenorol. Mae'r dull o fesur marwolaethau cynamserol yn agored i iechyd gwael sy'n amlwg drwy ddisgwyliad oes is ac felly'n fwy perthnasol i amddifadedd o ran iechyd mewn poblogaeth.I gael disgrifiad mwy manwl o'r newidiadau methodolegol, gweler Adroddiad Technegol MALIC 2019.

**Pwysoli**

I gydnabod bod gwybodaeth yn awr yn cael ei chasglu am fwy o gyflyrau iechyd yn y maes iechyd, mae ei bwysoliad yn y mynegai cyffredinol wedi cynyddu ychydig o 14% i 15%.

## 5.7. Gwybodaeth gefndir am y maes Iechyd

Mae'r wybodaeth isod yn rhoi rhestr o ffynonellau o ystadegau iechyd ar gyfer Cymru.

**Ystadegau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi set gynhwysfawr o wybodaeth am iechyd, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r ystadegau hyn yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau gan gynnwys gweithgareddau sylfaenol a chymunedol y GIG, amseroedd aros a staff y GIG.

**Arolwg Cenedlaethol Cymru**

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn gofyn cwestiynau am iechyd a'r defnydd o wasanaethau iechyd. Mae hyn yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau sy'n amrywio yn ôl blwyddyn yr arolwg, a gellir gweld y canlyniadau ar dudalennau pynciau'r Arolwg ar gyfer Iechyd y Boblogaeth a'r GIG a Gofal Cymdeithasol.

**Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Mae Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu gwybodaeth am iechyd y cyhoedd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'r cyhoedd. Fel rhan o hyn, mae Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd yn casglu gwybodaeth am ganlyniadau iechyd i bobl Cymru.

**Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru**

Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru yw Cofrestrfa Canser Genedlaethol Cymru a'i phrif rôl yw cofnodi, storio ac adrodd ar bob achos o ganser ar gyfer poblogaeth breswyl Cymru ble bynnag y cânt eu trin.

**Mapiau Iechyd Cymru**

Mae mapiau Iechyd Cymru yn cynnwys ystod eang o ddata iechyd am drigolion Cymru, gan gynnwys derbyniadau i'r ysbyty, marwolaethau ac iechyd plant.

**Swyddfa Ystadegau Gwladol**

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn cyhoeddi ystadegau ar iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys disgwyliad oes a data marwolaethau, a gesglir o gofrestriadau ac arolygon.

**Banc Data cysylltiol, di-enw SAIL**

I gael fersiynau newydd o MALIC yn y dyfodol, byddwn yn parhau i edrych ar y posibilrwydd o gael dangosyddion iechyd drwy gael gafael ar data cysylltiedig sydd ar gael ym manc data SAIL (a gefnogir gan Brifysgol Abertawe). Gallai hyn gynnwys data ar afiechydon cronig, arosiadau brys mewn yn yr ysbyty, gordewdra yn ystod plentyndod ac iechyd meddwl.


# 6. Y Maes Addysg

## 6.1. Cyflwyniad

Diben y maes hwn yw cofnodi graddau'r amddifadedd sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant a sgiliau. Bwriedir iddo adlewyrchu anfanteision addysgol mewn ardal o ran diffyg cymwysterau a sgiliau. Mae gan y maes bwysoliad cymharol o 14% yn y mynegai cyffredinol. Mae'r dangosyddion wedi'u pwysoli fel y dangosir isod. Am ddisgrifiad llawn o'r ffordd y cafodd y maes ei lunio, gweler Adroddiad Technegol MALIC 2019.

## 6.2. Dangosyddion

Mae'r maes yn cynnwys chwe dangosydd, wedi'u pwysoli fel y dangosir isod:




Mae pedwar o'r dangosyddion hyn yn canolbwyntio ar gasglu gwybodaeth am gyrhaeddiad isel ymhlith plant a phobl ifanc:

- Mae dangosydd Sgôr Pwyntiau Cyfartalog y Cyfnod Sylfaen yn mesur sgoriau pwyntiau cyfartalog disgyblion fel y'u haseswyd gan athrawon ym Mlwyddyn 2 (sef blwyddyn derfynol y Cyfnod Sylfaen), ac mae'n seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd (blynyddoedd academaidd 2015/16 – 2017/18). Daw'r data o Gronfa Ddata Casglu Data Cenedlaethol a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru.

- Mae dangosydd Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 2 (CA2) yn mesur sgoriau pwyntiau cyfartalog disgyblion fel y'u haseswyd gan athrawon ym Mlwyddyn 6 (sef blwyddyn derfynol yr ysgol gynradd), ac mae'n seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd (blynyddoedd academaidd 2015/16 – 2017/18). Daw'r data o Gronfa Ddata Casglu Data Cenedlaethol a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru.
- Mae dangosydd Sgôr Pwyntiau Cyfartalog mewn Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 4 (CA4) yn mesur sgoriau pwyntiau cyfartalog disgyblion Blwyddyn 11 a gyfrifwyd ar sail y graddau a enillwyd ym mhynciau craidd TGAU Cymraeg neu Saesneg, TGAU Mathemateg a TGAU Gwyddoniaeth (neu gymwysterau cyfatebol). Mae'n seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd (blynyddoedd academaidd 2015/16 – 2017/18) a daw'r data o'r Gronfa Ddata Disgyblion Genedlaethol, Cronfa Ddata Arholiadau yng Nghymru a CYBLD, Llywodraeth Cymru.
- Mae'r dangosydd Absenoldeb Mynych yn mesur canran y disgyblion cynradd ac uwchradd sy'n colli mwy na 15% o sesiynau ysgol, ac mae'n seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd (blynyddoedd academaidd 2015/16 – 2017/18). Daw'r data o'r Gronfa Ddata Disgyblion Genedlaethol a CYBLD, Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddau ddangosydd arall yn canolbwyntio ar gasglu gwybodaeth am ddiffyg cymwysterau a sgiliau ymhlith oedolion:

- Mae'r dangosydd Disgyblion CA4 sy'n Gadael yr Ysgol ac yn Mynd i Addysg Uwch yn mesur cyfran y disgyblion CA4 sydd, rywbryd yn ystod y tair blyneddd ddilynol ar ôl gadael blwyddyn 11, yn mynd i Addysg Uwch (a ddiffinnir fel unrhyw raglen ddysgu uwchlaw lefel 3), ac mae'n seiliedig ar gyfartaledd pedair blynedd (blynyddoed academaidd 2011/12 – 2014/15). Daw'r data o gofnod yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), CYBLD a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR), Llywodraeth Cymru.
- Mae'r dangosydd Dim Cymwysterau yn mesur nifer yr oedolion 25-64 oed heb gymwysterau, ac mae'n seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011.


Am esboniad llawn o'r ffordd y caiff y dangosyddion hyn eu cyfrifo a'u cyfuno, gweler Adroddiad Technegol MALIC 2019.

### 6.3. Canlyniadau allweddol y maes Addysg

- Mae patrymau cyffredinol amddifadedd addysgol ym MALIC 2019 yn debyg i'r rhai ar gyfer MALIC 2014. Dangosir hyn ar y map sy'n dilyn.
- Yr awdurdodau lleol â'r crynodiadau uchaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig oedd Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot, Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf.
- Nid oedd gan Geredigion, Ynys Môn na Sir Fynwy unrhyw ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig.
- Yr ardal fach fwyaf difreintiedig o ran addysg yng Nghymru oedd Queensway 1, rhan o Gymuned Parc Caia yn Wrecsam.

## Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

# Y Maes Addysg



### 6.4. Cymharu'r maes Addysg rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019

Gellir lawrlwytho'r set lawn o safleoedd y meysydd o MALIC 2019 a'r dangosyddion sylfaenol o dudalennu gwe StatsCymru Llywodraeth Cymru.

Dengys y tabl isod nifer yr ardaloedd bach (ACEHIau) ym mhob un o grwpiau amddifadedd MALIC ar gyfer MALIC 2014 a MALIC 2019. Dengys y groeslinell, mewn print trwm, nifer yr ardaloedd sydd wedi aros yn yr un grŵp amddifadedd. Uwchlaw'r groeslinell ceir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud o grŵp mwy difreintiedig i grŵp llai difreintiedig. Islaw'r groeslinell ceir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud o grŵp llai difreintiedig i grŵp mwy difreintiedig.

**Tabl 13: Symudiadau rhwng grwpiau amddifadedd Addysg rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019**

| | | Maes Addysg 2019 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Y 10% mwyaf difreintiedig (safleoedd 1-191) | Y 10-20% mwyaf difreintiedig (safleoedd 192-382) | Yr 20-30% mwyaf difreintiedig (safleoedd 383-573) | Y 30-50% mwyaf difreintiedig (safleoedd 574-955) | Y 50% lleiaf difreintiedig (safleoedd 956-1909) | Cyfanswm (safleoedd 1-1909) |
| **Maes Addysg 2014** | Y 10% mwyaf difreintiedig (safleoedd 1-191) | **141** | 39 | 10 | 1 | 0 | 191 |
| | Y 10-20% mwyaf difreintiedig (safleoedd 192-382) | 36 | **76** | 52 | 24 | 3 | 191 |
| | Yr 20-30% mwyaf difreintiedig (safleoedd 383-573) | 10 | 54 | **60** | 60 | 7 | 191 |
| | Y 30-50% mwyaf difreintiedig (safleoedd 574-955) | 3 | 21 | 62 | **195** | 101 | 382 |
| | Y 50% lleiaf difreintiedig (safleoedd 956-1909) | 1 | 1 | 7 | 102 | **843** | 954 |
| | Cyfanswm (safleoedd 1-1909) | 191 | 191 | 191 | 382 | 954 | **1909** |


Cymharol fwy difreintiedig: Mae 50 o ardaloedd wedi symud i grŵp y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes hwn ym MALIC 2019. Mae'r rhain wedi'u rhannu rhwng 14 o awdurdodau lleol ac roedd y mwyafrif yn y 10-30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes ym MALIC 2014. Symudodd un ardal gryn dipyn o'r 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig ym MALIC 2014.

Cymharol lai difreintiedig: Mae 50 o ardaloedd wedi symud o grŵp y 10% mwyaf difreintiedig ym MALIC 2019. Mae'r rhain wedi'u rhannu rhwng 13 awdurdod lleol a symudodd y mwyafrif i grŵp y 10-20% mwyaf difreintiedig. Ni symudodd yr un ardal gryn dipyn i grŵp y 50% lleiaf difreintiedig.

### 6.5. Dadansoddi'r maes Addysg yn ôl awdurdod lleol

Dengys y siart isod ddosbarthiad safleoedd y maes addysg ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r blychau glas yn cynnwys hanner cyfanswm yr ardaloedd ym mhob awdurdod lleol, wedi'i ganoli ar y safle canolrifol (canol) ar gyfer pob awdurdod lleol a dengys y ‘wisgers’ yr ystod lawn o safleoedd. Mae amddifadedd yn cynyddu wrth i'r safle ostwng (hynny yw, tua gwaelod y plot).

**Siart 7: Plot blychau o safleoedd maes Addysg MALIC 2019, yn ôl awdurdod lleol**



Dengys y tabl isod, ar gyfer maes addysg MALIC 2019, ganran yr ardaloedd bach (ACEHIau) ym mhob awdurdod lleol a oedd yn y 10%, yr 20%, y 30% a'r 50% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

**Tabl 14: Crynodiadau o ardaloedd difreintiedig maes Addysg MALIC 2019, yn ôl awdurdod lleol**

| Awdurdod lleol | Nifer yr ACEHIau yn yr awdurdod lleol | % yr ACEHIau yn y 10% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-191 | % yr ACEHIau yn yr 20% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-382 | % yr ACEHIau yn y 30% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-573 | % yr ACEHIau yn y 50% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-955 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 0.0 | 15.9 | 18.2 | 47.7 |
| Gwynedd | 73 | 1.4 | 4.1 | 6.8 | 26.0 |
| Conwy | 71 | 1.4 | 8.5 | 19.7 | 38.0 |
| Sir Ddinbych | 58 | 8.6 | 15.5 | 29.3 | 51.7 |
| Sir y Fflint | 92 | 9.8 | 18.5 | 30.4 | 47.8 |
| Wrecsam | 85 | 11.8 | 24.7 | 35.3 | 54.1 |
| Powys | 79 | 1.3 | 7.6 | 11.4 | 22.8 |
| Ceredigion | 46 | 0.0 | 0.0 | 2.2 | 21.7 |
| Sir Benfro | 71 | 8.5 | 19.7 | 26.8 | 49.3 |
| Sir Gaerfyrddin | 112 | 7.1 | 12.5 | 21.4 | 48.2 |
| Abertawe | 148 | 11.5 | 18.9 | 30.4 | 45.3 |
| Castell-nedd Port Talbot | 91 | 19.8 | 31.9 | 45.1 | 74.7 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 6.8 | 17.0 | 27.3 | 50.0 |
| Bro Morgannwg | 79 | 3.8 | 10.1 | 15.2 | 32.9 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 14.3 | 31.8 | 46.8 | 69.5 |
| Merthyr Tudful | 36 | 11.1 | 25.0 | 41.7 | 77.8 |
| Caerffili | 110 | 12.7 | 28.2 | 38.2 | 65.5 |
| Blaenau Gwent | 47 | 17.0 | 38.3 | 59.6 | 85.1 |
| Tor-faen | 60 | 13.3 | 28.3 | 41.7 | 60.0 |
| Sir Fynwy | 56 | 0.0 | 1.8 | 7.1 | 21.4 |
| Casnewydd | 95 | 21.1 | 29.5 | 44.2 | 52.6 |
| Caerdydd | 214 | 14.0 | 24.3 | 31.8 | 47.2 |
| **Cymru** | **1909** | **10** | **20** | **30** | **50** |

Un ffordd o ystyried data MALIC ar lefel awdurdod lleol yw edrych ar gyfran yr ardaloedd yn yr awdurdod lleol sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig (neu'r 20% ac ati) o'r holl ardaloedd yng Nghymru. Gellir ystyried bod y fath ddull yn nodi'r crynodiad o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na lefel amddifadedd gyfartalog.

- Yr awdurdod lleol â'r crynodiad uchaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Casnewydd (21.1%, neu 20 o ardaloedd).
- Yr awdurdodau lleol â'r gyfran isaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Ceredigion, Ynys Môn a Sir Fynwy nad oedd yr un o'u hardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig. Dim ond 21.4% o'r ardaloedd yn Sir Fynwy a 21.7% o'r ardaloedd yng Ngheredigion a oedd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Blaenau Gwent a oedd â'r ganran uchaf o ardaloedd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (85.1%). Merthyr Tudful oedd â'r ganran uchaf ond un, gyda 77.8% o'i ardaloedd yn yr hanner mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

## 6.6. Newidiadau methodolegol i'r maes Addysg rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019

Roedd tri o'r chwe dangosydd yn y maes Addysg ym MALIC 2019 i'w cael ym MALIC 2014, sef:

- Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 2
- Cyfradd Absenoldeb Mynych
- Nifer yr Oedolion 25-64 oed Heb Gymwysterau

Mae dangosydd Sgôr Pwyntiau Cyfartalog y Cyfnod Sylfaen sy'n seiliedig ar ganlyniadau asesiadau athrawon ar gyfer disgyblion a gaiff eu haddysgu yng Ngrŵp Blwyddyn 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol wedi'i gynnwys ym MALIC 2019. Bwriedir iddo ategu dangosydd Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 2 er mwyn mesur amddifadedd addysg ar lefel ysgol gynradd.

Mae dau ddangosydd Cyfnod Allweddol 4 a oedd wedi'u cynnwys ym MALIC 2014 wedi'u disodli gan un dangosydd. Lluniwyd y dangosydd hwn gan ddefnyddio methodoleg newydd ac, felly, ni ellir ei gymharu â'r dangosyddion blaenorol a ddefnyddiwyd ym MALIC 2014.

Mae'r dangosydd Cyfran y Bobl 18-19 oed sy'n mynd i Addysg Uwch wedi'i ddisodli gan ddangosydd sy'n mesur Cyfran Disgyblion Cyfnod Allweddol 4 sy'n Gadael yr Ysgol ac yn Mynd i Addysg Uwch. Er bod y dangosyddion hyn yn mesur pethau tebyg, ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol.

## 6.7. Gwybodaeth gefndirol am y maes Addysg

**Ystadegau Addysg Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfres gynhwysfawr o wybodaeth ar addysg a sgiliau yng Nghymru. Mae'r ystadegau hyn yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau sy'n ymwneud â Addysg, gan gynnwys ysgolion, addysg bellach ac uwch, a dysgu seiliedig ar waith.

**Cyfnod Allweddol 4**

Ym mis Medi 2019, newidiodd Llywodraeth Cymru i sgôr pwyntiau ‘capio 9’ wedi'i diweddaru er mwyn mesur cyflawniad yn CA4. Fodd bynnag, mae newidiadau i fesurau CA4 wedi cael eu rhoi ar

waith yn raddol ers 2015/16 ac nid oedd yn bosibl cynhyrchu tair blynedd gymaradwy o ddata'r sgôr pwyntiau 'capio 9' ar gyfer MALIC 2019. Felly, cafodd dangosydd Sgôr Pwyntiau Cyfartalog mewn Pynciau Craidd CA4 ei ddatbygu fel dangosydd interim ond rhagwelir y caiff sgôr pwyntiau 'capio 9' CA4 ei mabwysiadu ar gyfer fersiynau dilynol o MALIC.

**Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant / cyrchfannau dysgwyr**

Yn gysyniadol, byddai mesur y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn ffordd addas o fesur amddifadedd addysgol.

Ceir y prif amcangyfrifon o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn y datganiad ystadegol 'Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur'. Fodd bynnag, mae'r amcangyfrifon ar gael ar lefel Cymru yn unig ac, am fod nifer yr unigolion hynny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn gymharol isel ac am fod y data hyn yn cael eu casglu gan ddefnyddio arolwg sampl, nid yw'n bosibl cyfrifo dangosydd ar lefel ardal fach. Felly, ni chynhwyswyd y dangosydd hwn ym MALIC 2019.

Mae un o raglenni gwaith Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried y posibilrwydd o ddatblygu setiau data cyrchfannau ar gyfer CA4 / CA5. Ceir y setiau data hyn drwy gysylltu ffynonellau data addysg ochr yn ochr ag ymgysylltu ag Astudiaeth Canlyniadau Addysg Hydredol yr Adran Addysg (sydd â'r nod o gysylltu setiau data addysg â data cyflogaeth/enillion gan yr Adran Gwaith a Phensiynau/CThEM) a darparu data ar gyrchfannau disgyblion ar ôl iddynt adael addysg orfodol. Ceir ystadegau arbrofol a gyfrifwyd ar sail y setiau data hyn yn y datganiad ystadegol 'Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 (cyrchfannau dysgwyr)): Awst 2015 – Gorffennaf 2016'.

Er nad oedd yn bosibl defnyddio'r setiau data hyn i gyfrifo dangosydd NEET ar gyfer MALIC 2019, fe'u defnyddiwyd i gyfrifo'r dangosydd Disgyblion CA4 sy'n Gadael yr Ysgol ac yn Mynd i Addysg Uwch. Caiff y broses barhaus o ddatblygu'r setiau data hyn ei monitro ac ystyrir a ellid eu cynnwys mewn datganiadau MALIC yn y dyfodol.

# 7. Y Maes Mynediad Daearyddol at Wasanaethau

## 7.1. Cyflwyniad

Diben y maes hwn yw casglu gwybodaeth am amddifadedd o ganlyniad i analluedd aelwyd i fanteisio ar amrywiaeth o wasanaethau a ystyrir yn angenrheidiol ar gyfer bywyd pob dydd, yn ffisegol ac ar-lein. Mae hyn yn cynnwys amddifadedd materol (er enghraifft methu â chael bwyd) ac agweddau cymdeithasol ar amddifadedd (er enghraifft methu â mynd i weithgareddau ar ôl ysgol). Mae mynediad daearyddol gwael at wasanaethau'n ffactor a all wneud mathau eraill o amddifadedd sy'n bodoli mewn ardal yn waeth.

Mae'r maes mynediad daearyddol at wasanaethau'n mesur amseroedd teithio i amrywiaeth o wasanaethau fel procsi ar gyfer mynediad ffisegol ehangach at wasanaethau. Ar gyfer MALIC 2019, mae'r maes hefyd yn ystyried mynediad i wasanaethau digidol, drwy ddangosydd ar argaeledd bang eang cyflym iawn.

O ran amseroedd teithio, nid yw mesuriadau'n ystyried a yw'r gwasanaethau hyn ar gael i'r unigolyn pan fo'n cyrraedd yno (e.e. a oes apwyntiadau ar gael gyda meddyg teulu), nac yn ystyried dewis personol unigolyn i ddefnyddio gwasanaethau penodol (e.e. pe bai'n well gan rywun gael ei addysgu mewn ysgol ffydd).

O ran gwasanaethau digidol, mae mesuriadau'n ystyried data a gofnodwyd gan y gweithredwyr ynglŷn â'r gwasanaethau band eang llinell sefydlog sydd ar gael, ond nid yw'n ystyried y nifer sy'n eu defnyddio.

Mae gan y maes bwysoliad cymharol o 10% yn y mynegai cyffredinol. Mae'r dangosyddion wedi'u pwysoli fel a ddangosir isod.

I gael disgrifiad cyflawn o sut y lluniwyd y maes mynediad daearyddol at wasanaethau, gweler [Adroddiad Technegol MALIC 2019.](#)


## 7.2. Dangosyddion y maes Mynediad Daearyddol at Wasanaethau

Mae'r maes mynediad daearyddol at wasanaethau'n cynnwys 10 dangosydd.

O'r rhain, mae 9 yn ddangosyddion mynediad ffisegol, pob un yn ymwneud â math o wasanaeth megis siop fwyd neu ysgol. Mae pob dangosydd yn mesur amser teithio cyfartalog ar siwrnai ddwyffordd (mewn munudau) o anheddau preswyl i'r gwasanaeth agosaf, a hynny mewn trafnidiaeth gyhoeddus a thrafnidiaeth breifat. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn cynnwys teithio gyda: bws cyhoeddus, trên cyhoeddus a choets genedlaethol, a cherdded. Ystyrir mai trafnidiaeth â char preifat yw trafnidiaeth breifat. Cyfrifir y pwysoliadau er mwyn cyfuno amserau trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat ar gyfer pob ardal gan ddefnyddio data o Gyfrifiad 2011 ar berchnogaeth car a nifer yr oedolion 17 oed a hŷn.

Mae'r maes hefyd yn cynnwys dangosydd newydd, yn mesur mynediad i wasanaethau digidol. Cyfrifir hyn fel y gyfran o dai a busnesau bach sy'n methu â chael bang eang llinell sefydlog ar gyflymder lawrlwytho o o leiaf 30Mb/s (band eang cyflym iawn). Mae hyn yn cynnwys eiddo heb unrhyw fand eang. Diweddariad Cysylltu'r Gwledydd, Gwanwyn 2019 gan Ofcom yw'r ffynhonnell. Mae Ofcom yn casglu ac yn dadansoddi data gan brif ddarparwyr gwasanaeth rhyngrwyd band eang sefydlog ynglŷn â'r cyfeiriadau y maent yn darparu gwasanaethau iddynt.

Caiff yr agweddau ffisegol a digidol eu trin fel dau is-faes, a chaiff y 9 dangosydd amser teithio eu pwysoli gyda'i gilydd gan ddefnyddio dadansoddiad ffactorau (gweler y pwysoliadau canlyniadol isod), yna cânt eu cyfuno â'r dangosydd mynediad i wasanaethau digidol unigol, y rhoddir pwysoliad o 10% iddo.




*Mae'r dangosydd amser teithio cyfartalog i orsaf betrol yn ystyried trafnidiaeth breifat yn unig.


I gael esboniad llawn o sut y caiff y dangosyddion hyn eu cyfrifo a'u cyfuno, gweler yr Adroddiad Technegol MALIC 2019.

## 7.3. Canlyniadau allweddol y maes Mynediad Daearyddol at Wasanaethau

- Ym maes mynediad daearyddol at wasanaethau MALIC 2019, roedd amddifadedd uchel yn gyffredin ledled ardaloedd gwledig Cymru. Roedd rhai pocedi o amddifadedd i'w cael hefyd yn agos at ardaloedd trefol mawr. Dangosir hyn ar y map sy'n dilyn.
- Yr awdurdodau lleol â'r gyfran uchaf o ardaloedd bach yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Mynediad i wasanaethau oedd Powys (50.6%) a Cheredigion (50.0%).
- Nid oedd gan awdurdodau lleol Caerdydd, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent a Thorfaen unrhyw ardaloedd bach yn y 10% mwyaf difreintiedig.
- Ar gyfer y maes mynediad daearyddol at wasanaethau, yr ardal fach fwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Cynwyl Gaeo, Sir Gaerfyrddin, yr un fath â MALIC 2014. Roedd chwech o'r deg ardal fwyaf difreintiedig ym MALIC 2019 hefyd o fewn y deg ardal fwyaf difreintiedig ym MALIC 2014.
- Mae'r patrymau cyffredinol o ran mynediad daearyddol at wasanaethau ym MALIC 2019 yn debyg i'r rhai hynny ar gyfer MALIC 2014.
- Fodd bynnag, mae newidiadau amlwg wedi digwydd yn y safleoedd cymharol ar y pen lleiaf difreintiedig. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwelliannau sylweddol sydd wedi bod yn y cyfrifiadau amser teithio (gweler adran x.6), yn ogystal â newidiadau posibl i leoliadau gwasanaethau, trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydweithiau ffyrdd ers 2014, a'r dangosydd newydd ar fynediad at wasanaethau digidol.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

# Y Maes Mynediad i Wasanaethau




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2019. Arolwg Ordnans 100021874
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/45/19.20
Tachwedd 2019

## 7.4. Cymharu'r maes Mynediad Daearyddol at Wasanaethau rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019

Mae modd lawrlwytho'r gyfres gyflawn o safleoedd y meysydd ar gyfer MALIC 2019 a'r dangosyddion sylfaenol o dudalennau gwe StatsCymru Llywodraeth Cymru.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob un o grwpiau amddifadedd MALIC ar gyfer MALIC 2014 a MALIC 2019. Mae'r rhifau lletraws, mewn print trwm, yn dangos nifer yr ardaloedd sydd wedi aros yn yr un grŵp amddifadedd. Uwchben y rhifau lletraws nodir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud i grŵp llai difreintiedig. O dan y rhifau lletraws nodir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud i grŵp mwy difreintiedig.

**Tabl 15: Symudiadau rhwng grŵp amddifadedd Mynediad Daearyddol at Wasanaethau rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019**

| | | Maes Mynediad i Wasanaethau 2019 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Y 10% mwyaf difreintiedig (safleoedd 1-191) | Y 10-20% mwyaf difreintiedig (safleoedd 192-382) | Yr 20-30% mwyaf difreintiedig (safleoedd 383-573) | Y 30-50% mwyaf difreintiedig (safleoedd 574-955) | Y 50% lleiaf difreintiedig (safleoedd 956-1909) | Cyfanswm (safleoedd 1-1909) |
| **Maes Mynediad i Wasanaethau 2014** | Y 10% mwyaf difreintiedig (safleoedd 1-191) | **169** | 19 | 0 | 2 | 1 | 191 |
| | Y 10-20% mwyaf difreintiedig (safleoedd 192-382) | 20 | **89** | 41 | 31 | 10 | 191 |
| | Yr 20-30% mwyaf difreintiedig (safleoedd 383-573) | 2 | 29 | **43** | 72 | 45 | 191 |
| | Y 30-50% mwyaf difreintiedig (safleoedd 574-955) | 0 | 30 | 54 | **110** | 188 | 382 |
| | Y 50% lleiaf difreintiedig (safleoedd 956-1909) | 0 | 24 | 53 | 167 | **710** | 954 |
| | Cyfanswm (safleoedd 1-1909) | 191 | 191 | 191 | 382 | 954 | **1909** |

Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r tabl uchod. Mae newidiadau sylweddol i'r fethodoleg yn golygu ei bod yn anodd dehongli newidiadau rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019. Gweler adran 7.6 i gael mwy o fanylion.


Yn gymharol fwy difreintiedig: Mae 22 o ardaloedd wedi symud i'r 10% mwyaf difreintiedig ym MALIC 2019, ac mae hynny ar draws 10 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Roeddent i gyd o fewn y 30% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes mynediad daearyddol ym MALIC 2014.

Yn gymharol lai difreintiedig: Mae 22 o ardaloedd wedi symud o'r 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes mynediad hwn ym MALIC 2014. Symudodd un ohonynt i'r hanner lleiaf difreintiedig, a 2 arall i'r 70% o ardaloedd lleiaf difreintiedig ym MALIC 2019. Roedd pob un o'r tair ardal a symudodd bellaf o'r degradd mwyaf difreintiedig gerllaw Glyn-nedd yn awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot.

### 7.5. Dadansoddiad awdurdodau lleol yn y maes Mynediad Daearyddol at Wasanaethau

Mae'r siart isod yn dangos dosbarthiad safleoedd y maes mynediad daearyddol at wasanaethau ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae’r blychau glas yn cynnwys hanner cyfanswm yr ardaloedd ym mhob awdurdod lleol, wedi’u canoli ar y safle canolrif (canol) ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae’r llinellau’n dangos ystod gyflawn y safleoedd. Mae amddifadedd yn cynyddu yn y safleoedd is (hynny yw, tua gwaelod y plot).

**Siart 8: Plot blwch o safleoedd maes Mynediad Daearyddol at Wasanaethau MALIC 2019, fesul awdurdod lleol**



Mae'r tabl isod yn dangos canran yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob awdurdod lleol a oedd yn y 10%, 20%, 30% a 50% o ardaloedd bach yng Nghymru ar gyfer y maes mynediad daearyddol at wasanaethau ym MALIC 2019.

**Tabl 16: Crynodiad o ardaloedd difreintiedig o ran Mynediad i Wasanaethau MALIC 2019, fesul awdurdod lleol**

| Awdurdod lleol | Nifer yr ACEHIau yn yr awdurdod lleol | % yr ACEHIau yn y 10% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-191 | % yr ACEHIau yn yr 20% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-382 | % yr ACEHIau yn y 30% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-573 | % yr ACEHIau yn y 50% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-955 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 15.9 | 45.5 | 50.0 | 65.9 |
| Gwynedd | 73 | 27.4 | 50.7 | 63.0 | 74.0 |
| Conwy | 71 | 12.7 | 16.9 | 28.2 | 54.9 |
| Sir Ddinbych | 58 | 13.8 | 31.0 | 32.8 | 46.6 |
| Sir y Fflint | 92 | 3.3 | 15.2 | 19.6 | 41.3 |
| Wrecsam | 85 | 7.1 | 16.5 | 24.7 | 47.1 |
| Powys | 79 | 50.6 | 68.4 | 74.7 | 87.3 |
| Ceredigion | 46 | 50.0 | 63.0 | 80.4 | 87.0 |
| Sir Benfro | 71 | 38.0 | 56.3 | 64.8 | 74.6 |
| Sir Gaerfyrddin | 112 | 21.4 | 38.4 | 46.4 | 69.6 |
| Abertawe | 148 | 1.4 | 5.4 | 17.6 | 39.9 |
| Castell-nedd Port Talbot | 91 | 0.0 | 8.8 | 23.1 | 53.8 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 0.0 | 5.7 | 13.6 | 42.0 |
| Bro Morgannwg | 79 | 3.8 | 7.6 | 11.4 | 32.9 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 0.0 | 7.8 | 18.8 | 40.9 |
| Merthyr Tudful | 36 | 2.8 | 19.4 | 36.1 | 63.9 |
| Caerffili | 110 | 0.9 | 4.5 | 14.5 | 26.4 |
| Blaenau Gwent | 47 | 0.0 | 17.0 | 38.3 | 51.1 |
| Tor-faen | 60 | 0.0 | 5.0 | 11.7 | 38.3 |
| Sir Fynwy | 56 | 26.8 | 39.3 | 51.8 | 66.1 |
| Casnewydd | 95 | 2.1 | 8.4 | 23.2 | 43.2 |
| Caerdydd | 214 | 0.0 | 4.2 | 14.5 | 36.0 |
| **Cymru** | **1909** | **10** | **20** | **30** | **50** |

Un modd o ystyried data MALIC ar lefel yr awdurdodau lleol yw edrych ar gyfran yr ardaloedd yn yr awdurdod lleol sydd yn y 10% (neu'r 20% ac ati) mwyaf difreintiedig o'r holl ardaloedd yng Nghymru. Gellir ystyried bod y dull hwn yn nodi lle mae'r ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na lefel amddifadedd gyfartalog.

Yr awdurdod lleol â’r gyfran uchaf o ardaloedd bach yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer mynediad i wasanaethau oedd Powys (50.6%, neu 40 o ardaloedd). Yr uchaf wedyn oedd Ceredigion, gyda 50% (neu 23) o’i hardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig. Y rheswm am hyn yw bod yr awdurdodau lleol hyn yn fawr a bod dwysedd y boblogaeth yn brin, gyda llawer o aneddiadau gwledig bach.

Nid oedd gan awdurdodau lleol Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent, Torfaen na Chaerdydd unrhyw ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig. Fodd bynnag, yr awdurdod lleol â’r nifer leiaf o ardaloedd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Caerffili (26.4% neu 29 ardal).

Roedd ychydig dan 90% o ardaloedd bach Powys a Cheredigion yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda Gwynedd a Sir Benfro yn dilyn, gyda tua tri chwarter o'r ardaloedd hyn yn yr hanner mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

## 7.6. Newidiadau methodolegol yn y maes Mynediad Daearyddol at Wasanaethau rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019

Yn ogystal â diweddaru cyfres MALIC 2014 o ddangosyddion sy'n mesur amseroedd teithio at wasanaethau allweddol, rydym wedi cyflwyno dangosydd newydd ar fynediad at wasanaethau digidol, wedi'i bwysoli yn 10% o fewn y maes mynediad daearyddol. Cyfrifir y dangosydd hwn fel cyfran o dai a busnesau bach sy'n methu â derbyn band eang llinell sefydlog ar gyflymder lawrlwytho o o leiaf 30Mb/s (band eang cyflym iawn). Mae hyn yn cynnwys eiddo heb unrhyw fand eang.

O ran cyfrifo amseroedd teithio diweddar at wasanaethau allweddol, er nad yw egwyddorion y fethodoleg wedi newid rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019, mae'r pecynnau cymorth technolegol a ddefnyddir wedi bod yn destun newidiadau mawr i geisio cynyddu cywirdeb a chadernid y data a'r gallu i'w hailadrodd. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys:

- Gwella’r manylder ynghylch llwybrau preifat, gan ddarparu map at stepen drws pob eiddo preswyl.
- Gwella’r manylder yngylch llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus, gan newid o ddull dalgylch grid ym MALIC 2014 i ddull isocron ym MALIC 2019.
- Gwella'r diffiniad o annedd breswyl i gynnwys cymaint o boblogaeth Cymru â phosibl, gan ddefnyddio cofnodion domestig y dreth gyngor.

Nid yw'r math o wasanaethau a fodelwyd wedi newid ers MALIC 2014, ac felly mae modd cymharu'r ffynonellau data, nifer y safleoedd a'r diffiniadau y cedwir atynt, ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r dangosydd ar gyfer siopau bwyd wedi ehangu i gynnwys rhai siopau cadwyn bwyd wedi'i rewi sy'n cadw at ein diffiniad o ddarpariaethau sylfaenol. Mae canolfannau hamdden wedi'u hailenwi yn gyfleusterau chwaraeon i gwmpasu'r gwasanaethau ehangach sydd bellach yn cael eu cynnig.

Yn sgil hyn, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli newidiadau yng ngwerthoedd dangosyddion amser teithio, na ellir eu cymharu'n uniongyrchol â data hŷn. Prif effaith y diweddariad yw codi'r amseroedd teithio is, gan arwain at symudiadau nodedig rhwng safleoedd cymharol ar y pen lleiaf difreintiedig. Yn fwy cyffredinol, mae'r rhesymau dros y newidiadau yn cynnwys:

- newidiadau i'r fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo'r amseroedd teithio gan drafnidiaeth breifat a chyhoeddus (gweler uchod)
- gwasanaethau sydd wedi agor a chau ers 2014
- newidiadau mewn trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydweithiau ffyrdd ers 2014
- newidiadau i leoliad anheddau preswyl mewn ardal (e.e. tai newydd) ers 2014

I gael rhagor o fanylion, gweler Adroddiad Technegol MALIC 2019.

## 7.7. Gwybodaeth gefndir am y Maes Mynediad Daearyddol at Wasanaethau

**Dadansoddiad perthnasol pellach o MALIC**

Ar ôl i MALIC 2019 gael ei gyhoeddi, caiff erthyglau ystadegol perthnasol a luniwyd yn dilyn MALIC 2014 eu diweddaru gyda'r data newydd, a'u cyhoeddi maes o law ar ein gwefan. Caiff dolenni at fersiynau MALIC 2014 eu darparu isod:

- Arweiniad i ddadansoddi amddifadedd mewn ardaloedd gwledig
- Dadansoddiad o'r parth mynediad i wasanaethau yn ôl y math o anheddiad

**Campws Gwyddor Data - dadansoddiad o siwrnai trafnidiaeth aml-ddull**

Er mwyn gwella ein mesuriadau o fynediad at wasanaethau, rydym wedi defnyddio'r Campws Gwyddor Data yn offeryn newydd yr ONS i ddadansoddi siwrneiau trafnidiaeth aml-ddull. Bydd y teclyn, a elwir yn "propeR", ac a ysgrifennwyd ar gyfer yr iaith raglennu R, yn gwella lefel y manylder a pha mor hawdd y gellid dadansoddi amser teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru, a'r tu hwnt.

**Dull arall - ardaloedd dalgylch cyfnewidiol**

Mae tîm Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) ym Mhrifysgol De Cymru wedi bod yn cynnal ymchwil[2] i gywreinio'r dull o asesu hygyrchedd gwasanaeth, a elwir yn ddull dalgylch cyfnewidiol 2 gam, sy'n deillio o dechnegau model disgyrchiant.

Nod eu gwaith yw cyfrifo, ar gyfer pob lleoliad o ddiddordeb, ffigur mynediad i wasanaethau sy'n ystyried dosbarthiad daearyddol yr holl safleoedd cyflenwi sydd i'w cael o fewn amser/pellter teithio

[2] Er enghraifft, yr erthyglau diweddar Measuring Spatial Accessibility to Services within Indices of Multiple Deprivation and Investigating spatial variations in access to childcare provision using network-based Geographic Information System models

rhesymol. Caiff agosrwydd a chapasiti'r safleoedd hyn eu gwerthuso mewn perthynas â'r galw posibl am wasanaethau a roddir gan bob un gan eu poblogaethau lleol.

Lle y bo'n bosibl, byddwn yn parhau i rannu mewnbynnau a dulliau ar gyfer y maes mynediad hwn gyda thîm WISERD. Bydd hyn yn caniatáu i set gyfochrog o allbynnau gael eu llunio gan ddefnyddio’r dull FCA, gan ein galluogi i asesu goblygiadau mabwysiadu’r dull FCA ar gyfer data'r maes Mynediad Daearyddol at Wasanaethau yn y dyfodol.

**Arolwg Cenedlaethol Cymru - mynediad i wasanaethau**

Yn 2017-18, gofynnodd Arolwg Cenedlaethol Cymru gwestiynau am p'un a yw pobl yn fodlon gyda lefel y mynediad sydd ganddynt i'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt. Rhoddir crynodeb o'r canlyniadau mewn bwletin ystadegol.

# 8. Y Maes Tai

## 8.1. Cyflwyniad

Diben y maes tai, o ran cysyniad, yw canfod tai sy'n annigonol, o ran cyflwr ffisegol, amodau byw ac argaeledd. Yma, mae amodau byw'n golygu addasrwydd tai ar gyfer preswylydd/preswylwyr, er enghraifft o ran iechyd a diogelwch, ac addasiadau angenrheidiol.


Mae tai, fel elfen o amddifadedd lluosog, rywfaint yn wahanol i'r rhan fwyaf o feysydd eraill. Ar y cyfan, mae deiliadaeth, oedran a'r math o dai yn dueddol o ddylanwadu ar fesurau amddifadedd tai, fel y nodir uchod. Er enghraifft, mae gan wahanol ddeiliadaethau tai reoliadau neu safonau amrywiol sy'n gymwys iddynt, a gall hyn ddylanwadu ar ansawdd tai. Felly, ni fyddem wastad yn disgwyl i fesurau amddifadedd tai gyfateb yn gryf i amddifadedd yn gyffredinol. Fodd bynnag, yn yr un modd â mynediad gwael at wasanaethau, gall effaith gyfunol tai gwael ynghyd ag elfennau eraill o amddifadedd megis iechyd, fod yn sylweddol, ac mae'n bwysig nodi hyn.

Mae gan y maes bwysoliad cymharol o 7% yn y mynegai cyffredinol. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu o 5% ym mynegai 2014, yn sgil ychwanegu dangosydd newydd wedi'i fodelu, ar y debygoliaeth o gael tai o ansawdd gwael.

I gael disgrifiad cyflawn o sut y lluniwyd y maes, gweler Adroddiad Technegol MALIC 2019.

## 8.2. Dangosyddion

Mae'r maes yn cynnwys dau ddangosydd sydd wedi'u pwysoli fel a ddangosir isod:




- Mae'r dangosydd ar orlenwi yn mesur canran y bobl sy'n byw mewn tai gorlawn (mesur ystafelloedd gwely yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011)

- Mae'r dangosydd ar dai o ansawdd gwael yn ddangosydd wedi'i fodelu. Mae'n mesur y debygoliaeth bod tai mewn cyflwr gwael neu eu bod yn cynnwys peryglon difrifol (er enghraifft, perygl o gwympo neu oerfel).


I gael disgrifiad llawn o'r dangosyddion hyn, ac i egluro sut y cânt eu cyfrifo a'u cyfuno, gweler adran 8.6, ac Adroddiad Technegol MALIC 2019.

### 8.3. Canlyniadau allweddol y maes tai

- Ym maes tai MALIC 2019, roedd pocedi o amddifadedd uchel o ran tai yn ninasoedd a chymoedd y De, yn ogystal ag yn y Gorllewin a'r Gogledd. Dangosir hyn ar y map sy'n dilyn.
- Yr awdurdod lleol â'r crynodiad mwyaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig oedd Ceredigion (28.3%). Merthyr Tudful oedd â'r ganran uchaf o ardaloedd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (86.1%).
- Nid oedd gan Dorfaen unrhyw ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac yn Sir Fynwy dim ond 1.8% (neu 1 ardal) o ardaloedd bach oedd yn y grŵp hwn.
- Ar gyfer y maes tai, yr ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Grangetown 9, Caerdydd, tuag at ben gogleddol Corporation Road. Yn wir, roedd pedair o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran tai yng Nghymru yn ardaloedd cyfagos yn Grangetown.
- Wrth edrych ar y 10 ardal mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran tai, roedd 8 yng Nghaerdydd (yn Grangetown a Riverside) a'r ddau arall yn Abertawe (Castle 6) a Chasnewydd (Victoria 3). Yn y gorffennol, roedd pob un wedi'i osod o fewn y 31 o ardaloedd mwyaf difreintiedig ym maes tai MALIC 2014.
- Mae newidiadau wedi bod ym mhatrymau amddifadedd tai ym MALIC 2019 o gymharu â'r rheini a welwyd ym MALIC 2014. Mae hyn i'w ddisgwyl, gan ystyried bod y dangosydd newydd wedi cael ei gynnwys ar dai o ansawdd gwael ynghyd â'r mesur ar orlenwi (a ddefnyddiwyd hefyd ym MALIC 2014). Mae dangosydd ar ddiffyg gwres canolog wedi cael ei dynnu o'r mynegai, fel yr eglurir yn y crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad MALIC 2019.

**Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019**

# Y Maes Tai




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2019. Arolwg Ordnans 100021874
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/45/19.20
Tachwedd 2019

## 8.4. Cymharu’r maes tai rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019

Mae modd lawrlwytho’r gyfres gyflawn o safleoedd y meysydd ar gyfer MALIC 2019 a’r dangosyddion sylfaenol o dudalennau gwe StatsCymru Llywodraeth Cymru.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob un o grwpiau amddifadedd MALIC ar gyfer MALIC 2014 a MALIC 2019. Mae’r rhifau lletraws, mewn print trwm, yn dangos nifer yr ardaloedd sydd wedi aros yn yr un grŵp amddifadedd. Uwchben y rhifau lletraws nodir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud o grŵp mwy difreintiedig i grŵp llai difreintiedig. O dan y rhifau lletraws nodir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud o grŵp llai difreintiedig i grŵp mwy difreintiedig.

**Tabl 17: Symudiadau’r grwpiau amddifadedd ar gyfer y maes Tai rhwng MALIC 2014 a 2019**

| | | Maes Tai 2019 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Y 10% mwyaf difreintiedig (safleoedd 1-191) | Y 10-20% mwyaf difreintiedig (safleoedd 192-382) | Yr 20-30% mwyaf difreintiedig (safleoedd 383-573) | Y 30-50% mwyaf difreintiedig (safleoedd 574-955) | Y 50% lleiaf difreintiedig (safleoedd 956-1909) | Cyfanswm (safleoedd 1-1909) |
| **Maes Tai 2014** | Y 10% mwyaf difreintiedig (safleoedd 1-191) | **105** | 32 | 15 | 27 | 12 | 191 |
| | Y 10-20% mwyaf difreintiedig (safleoedd 192-382) | 46 | **46** | 35 | 43 | 21 | 191 |
| | Yr 20-30% mwyaf difreintiedig (safleoedd 383-573) | 19 | 46 | **26** | 53 | 47 | 191 |
| | Y 30-50% mwyaf difreintiedig (safleoedd 574-955) | 17 | 46 | 63 | **130** | 126 | 382 |
| | Y 50% lleiaf difreintiedig (safleoedd 956-1909) | 4 | 21 | 52 | 129 | **748** | 954 |
| | Cyfanswm (safleoedd 1-1909) | 191 | 191 | 191 | 382 | 954 | **1909** |

Yn gymharol fwy difreintiedig: Mae pedair ardal wedi symud o grŵp y 50% lleiaf difreintiedig ym MALIC 2014 i grŵp y 10% mwyaf difreintiedig ym MALIC 2019. Mae tair o'r ardaloedd hyn mewn pentrefi gwledig yn Sir y Fflint, Sir Fynwy a Sir Ddinbych, ac un ardal ar gyrion tref Pen-y-bont ar Ogwr (Maesteg). Daw'r newidiadau hyn yn sgil cyfraddau cymharol uchel yn y dangosydd newydd ar gyfer tai o ansawdd gwael.


Yn gymharol lai difreintiedig: Mae deuddeg ardal wedi symud o grŵp y 10% mwyaf difreintiedig ym MALIC 2014 i grŵp y 50% lleiaf difreintiedig ym MALIC 2019. Roedd yr holl ardaloedd hyn mewn

ardaloedd cymharol drefol ar wasgar ar draws Cymru, gyda'u hanner (chwech) yng Nghaerdydd. Er gwaetha'r ffaith bod cyfraddau cymharol uchel o orlenwi, mae gan yr ardaloedd hyn debygoliaeth isel o gael tai o ansawdd gwael[3].

### 8.5. Dadansoddiad awdurdodau lleol ym maes tai

Mae'r tabl isod yn dangos dosbarthiad y safleoedd yn y maes tai ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r blychau glas yn cynnwys hanner cyfanswm yr ardaloedd bach ym mhob awdurdod lleol, wedi'u canoli ar y safle canolrif (canol) ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae'r llinellau'n dangos ystod gyflawn y safleoedd. Mae amddifadedd yn cynyddu yn y safleoedd is (hynny yw, tua gwaelod y plot).

**Siart 9: Plot blwch o safleoedd maes tai MALIC 2019, fesul awdurdod lleol**




[3] Bellach, caiff y ddau ddangosydd eu pwysoli'n gyfartal yn y maes, ond ym MALIC 2014, cafodd y dangosydd gorlenwi ei bwysoli'n uwch (67%) na'r dangosydd arall (blaenorol) ar ddiffyg gwres canolog (33%).

Mae’r tabl isod yn dangos canran yr ardaloedd bach (ACEHI) ym mhob awdurdod lleol a restrir yn y 10%, 20%, 30%  a 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes tai ym MALIC 2019.

**Tabl 18: Crynodiadau o ardaloedd difreintiedig o ran Tai MALIC 2019, fesul awdurdod lleol**

| Awdurdod lleol | Nifer yr ACEHIau yn yr awdurdod lleol | % yr ACEHIau yn y 10% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-191 | % yr ACEHIau yn yr 20% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-382 | % yr ACEHIau yn y 30% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-573 | % yr ACEHIau yn y 50% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-955 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 2.3 | 20.5 | 27.3 | 47.7 |
| Gwynedd | 73 | 21.9 | 39.7 | 49.3 | 75.3 |
| Conwy | 71 | 8.5 | 18.3 | 28.2 | 46.5 |
| Sir Ddinbych | 58 | 15.5 | 27.6 | 32.8 | 60.3 |
| Sir y Fflint | 92 | 2.2 | 12.0 | 20.7 | 42.4 |
| Wrecsam | 85 | 5.9 | 11.8 | 22.4 | 47.1 |
| Powys | 79 | 2.5 | 12.7 | 30.4 | 54.4 |
| Ceredigion | 46 | 28.3 | 47.8 | 58.7 | 78.3 |
| Sir Benfro | 71 | 7.0 | 9.9 | 19.7 | 47.9 |
| Sir Gaerfyrddin | 112 | 11.6 | 20.5 | 33.9 | 53.6 |
| Abertawe | 148 | 7.4 | 15.5 | 23.6 | 41.2 |
| Castell-nedd Port Talbot | 91 | 2.2 | 11.0 | 24.2 | 46.2 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 4.5 | 11.4 | 17.0 | 35.2 |
| Bro Morgannwg | 79 | 6.3 | 12.7 | 16.5 | 26.6 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 7.8 | 21.4 | 39.0 | 60.4 |
| Merthyr Tudful | 36 | 22.2 | 36.1 | 52.8 | 86.1 |
| Caerffili | 110 | 3.6 | 12.7 | 24.5 | 55.5 |
| Blaenau Gwent | 47 | 10.6 | 27.7 | 40.4 | 61.7 |
| Tor-faen | 60 | 0.0 | 13.3 | 23.3 | 38.3 |
| Sir Fynwy | 56 | 1.8 | 10.7 | 17.9 | 35.7 |
| Casnewydd | 95 | 12.6 | 25.3 | 27.4 | 37.9 |
| Caerdydd | 214 | 25.7 | 31.8 | 39.7 | 51.9 |
| **Cymru** | **1909** | **10** | **20** | **30** | **50** |

Un modd o ystyried data MALIC ar lefel yr awdurdodau lleol yw edrych ar gyfran yr ardaloedd yn yr awdurdod lleol sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig (neu’r 20% ac ati) o'r holl ardaloedd bach yng Nghymru. Gellir ystyried bod y dull hwn yn nodi lle mae’r ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na lefel amddifadedd gyfartalog.

Yr awdurdod lleol â’r gyfran uchaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Ceredigion (28.3%, neu 13 o ardaloedd). Ardaloedd mewn pentrefi gwasgaredig yw'r rhain yn bennaf, gyda thebygoliaeth gymharol uchel o gael tai o ansawdd gwael, ond ceir hefyd rhai ardaloedd mewn trefi (Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan) sydd â chyfraddau cymharol uchel o orlenwi.

Nid oedd gan Dorfaen unrhyw ardaloedd bach yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac yn Sir Fynwy dim ond 1.8% (1 ACEHI) o ardaloedd a oedd yn y grŵp hwn. Dim ond 26.6% o'r ardaloedd bach ym Mro Morgannwg oedd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Merthyr Tudful oedd â'r ganran uchaf o ardaloedd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (86.1%). Yr uchaf wedyn oedd Ceredigion, gydag 78.3% o’i hardaloedd yn yr hanner mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

## 8.6. Newidiadau methodolegol yn y maes tai rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019

Ym MALIC 2014, nid oedd digon o ddata priodol ar gael, ac nid oedd yn bosibl mesur amddifadedd tai yn llawn, yn unol â'n diffiniad. Arferai'r maes tai gynnwys ddau ddangosydd o Gyfrifiad 2011:

- Canran y boblogaeth sy'n byw ar aelwydydd gorlawn (gyda phwysau o 66.6%)
- Canran y bobl sy'n byw ar aelwyd heb wres canolog (gyda phwysau o 33.3%)

Ym MALIC 2019, mae'r maes tai yn parhau i gynnwys y dangosydd ar orlenwi (i gasglu gwybodaeth ar argaeledd ac i ryw raddau, amodau byw) ac mae hefyd yn cynnwys dangosydd wedi’i fodelu, ar dai o ansawdd gwael. Mae'r dangosydd hwn yn helpu i gasglu gwybodaeth am amodau ffisegol ac amodau byw.

Caiff y dangosydd newydd ei gyfrifo gan ddefnyddio model a luniwyd o ddata arolwg, sy'n gwneud rhagfynegiadau tebygolrwydd ynglŷn ag anheddau ar lefel unigol yng Nghymru, gan ddefnyddio amrywiaeth o setiau data gweinyddol fel mewnbynnau. Mae hyn yn ein galluogi i amcangyfrif y debygoliaeth bod anheddau mewn ardal:

- yn cynnwys perygl Categori 1 ar gyfer oerfel, cwympiadau neu beryglon eraill o dan y System Mesur Iechyd a Diogelwch Tai
- mewn cyflwr gwael

Ystyrir bod gan annedd berygl categori 1 o ganlyniad i oerfel gormodol os oes bygythiad difrifol yn sgil tymereddau rhy isel dan do. Asesir bod gan annedd berygl categori 1 o ran cwympiadau os ystyrir bod perygl difrifol o gwympo ar risiau, rhwng lefelau, arwynebau anwastad neu gwympo mewn bath, cawod neu gyfleuster tebyg.

Dywedir bod annedd mewn cyflwr gwael os yw o leiaf un o'r cydrannau adeiladu allweddol yn hen neu bod angen un newydd neu os oes angen gwneud gwaith atgyweirio mawr oherwydd ei gyflwr;

neu os yw mwy nag un o'r cydrannau adeiladu eraill yn hen a bod un yn ei le neu bod angen gwneud gwaith atgyweirio mawr.

Sylwer bod gofyniad i dai cymdeithasol gynnal safon ansawdd tai Cymru (SATC), ac felly mewn ardaloedd lle mae cyfran uchel o dai cymdeithasol, mae'r data a fodelwyd yn tueddu i ddangos llai o debygolrwydd o dai o ansawdd gwael.

Dyma'r tro cyntaf i ddata wedi'u modelu cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw faes ym MALIC. Mae'r ymarfer hwn wedi gwella'r ystod o wybodaeth ar dai sydd ar gael yn yr ardal leol, gan ddefnyddio dangosyddion sy'n cyd-fynd yn agos â'n diffiniad o amddifadedd tai. Mae ein proses sicrhau ansawdd, a oedd yn cynnwys swyddogion awdurdod lleol, yn awgrymu bod y model yn gywir ar y cyfan. Un anfantais o ddefnyddio'r dull hwn yn barhaus fyddai cyfyngiadau posibl o ran adlewyrchu effaith ymyriadau diweddar neu newidiadau eraill ym maes tai. Wrth lywio penderfyniadau, dylid defnyddio data wedi'u modelu ochr yn ochr â data neu wybodaeth leol, cadarn a diweddar lle bynnag y bo'n bosibl. Byddwn yn mynd ati i geisio edrych ar ffynonellau eraill (nad ydynt wedi'u modelu) ar gyfer mynegeion y dyfodol, fel yr amlinellir yn ein crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

O ganlyniad i'r newidiadau i'r dangosyddion sy'n dangos amddifadedd tai yn well, mae'r maes tai wedi cael mwy o bwysoliad ym mynegai cyffredinol MALIC 2019. Bellach, mae gan y maes bwysoliad cymharol o 7% yn y mynegai cyffredinol, gan gynyddu o 5% yn mynegai 2014.

Mae gwybodaeth dechnegol lawn ar y maes ar gael yn yr Adroddiad Technegol.

## 8.7. Gwybodaeth gefndir am y maes tai

**Digartrefedd**

Gellir ystyried mai digartrefedd yw'r ffurf fwyaf eithafol o amddifadedd o ran tai. Mae data ar ddigartrefedd Statudol ar gael ar lefel Awdurdodau Lleol. Mae data ar gysgu allan ar gael hefyd ar lefel awdurdod lleol.

**Y Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai**

Wedi'i sefydlu yn 2016, mae'r Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai yn rhaglen strategol o fuddsoddiad mewn tystiolaeth am gyflwr ac effeithlonrwydd / perfformiad ynni tai yng Nghymru. Mae'n cynnwys:

- Arolwg Cyflwr Tai Cymru, sy'n casglu gwybodaeth am gyflwr ac effeithlonrwydd ynni pob math o ddeiliadaeth a thai yng Nghymru, ac fe'i cynhaliwyd ddiwethaf yn 2017-18.
- Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru, sy'n ceisio dwyn ynghyd amrywiaeth o ddata ar y nodweddion, gwneuthuriad, cyflwr ac effeithlonrwydd ynni y stoc dai yng Nghymru. Mae'r adnodd hwn yn dal yng ngham cynnar ei ddatblygiad, ond caiff ei ystyried mewn mynegai yn y dyfodol, yn amodol ar y ffaith bod y Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai yn parhau.

**Tlodi Tanwydd**

Fel y diffinnir yn Strategaeth Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru, ystyrir bod aelwyd yng Nghymru mewn tlodi tanwydd os yw'n gwario 10% neu fwy o'i incwm (gan gynnwys Budd-dal Tai, Cymhorthdal Incwm ar gyfer Llog Morgais neu fudd-daliadau'r dreth gyngor) ar gostau ynni er mwyn gwresogi eu cartrefi i lefel ddigonol. Mae tlodi tanwydd yn effeithio'n sylweddol ar iechyd a lles cymdeithasol ac economaidd aelwydydd. Mae amcangyfrifon Tlodi Tanwydd Cymru ar gyfer 2018 wedi'u cyhoeddi, a chaiff dadansoddiad Awdurdodau Lleol wedi'u modelu ei gyhoeddi maes o law. Fodd bynnag, nid oes data ar gael ar lefel ardaloedd bach ar hyn o bryd.

**Effeithlonrwydd Ynni**

Gellid ystyried gwybodaeth am sgorau'r Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) yn arwydd bras o ansawdd Tai. Mae tai sy'n defnyddio ynni'n aneffeithlon yn fwy anodd/drud i'w gwresogi. Mae angen Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) ar gyfer eiddo pan gânt eu hadeiladu, eu gwerthu neu eu gosod. Mae'r EPC yn rhoi manylion am berfformiad ynni'r eiddo a'r hyn y gellid ei wneud i'w wella. Caiff data'r EPC eu cyhoeddi gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Er bod cwmpas cofnodion yr EPC ar draws ACEHI yn eithaf da, nid yw'n gyflawn ac mae perygl o ddangos rhagfarn. Mae nifer o'r cofnodion yn hen.


## 9. Y Maes Diogelwch Cymunedol

### 9.1. Cyflwyniad

Bwriedir i'r maes hwn ystyried amddifadedd sy'n ymwneud â byw mewn cymuned ddiogel. Mae'n cwmpasu profiadau gwirioneddol o droseddu a thân, yn ogystal â chanfyddiadau pobl o ddiogelwch pan fyddant allan yn yr ardal leol. Mae gan y maes bwysoliad cymharol o 5% yn y mynegai cyffredinol. Mae'r dangosyddion wedi'u pwysoli fel y dangosir isod. Am ddisgrifiad llawn o'r ffordd y cafodd y maes ei lunio, gweler Adroddiad Technegol MALIC 2019.

### 9.2. Dangosyddion

Mae'r maes yn cynnwys chwe dangosydd, wedi'u pwysoli fel y dangosir isod:




Cyfrifir pump o'r dangosyddion hyn ar sail data Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu.

- Mae'r dangosydd ar Ddifrod Troseddol a Gofnodwyd gan yr Heddlu yn mesur nifer yr achosion o ddifrod troseddol y rhoddwyd gwybod amdanynt fel canran o'r boblogaeth breswyl, heb gynnwys poblogaeth y carchardai, ac mae'n seiliedig ar gyfartaledd dwy flynedd (2017-18 a 2018-19).
- Mae'r dangosydd ar Droseddau Treisgar a Gofnodwyd gan yr Heddlu yn mesur nifer y troseddau treisgar y rhoddwyd gwybod amdanynt fel canran o'r boblogaeth breswyl, heb gynnwys poblogaeth y carchardai, ac mae'n seiliedig ar gyfartaledd dwy flynedd (2017-18 a 2018-19).

- Mae'r dangosydd ar Achosion o Ddwyn a Gofnodwyd gan yr Heddlu yn mesur nifer yr achosion o ddwyn y rhoddwyd gwybod amdanynt fel canran o'r boblogaeth breswyl, heb gynnwys poblogaeth y carchardai, ac mae'n seiliedig ar gyfartaledd dwy flynedd (2017-18 a 2018-19).
- Mae'r dangosydd ar Fwrgleriaethau a Gofnodwyd gan yr Heddlu yn mesur nifer y bwrgleriaethau y rhoddwyd gwybod amdanynt fel canran o nifer yr anheddau a'r cyfeiriadau busnes, ac mae'n seiliedig ar gyfartaledd dwy flynedd (2017-18 a 2018-19).
- Mae'r dangosydd ar achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn mesur nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol y rhoddwyd gwybod amdanynt fel canran o'r boblogaeth breswyl, heb gynnwys poblogaeth y carchardai, ac mae'n seiliedig ar gyfartaledd dwy flynedd (2017-18 a 2018-19).

Mae'r chweched dangosydd yn defnyddio data ar achosion o dân.

- Mae'r dangosydd ar Achosion o Dân yn mesur nifer y digwyddiadau tân yr ymatebwyd iddynt fel canran o'r boblogaeth breswyl, ac mae'n seiliedig ar gyfartaledd dwy flynedd (2017-18 a 2018-19). Daw'r data o adroddiadau'r Gwasanaethau Tân ac Achub a gesglir gan Lywodraeth Cymru.


Am esboniad llawn o'r ffordd y caiff y dangosyddion hyn eu cyfrifo a'u cyfuno, gweler Adroddiad Technegol MALIC 2019.

## 9.3. Canlyniadau allweddol y maes Diogelwch Cymunedol

- Ym maes diogelwch cymunedol MALIC 2019, roedd pocedi o amddifadedd uchel yng nghymoedd y de, y dinasoedd mawr yn y de, ac yn y trefi ar yr arfordir ac ar y ffin yn y gogledd. Dangosir hyn ar y map sy'n dilyn.
- Yr awdurdodau lleol â'r crynodiad uchaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig oedd Casnewydd (35.8%) wedi'i ddilyn gan Flaenau Gwent (27.7%). Sir Fynwy oedd â'r gyfran isaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig (1.8%, neu un ACEHI).
- Ar gyfer y maes diogelwch cymunedol, yr ardal fach fwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Cathays 10, yng nghanol Dinas Caerdydd, sy'n cynnwys Parc Cathays a Pharc Bute..
- Mae patrymau cyffredinol amddifadedd diogelwch cymunedol ym MALIC 2019 yn debyg i'r rhai ar gyfer MALIC 2014.
- Ar lefel Cymru, roedd cynnydd sylweddol yn y dangosydd troseddau treisgar a chynnydd llai yn y dangosyddion difrod troseddol ac achosion o dân. Ar y llaw arall, gwelwyd gostyngiad yn y dangosyddion bwrgleriaeth, dwyn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

# Y Maes Diogelwch Cymunedol




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2019. Arolwg Ordnans 100021874
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/45/19.20
Tachwedd 2019

## 9.4. Cymharu'r maes diogelwch cymunedol rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019

Gellir lawrlwytho'r set lawn o safleoedd y meysydd o MALIC 2019 a'r dangosyddion sylfaenol o dudalennu gwe StatsCymru Llywodraeth Cymru.

Dengys y tabl isod nifer yr ardaloedd bach (ACEHIau) ym mhob un o grwpiau amddifadedd MALIC ar gyfer MALIC 2014 a MALIC 2019. Dengys y groeslinell, mewn print trwm, nifer yr ardaloedd sydd wedi aros yn yr un grŵp amddifadedd. Uwchlaw'r groeslinell ceir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud o grŵp mwy difreintiedig i grŵp llai difreintiedig. Islaw'r groeslinell ceir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud o grŵp llai difreintiedig i grŵp mwy difreintiedig.

**Tabl 19: Symudiadau rhwng grwpiau amddifadedd Diogelwch Cymunedol rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019**

| Maes Diogelwch Cymunedol 2014 | Maes Diogelwch Cymunedol 2019: Y 10% mwyaf difreintiedig (safleoedd 1-191) | Y 10-20% mwyaf difreintiedig (safleoedd 192-382) | Yr 20-30% mwyaf difreintiedig (safleoedd 383-573) | Y 30-50% mwyaf difreintiedig (safleoedd 574-955) | Y 50% lleiaf difreintiedig (safleoedd 956-1909) | Cyfanswm (safleoedd 1-1909) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y 10% mwyaf difreintiedig (safleoedd 1-191) | **126** | 40 | 15 | 9 | 1 | 191 |
| Y 10-20% mwyaf difreintiedig (safleoedd 192-382) | 38 | **62** | 50 | 34 | 7 | 191 |
| Yr 20-30% mwyaf difreintiedig (safleoedd 383-573) | 18 | 46 | **50** | 61 | 16 | 191 |
| Y 30-50% mwyaf difreintiedig (safleoedd 574-955) | 8 | 33 | 62 | **166** | 113 | 382 |
| Y 50% lleiaf difreintiedig (safleoedd 956-1909) | 1 | 10 | 14 | 112 | **817** | 954 |
| Cyfanswm (safleoedd 1-1909) | 191 | 191 | 191 | 382 | 954 | **1909** |

Cymharol fwy difreintiedig: Mae 65 o ardaloedd wedi symud i mewn i grŵp y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes hwn ym MALIC 2019. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain mewn ardaloedd trefol mewn dinasoedd a threfi, a Chasnewydd a Chaerffili sydd â'r gyfran fwyaf. Symudodd un ardal yng Nghastell-nedd Port Talbot o grŵp y 50% lleiaf difreintiedig o ganlyniad i gynnydd nodedig yn y dangosyddion ar gyfer pob math o drosedd.


Cymharol lai difreintiedig: Mae 65 o ardaloedd wedi symud allan o grŵp y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes hwn ym MALIC 2019. Mae'r rhain wedi'u rhannu rhwng rhan fwyaf yr awdurdodau

lleol gyda Chaerdydd yn cynnwys y mwyafrif ohonynt. Symudodd un ardal, ym Mro Morgannwg, o grŵp y 10% mwyaf difreintiedig ym MALIC 2014 i grŵp y 50% lleiaf difreintiedig ym MALIC 2019. Roedd hyn i'w briodoli'n bennaf i ostyngiad yn y dangosyddion difrod troseddol, ymddygiad gwrthgymdeithasol a dwyn.

### 9.5. Dadansoddi'r maes diogelwch cymunedol yn ôl awdurdod lleol

Dengys y siart isod ddosbarthiad safleoedd y maes diogelwch cymunedol ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r blychau glas yn cynnwys hanner cyfanswm yr ardaloedd ym mhob awdurdod lleol, wedi'i ganoli ar y safle canolrifol (canol) ar gyfer pob awdurdod lleol a dengys y 'wisgers' yr ystod lawn o safleoedd. Mae amddifadedd yn cynyddu wrth i'r safle ostwng (hynny yw, tua gwaelod y plot).

**Siart 10: Plot blychau o safleoedd maes Diogelwch Cymunedol MALIC 2019, yn ôl awdurdod lleol**



Dengys y tabl isod, ar gyfer maes diogelwch cymunedol MALIC 2019, ganran yr ardaloedd bach (ACEHIau) ym mhob awdurdod lleol a oedd yn y 10%, yr 20%, y 30% a'r 50% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

**Tabl 20: Crynodiadau o ardaloedd sy'n wynebu amddifadedd o ran Diogelwch Cymunedol ym MALIC 2019, yn ôl awdurdod lleol**

| Awdurdod lleol | Nifer yr ACEHIau yn yr awdurdod lleol | % yr ACEHIau yn y 10% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-191 | % yr ACEHIau yn yr 20% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-382 | % yr ACEHIau yn y 30% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-573 | % yr ACEHIau yn y 50% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-955 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 6.8 | 15.9 | 22.7 | 40.9 |
| Gwynedd | 73 | 6.8 | 12.3 | 27.4 | 41.1 |
| Conwy | 71 | 8.5 | 16.9 | 28.2 | 50.7 |
| Sir Ddinbych | 58 | 10.3 | 22.4 | 29.3 | 39.7 |
| Sir y Fflint | 92 | 8.7 | 13.0 | 25.0 | 39.1 |
| Wrecsam | 85 | 18.8 | 31.8 | 47.1 | 68.2 |
| Powys | 79 | 5.1 | 7.6 | 11.4 | 20.3 |
| Ceredigion | 46 | 6.5 | 13.0 | 15.2 | 26.1 |
| Sir Benfro | 71 | 8.5 | 16.9 | 21.1 | 31.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 112 | 5.4 | 12.5 | 17.0 | 33.9 |
| Abertawe | 148 | 10.1 | 21.6 | 27.7 | 47.3 |
| Castell-nedd Port Talbot | 91 | 5.5 | 11.0 | 18.7 | 37.4 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 2.3 | 10.2 | 12.5 | 40.9 |
| Bro Morgannwg | 79 | 2.5 | 12.7 | 20.3 | 34.2 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 3.2 | 9.7 | 23.4 | 58.4 |
| Merthyr Tudful | 36 | 5.6 | 27.8 | 38.9 | 75.0 |
| Caerffili | 110 | 14.5 | 30.0 | 46.4 | 77.3 |
| Blaenau Gwent | 47 | 27.7 | 53.2 | 78.7 | 97.9 |
| Tor-faen | 60 | 15.0 | 38.3 | 58.3 | 71.7 |
| Sir Fynwy | 56 | 1.8 | 5.4 | 7.1 | 23.2 |
| Casnewydd | 95 | 35.8 | 47.4 | 54.7 | 75.8 |
| Caerdydd | 214 | 11.2 | 22.9 | 36.9 | 57.5 |
| **Cymru** | **1909** | **10** | **20** | **30** | **50** |

Un ffordd o ystyried data MALIC ar lefel awdurdod lleol yw edrych ar gyfran yr ardaloedd yn yr awdurdod lleol sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig (neu'r 20% ac ati) o'r holl ardaloedd yng Nghymru. Gellir ystyried bod y fath ddull yn nodi'r crynodiad o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na lefel amddifadedd gyfartalog.

- Yr awdurdod lleol â'r crynodiad uchaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Casnewydd (35.8%, neu 34 o ardaloedd).
- Yr awdurdod lleol â'r gyfran isaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Sir Fynwy (1.8% neu un ACEHI). Dim ond 20.3% o'r ardaloedd ym Mhowys a oedd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Blaenau Gwent a oedd â'r ganran uchaf o ardaloedd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (97.9%). Caerffili oedd â'r gyfran uchaf ond un, gyda 77.3% o'i ardaloedd yn yr hanner mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

## 9.6. Newidiadau methodolegol i'r maes Diogelwch Cymunedol rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019

Mae mân newidiadau wedi'u gwneud i'r fethodoleg ar gyfer llunio'r enwaduron troseddau a digwyddiadau. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys mabwysiadu'r un dechneg gyfuno ddaearyddol a'r un dechneg gyfyngu ag a ddefnyddiwyd ym Maes Troseddau Mynegai Amddifadedd Lloegr 2019. Mae'r broses sicrhau ansawdd dau gam gyda'r heddluoedd hefyd yn adlewyrchu'r un a fabwysiadwyd ym Maes Troseddau Mynegai Amddifadedd Lloegr 2019. I gael rhagor o fanylion, gweler Adroddiad Technegol MALIC 2019.

At hynny, roedd angen gwneud newidiadau bach i'r categorïau manwl sy'n cynnwys pob un o'r dangosyddion troseddau a gofnodwyd oherwydd newidiadau a wnaed i Reolau Cyfrif y Swyddfa Gartref ers cyhoeddi MALIC 2014.

## 9.7. Gwybodaeth gefndirol am y maes Diogelwch Cymunedol

**Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu**

Ers cyhoeddi MALIC 2014, bu ffocws o'r newydd ar ansawdd prosesau cofnodi troseddau gan yr heddlu. Mae hyn yn dilyn yr arolygiadau o heddluoedd a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC), yr ymchwiliad i ystadegau troseddau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Dethol ar Weinyddiaeth Gyhoeddus (PASC) a phenderfyniad Awdurdod Ystadegau'r DU (Ionawr 2014) i ddileu'r dynodiad Ystadegau Gwladol o ystadegau troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu.

Credir bod y ffocws newydd hwn wedi gwella cydymffurfiaeth â'r Safon Genedlaethol Cofnodi Troseddau (NCRS), sy'n golygu bod mwy o droseddau sy'n dod i sylw'r heddlu yn cael eu cofnodi. Ystyriodd grŵp y maes diogelwch cymunedol ai data troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu oedd y ffynhonnell orau o ddata troseddau a oedd ar gael ar gyfer MALIC 2019 ar lefel ardal fach a chytunwyd mai'r data hyn oedd y ffynhonnell orau.

**Police.UK**

Mae gwefan y Police.UK yn galluogi defnyddwyr i archwilio a chymharu troseddu a chanlyniadau troseddu mewn ardaloedd lleol.

**Data Troseddau Ychwanegol: Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr**

Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn mesur lefelau troseddu yng Nghymru a Lloegr drwy ofyn i bobl a ydynt wedi profi unrhyw drosedd yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r Arolwg Troseddu yn cofnodi troseddau y mae'n bosibl na roddwyd gwybod i'r heddlu amdanynt ac, felly, fe'i defnyddir ochr yn ochr â'r ffigurau ar gyfer troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu i ddangos darlun mwy cywir o lefel troseddu yn y wlad.

Mae gwybodaeth am ganfyddiadau o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn elfen ychwanegol a ddarperir gan yr Arolwg Troseddu. Mae hon yn elfen allweddol o amddifadedd diogelwch cymunedol, o ran teimlo'n ddiogel pan fyddwch allan yn eich ardal leol. Ceir data a rhagor o wybodaeth am Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.  Ni chynhwyswyd y data hyn ym MALIC 2019, gan nad yw'r data yn ystadegol gadarn islaw lefel Cymru.

**Teimlo'n anniogel – Arolwg Cenedlaethol Cymru**

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn holi am deimlo'n anniogel ar ôl iddi nosi yn eich ardal leol. Mae canfyddiadau o ddiogelwch wedi'u cynnwys yn y diffiniad o amddifadedd diogelwch cymunedol. Ceir rhagor o wybodaeth a data ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

Yn gynharach eleni, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar amrywiaeth o ddangosyddion i ategu ei strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn wedi'u hadolygu ac rydym yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn llywio'r broses o ddatblygu dangosyddion ymhellach.


# 10. Maes yr Amgylchedd Ffisegol

## 10.1. Cyflwyniad

Diben y maes hwn yw mesur ffactorau yn yr ardal leol a all effeithio ar lesiant neu ansawdd bywyd y rhai sy'n byw mewn ardal. Mae gan y maes bwysoliad cymharol o 5% yn y mynegai cyffredinol. Mae'r is-feysydd a'r dangosyddion wedi'u pwysoli fel y dangosir isod. Am ddisgrifiad llawn o'r ffordd y cafodd y maes ei lunio, gweler Adroddiad Technegol MALIC 2019.

## 10.2. Dangosyddion

Mae'r maes yn cynnwys tri is-faes, wedi'u pwysoli fel y dangosir isod:




Mae'r is-faes ansawdd aer yn cynnwys tri dangosydd sy'n mesur y gwerthoedd crynodiad cyfartalog wedi'u pwysoli gan y boblogaeth ar gyfer y llygryddion allweddol Nitrogen deuocsid ($NO_2$), Gronynnau < 10 μm ($PM_{10}$) a Gronynnau < 2.5 μm ($PM_{2.5}$) yn y drefn honno. Mae gwerthoedd y dangosyddion yn seiliedig ar lefelau llygryddion o gridiau crynodiadau aer DEFRA 2017 a chânt eu pwysoli gan y boblogaeth ac wedyn eu cyfuno i roi sgôr ar gyfer yr is-faes ansawdd aer.

Mae sgôr yr is-faes perygl llifogydd yn seiliedig ar gyfran y cartrefi sydd mewn perygl o lifogydd o afonydd, y môr neu lifogydd wyneb ac fe'i ceir o set ddata Asesu Perygl Llifogydd yng Nghymru Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r is-faes mannau gwyrdd yn cynnwys dau ddangosydd â phwysoliad cyfartal, sef:

- Y dangosydd agosrwydd at fan gwyrdd naturiol hygyrch sy'n mesur cyfran y cartrefi ym mhob ardal sydd o fewn 5 munud / 300 metr o bellter cerdded i fan gwyrdd naturiol hygyrch
- Y sgôr ar gyfer mannau gwyrdd amgylchol sy'n mesur pa mor wyrdd yw'r amgylchedd mewn ardal gan ddefnyddio sgôr Mynegai Llystyfiant â Gwahaniaeth wedi'i Normaleiddio cymedrig cartrefi (NDVI) o fewn clustogfa o 300 metr o amgylch pob annedd breswyl.


Ceir rhagor o ganllawiau i helpu i ddehongli a deall data dangosyddion yr is-faes mannau gwyrdd yn adran 10.6. Ceir esboniad llawn o'r ffordd y caiff y dangosyddion hyn eu cyfrifo a'u cyfuno yn Adroddiad Technegol MALIC 2019.

## 10.3. Canlyniadau allweddol maes yr Amgylchedd Ffisegol

- Ym maes yr amgylchedd ffisegol MALIC 2019, roedd pocedi o amddifadedd uchel yn ninasoedd mawr de-ddwyrain Cymru ac o'u hamgylch ac, i raddau llai, yng nghymoedd y de. Ar y cyfan, roedd lefelau amddifadedd yn is yn awdurdodau lleol Gogledd Cymru. Dangosir hyn ar y map sy'n dilyn.
- Yr awdurdodau lleol â'r crynodiadau uchaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig oedd Casnewydd (43.2%) a Chaerdydd (43.0%). Ar y llaw arall, nid oedd gan Flaenau Gwent, Conwy, Ynys Môn, Sir Benfro na Wrecsam unrhyw ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig.
- Ym maes yr amgylchedd ffisegol, yr ardal fach fwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Penylan 5, yng Nghaerdydd, yr ardal o gwmpas gerddi Waterloo a rhan o Heol Casnewydd.
- Mae patrymau cyffredinol amddifadedd yr amgylchedd ffisegol ym MALIC 2019 yn wahanol iawn i'r rhai ar gyfer MALIC 2014. Fodd bynnag, mae hyn i'w briodoli'n rhannol i nifer o newidiadau methodolegol rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019. Mae'r newidiadau hyn wedi cael eu llunio a'u rhoi ar waith er mwyn adlewyrchu amddifadedd o ran yr amgylchedd ffisegol yn well a'r ffordd y mae'n effeithio ar lesiant neu ansawdd bywyd pobl. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran 10.6.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

# Maes yr Amgylchedd Ffisegol




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2019. Arolwg Ordnans 100021874
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/45/19.20
Tachwedd 2019

### 10.4. Cymharu maes yr Amgylchedd Ffisegol rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019

Gellir lawrlwytho'r set lawn o safleoedd y meysydd o MALIC 2019 a'r dangosyddion sylfaenol o dudalennu gwe StatsCymru Llywodraeth Cymru.

Dengys y tabl isod nifer yr ardaloedd bach (ACEHIau) ym mhob un o grwpiau amddifadedd MALIC ar gyfer MALIC 2014 a MALIC 2019. Dengys y groeslinell, mewn print trwm, nifer yr ardaloedd sydd wedi aros yn yr un grŵp amddifadedd. Uwchlaw'r groeslinell ceir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud o grŵp mwy difreintiedig i grŵp llai difreintiedig. Islaw'r groeslinell ceir nifer yr ardaloedd sydd wedi symud o grŵp llai difreintiedig i grŵp mwy difreintiedig.

**Tabl 21: Symudiadau rhwng grwpiau amddifadedd yr Amgylchedd Ffisegol rhwng MALIC 2014 a 2019**

| | | Maes yr Amgylchedd Ffisegol 2019 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Y 10% mwyaf difreintiedig (safleoedd 1-191) | Y 10-20% mwyaf difreintiedig (safleoedd 192-382) | Yr 20-30% mwyaf difreintiedig (safleoedd 383-573) | Y 30-50% mwyaf difreintiedig (safleoedd 574-955) | Y 50% lleiaf difreintiedig (safleoedd 956-1909) | Cyfanswm (safleoedd 1-1909) |
| Maes yr Amgylchedd Ffisegol 2014 | Y 10% mwyaf difreintiedig (safleoedd 1-191) | **92** | 29 | 18 | 26 | 26 | 191 |
| | Y 10-20% mwyaf difreintiedig (safleoedd 192-382) | 47 | **37** | 26 | 31 | 50 | 191 |
| | Yr 20-30% mwyaf difreintiedig (safleoedd 383-573) | 22 | 38 | **27** | 42 | 62 | 191 |
| | Y 30-50% mwyaf difreintiedig (safleoedd 574-955) | 17 | 51 | 58 | **96** | 160 | 382 |
| | Y 50% lleiaf difreintiedig (safleoedd 956-1909) | 13 | 36 | 62 | 187 | **656** | 954 |
| | Cyfanswm (safleoedd 1-1909) | 191 | 191 | 191 | 382 | 954 | **1909** |

Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r tabl uchod. Mae nifer o newidiadau methodolegol i'r maes yn golygu ei bod yn anodd dehongli newidiadau rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019. Gweler adran 10.6 am ragor o fanylion.

Cymharol fwy difreintiedig: Mae 99 o ardaloedd wedi symud i grŵp y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes hwn ym MALIC 2019. Roedd dros hanner yr ardaloedd hyn yng Nghaerdydd neu Gasnewydd gyda'r gweddill wedi'u rhannu rhwng 13 o awdurdodau lleol eraill. Roedd y symudiadau i'w priodoli i newidiadau ym mhob un o'r is-feysydd. Fodd bynnag, roedd y 13 o ardaloedd a symudodd o'r 50% lleiaf difreintiedig i'r 10% mwyaf difreintiedig i'w priodoli'n bennaf i'r penderfyniad


i gynnwys llifogydd wyneb yn yr is-faes perygl llifogydd a/neu'r penderfyniad i gyflwyno'r is-faes mannau gwyrdd.

Cymharol lai difreintiedig: Mae 99 o ardaloedd wedi symud o grŵp y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y maes hwn ym MALIC 2019. Roedd yr ardaloedd hyn wedi'u rhannu rhwng 17 o awdurdodau lleol. Fodd bynnag, roedd bron un o bob tair o'r ardaloedd hyn (31) yn Sir y Fflint y cafodd y newidiadau methodolegol i'r is-feysydd gryn effaith arni (yn enwedig, y penderfyniad i gynnwys yr is-faes mannau gwyrdd a hepgor yr is-faes agosrwydd at safleoedd gwaredu a diwydiannol). Symudodd 26 o ardaloedd 5 neu fwy degradd ac roedd y symudiadau hyn i'w priodoli'n bennaf i'r penderfyniad i gynnwys yr is-faes mannau gwyrdd. Roedd newidiadau i'r is-faes ansawdd aer hefyd yn ffactor cyfrannol.

### 10.5. Dadansoddi maes yr amgylchedd ffisegol yn ôl awdurdod lleol

Dengys y siart isod ddosbarthiad safleoedd maes yr amgylchedd ffisegol ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r blychau glas yn cynnwys hanner cyfanswm yr ardaloedd ym mhob awdurdod lleol, wedi'i ganoli ar y safle canolrifol (canol) ar gyfer pob awdurdod lleol a dengys y ‘wisgers’ yr ystod lawn o safleoedd. Mae amddifadedd yn cynyddu wrth i'r safle ostwng (hynny yw, tua gwaelod y plot).

**Siart 11: Plot blychau o safleoedd maes yr amgylchedd ffisegol MALIC 2019, yn ôl awdurdod lleol**



Dengys y tabl isod, ar gyfer maes yr amgylchedd ffisegol MALIC 2019, ganran yr ardaloedd bach (ACEHIau) ym mhob awdurdod lleol a oedd yn y 10%, yr 20%, y 30% a'r 50% o ardaloedd mwyafrif difreintiedig yng Nghymru.

**Tabl 22: Crynodiadau o ardaloedd mewn amddifadedd yr Amgylchedd Ffisegol ym MALIC 2019, yn ôl awdurdod lleol**

| Awdurdod lleol | Nifer yr ACEHIau yn yr awdurdod lleol | % yr ACEHIau yn y 10% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-191 | % yr ACEHIau yn yr 20% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-382 | % yr ACEHIau yn y 30% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-573 | % yr ACEHIau yn y 50% mwyaf difreintiedig safleoedd 1-955 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 44 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 2.3 |
| Gwynedd | 73 | 1.4 | 2.7 | 2.7 | 16.4 |
| Conwy | 71 | 0.0 | 2.8 | 12.7 | 21.1 |
| Sir Ddinbych | 58 | 1.7 | 5.2 | 5.2 | 25.9 |
| Sir y Fflint | 92 | 1.1 | 5.4 | 9.8 | 23.9 |
| Wrecsam | 85 | 0.0 | 0.0 | 3.5 | 8.2 |
| Powys | 79 | 1.3 | 3.8 | 8.9 | 26.6 |
| Ceredigion | 46 | 2.2 | 2.2 | 6.5 | 23.9 |
| Sir Benfro | 71 | 0.0 | 1.4 | 4.2 | 36.6 |
| Sir Gaerfyrddin | 112 | 3.6 | 21.4 | 32.1 | 47.3 |
| Abertawe | 148 | 1.4 | 4.7 | 16.2 | 35.8 |
| Castell-nedd Port Talbot | 91 | 8.8 | 26.4 | 33.0 | 59.3 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 | 4.5 | 9.1 | 22.7 | 39.8 |
| Bro Morgannwg | 79 | 6.3 | 10.1 | 24.1 | 59.5 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 | 7.1 | 20.1 | 35.1 | 63.0 |
| Merthyr Tudful | 36 | 13.9 | 22.2 | 33.3 | 52.8 |
| Caerffili | 110 | 6.4 | 15.5 | 25.5 | 57.3 |
| Blaenau Gwent | 47 | 0.0 | 8.5 | 23.4 | 48.9 |
| Tor-faen | 60 | 6.7 | 13.3 | 30.0 | 68.3 |
| Sir Fynwy | 56 | 5.4 | 30.4 | 42.9 | 67.9 |
| Casnewydd | 95 | 43.2 | 68.4 | 80.0 | 95.8 |
| Caerdydd | 214 | 43.0 | 67.3 | 85.0 | 98.6 |
| **Cymru** | **1909** | **10** | **20** | **30** | **50** |

Un ffordd o ystyried data MALIC ar lefel awdurdod lleol yw edrych ar gyfran yr ardaloedd yn yr awdurdod lleol sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig (neu'r 20% ac ati) o'r holl ardaloedd yng Nghymru. Gellir ystyried bod y fath ddull yn nodi'r crynodiad o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig mewn awdurdod lleol, yn hytrach na lefel amddifadedd gyfartalog.

- Yr awdurdod lleol â'r crynodiad uchaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Casnewydd (43.2%, neu 41 o ardaloedd), wedi'i ddilyn yn agos gan Gaerdydd (43.0%, neu 92 o ardaloedd). Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i effaith yr is-feysydd ansawdd aer a mannau gwyrdd.
- Yr awdurdodau lleol â'r gyfran isaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru oedd Blaenau Gwent, Conwy, Ynys Môn, Sir Benfro a Wrecsam nad oedd yr un o'u hardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig. Dim ond 2.3% o'r ardaloedd ar Ynys Môn a oedd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- Caerdydd a oedd â'r ganran uchaf o ardaloedd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (98.6%). Casnewydd oedd â'r gyfran uchaf ond un, gyda 95.8% o'i ardaloedd yn hanner mwyaf difreintiedig Cymru.

## 10.6. Newidiadau methodolegol i faes yr amgylchedd ffisegol rhwng MALIC 2014 a MALIC 2019

**Yr Is-faes Ansawdd Aer**

Cafodd y dangosyddion yn yr is-faes ansawdd aer eu symleiddio er mwyn canolbwyntio ar y llygryddion Nitrogen deuocsid ($NO_2$), Gronynnau < 10 μm ($PM_{10}$) a Gronynnau < 2.5 μm ($PM_{2.5}$). Bwriadwyd i'r newid hwn gysoni'r is-faes yn agosach â'r dangosyddion llesiant cenedlaethol ac adlewyrchu'r ffaith bod y tri llygrydd hyn yn destun pryder mawr o ran iechyd ledled y wlad. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod y penderfyniad i hepgor llygryddion penodol (er enghraifft, Sylffwr Deuocsid) yn cyfrannu at y ffaith ei bod yn ymddangos bod ardaloedd a oedd yn arfer bod yn rhai diwydiannol iawn yn llai difreintiedig nag oeddent ym MALIC 2014.

**Yr is-faes Perygl Llifogydd**

Cafodd yr is-faes perygl llifogydd ar gyfer MALIC 2019 ei gyfrifo gan ddefnyddio fersiwn beta o set ddata Asesu Perygl Llifogydd yng Nghymru (FRAW) fel y'i darparwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r set ddata hon yn wahanol iawn o ran y fethodoleg fodelu a mewnbynnau o set ddata perygl llifogydd yr Asesiad Bygythiad Llifogydd Cenedlaethol (NaFRA) a ddefnyddiwyd i lywio MALIC 2014.

Yn benodol, mae set ddata FRAW yn cynnwys gwybodaeth am y perygl o lifogydd o afonydd, y môr a llifogydd dŵr wyneb. Fodd bynnag, mae hyn yn wahanol i MALIC 2014 lle nad oedd data'r is-faes perygl llifogydd yn ystyried llifogydd dŵr wyneb.

Mae'r penderfyniad i gynnwys risg sy'n gysylltiedig â llifogydd dŵr wyneb wedi arwain at lefelau uwch o amddifadedd oherwydd llifogydd yn cael eu nodi mewn awdurdodau lleol penodol. Yn benodol, mae nifer o ardaloedd ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn llawer mwy difreintiedig pan ystyrir llifogydd dŵr wyneb.

**Yr is-faes Mannau Gwyrdd**

Mae'r is-faes mannau gwyrdd wedi cael ei ddatblygu i ddisodli'r is-faes agosrwydd at safleoedd gwaredu a diwydiannol a oedd wedi'i gynnwys yn flaenorol ym MALIC 2014.

Cafodd yr is-faes agosrwydd at safleoedd gwaredu a diwydiannol ei ddatblygu'n wreiddiol fel mesur procsi er mwyn casglu gwybodaeth am ansawdd cyffredinol bywyd sy'n gysylltiedig â byw mewn ardal benodol. Fodd bynnag, roedd iddo rai cyfyngiadau hysbys am ei fod yn amcangyfrif effaith safleoedd gwaredu a diwydiannol a reoleiddir ond nad oedd yn cofnodi agosrwydd at safleoedd nas rheoleiddir (y gellid dadlau y byddant yn cael mwy o effaith ar yr amgylchedd o'u hamgylch.

Ystyrir bod mannau gwyrdd naturiol yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant pobl a datblygwyd yr is-faes mannau gwyrdd er mwyn casglu gwybodaeth am amddifadedd sy'n deillio o'r ffaith nad oes unrhyw fannau gwyrdd i'w cael. Am fod yr is-faes mannau gwyrdd a'r is-faes agosrwydd at safleoedd gwaredu a diwydiannol yn mesur pethau cysyniadol wahanol, byddem yn disgwyl gweld gwahaniaethau rhyngddynt.

Noder bod y ddau ddangosydd yn yr is-faes mannau gwyrdd yn canolbwyntio ar yr ardal yn union o amgylch yr anheddau preswyl mewn ardal yn hytrach nag ardal gyfan yr ACEHI. Mae hyn yn cyd-fynd â'r methodolegau sy'n sail i'r is-faes ansawdd aer (sy'n cael ei bwysoli gan y boblogaeth) a'r is-faes perygl llifogydd (sy'n canolbwyntio ar gartrefi mewn ardaloedd lle y ceir perygl o lifogydd).

At hynny, mae'r is-faes mannau gwyrdd yn edrych yn benodol ar agosrwydd at fannau gwyrdd naturiol, hygyrch – h.y. safleoedd y gellir yn hyderus eu disgrifio fel lleoedd â 'naws naturiol' y mae gan y cyhoedd hawl mynediad iddynt.

Felly, mae'n bosibl bod gan rai ardaloedd gwledig a lled-wledig lefelau uwch na'r disgwyl o amddifadedd mannau gwyrdd am fod mannau gwyrdd yn yr ardal yn anhygyrch a/neu am nad oes unrhyw fannau gwyrdd yn agos at anheddau preswyl yn yr ardal.

Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau parhaus ym maes mesur mannau gwyrdd a, lle y bo'n briodol, ystyried gwelliannau i'r is-faes hwn ar gyfer y fersiwn nesaf o MALIC.

## 10.7. Gwybodaeth gefndirol am faes yr Amgylchedd Ffisegol

**Ansawdd Aer**

Ceir rhagor o wybodaeth am fodel Mapio Hinsawdd Llygredd Llywodraeth y DU, sy'n cyfrifo crynodiadau llygryddion cyfartalog ar gyfer pob cilomedr sgwâr o'r DU ar wefan DEFRA. Ceir gwybodaeth am ddangosydd llesiant cenedlaethol 5 (Lefelau llygredd Nitrogen Deuocsid yn yr aer) ar wefan Llesiant Cymru Llywodraeth Cymru.

**Perygl Llifogydd**

Ceir adroddiadau, tystiolaeth a data ar lifogydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Mannau Gwyrdd**

Caiff data ar ganfyddiadau pobl o fannau gwyrdd lleol a'u bodlonrwydd â nhw eu casglu fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Gellir gweld y prif ganlyniadau yn Nangosydd Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru.

Mae Mynegai Mannau Gwyrdd sy'n cynnwys data am Gymru wedi'i gyhoeddi gan Fields in Trust.

## Atodiad A: Rhagor o Gefndir MALIC

### 1. Datblygiad ac Ymgysylltiad â Defnyddwyr

Yn ystod 2018, gweithiodd ystadegwyr yn Llywodraeth Cymru gyda saith grŵp pwnc arbenigol i adolygu dangosyddion a ddefnyddiwyd ym MALIC 2014 ac i ystyried dangosyddion newydd posibl ar gyfer MALIC 2019. Roedd pob grŵp pwnc yn cynnwys arbenigwyr dadansoddol o Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill (er enghraifft, Cyfoeth Naturiol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru) a chynrychiolwyr polisi o Lywodraeth Cymru. Fe wnaeth Grŵp Cynghori a oedd yn cynnwys defnyddwyr allweddol y Mynegai o gyrff cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector helpu i lywio'r cynigion hefyd.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar ddangosyddion arfaethedig ar gyfer MALIC 2019 rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr yn 2018. Diben yr ymgynghoriad hwn oedd sicrhau bod y cynigion ar gyfer meysydd a dangosyddion MALIC 2019 yn cael eu hadolygu'n feirniadol. Derbyniwyd ymatebion gan amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion gwahanol. Cafodd crynodeb o'r ymatebion hyn, a'r newidiadau a wnaed yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2019.

Byddwn yn parhau i rannu gwybodaeth â defnyddwyr am MALIC 2019, a byddwn yn gofyn am fewnbwn ar gyfer fersiynau newydd yn y dyfodol drwy seminarau, cynadleddau a digwyddiadau pwrpasol. Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn, a gellir gwneud hynny drwy anfon neges e-bost i ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru.

### 2. Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Mae MALIC yn gynnyrch ystadegol cymhleth sy'n defnyddio amrywiaeth o ffynonellau data, rhai ohonynt yn Ystadegau Gwladol neu Swyddogol eu hunain, ac eraill yn seiliedig ar setiau data gweinyddol. Mae'r hyn a geir isod yn grynodeb byr o wybodaeth safonol, a dolenni at ragor o wybodaeth. Bydd dogfennaeth fanylach ar wybodaeth am ansawdd MALIC 2019 ar gael yn y dyfodol, yn seiliedig ar Becyn Cymorth Sicrhau Ansawdd Data Gweinyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**Perthnasedd**

Mae dogfennau ein Hymgynghoriad yn amlinellu'r rhesymeg dros y dewis o ddangosyddion i adlewyrchu gwahanol agweddau ar amddifadedd.

**Cywirdeb**

Mae MALIC yn dilyn y fersiynau blaenorol o'r mynegai ac mae wedi'i lunio i sicrhau dibynadwyedd canlyniadau. Mae dogfen ein Hymgynghoriad yn cynnwys manylion meini prawf y dangosyddion a oedd yn gymwys. Mae MALIC yn dwyn ynghyd 47 o ddangosyddion annibynnol o amrywiaeth eang o ffynonellau data, sy'n sicrhau cadernid y canlyniadau cyffredinol. Mae ardaloedd sy'n ddifreintiedig iawn yn ôl MALIC yn debygol o fod yn ddifreintiedig iawn mewn nifer o feysydd. Yn sgil

yr amrywiaeth o fewnbynnau data, mae ychydig o debygolrwydd y bydd ardal sy’n cael ei phennu’n ddifreintiedig iawn yn sgil rhagfarn yn unrhyw un o’r dangosyddion sylfaenol.

O ran cywirdeb y gwaith o brosesu'r data sylfaenol, roedd cynllun Sicrhau Ansawdd y cytunwyd arno ar gyfer MALIC 2019 a oedd yn nodi sawl cam o wiriadau data, gan gynnwys:

- Atgynhyrchu canlyniadau ar gyfer unrhyw ddangosyddion newydd neu wedi'u newid gan ddefnyddio adnoddau dadansoddi gwahanol
- Cynnal gwiriadau synnwyr o ddata dangosyddion a meysydd gyda'r grwpiau pwnc arbenigol a chynrychiolwyr awdurdodau lleol

**Amseroldeb a Phrydlondeb**

Rydym yn defnyddio’r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar gyfer yr holl ddangosyddion. Fe wnaeth ein Hadroddiad Technegol ddisgrifio’r cyfnod amser sy’n gysylltiedig â phob dangosydd, ac mae’r cyfnodau hyn hefyd wedi cael eu dwyn ynghyd mewn taenlen er mwyn gallu cyfeirio atynt yn rhwydd.

**Hygyrchedd ac eglurder**

Yn 2016 fe wnaethom arolygu defnyddwyr ynghylch ein pecyn canlyniadau ar gyfer MALIC 2014, a gan fod defnyddwyr yn fodlon ar yr hyn a gynigiwyd yn 2014, rydym wedi parhau i lunio’r un amrywiaeth i allbynnau, ac wedi eu gwella pan fo hynny’n bosibl. Rydym wedi cyhoeddi canlyniadau mewn amrywiaeth o fformatau er mwyn helpu gwahanol fathau o ddefnyddwyr i gael gafael ar ganlyniadau MALIC a’u dehongli. Mae manylion llawn a chyfeiriadau ar gael ar dudalennau gwe MALIC.

**Cyffelybrwydd a chysondeb**

Mae ein Canllaw yn darparu rhagor o wybodaeth am fynegeion amddifadedd ar gyfer tair gwlad arall y DU, ac yn egluro pam na ddylai’r canlyniadau gael eu cymharu ar draws gwledydd.

## 3. Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Golyga statws Ystadegau Gwladol fod yr ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os byddwn yn pryderu ynghylch a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon hynny â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

Cynhaliwyd asesiad llawn o'r ystadegau hyn yn erbyn y Cod Ymarfer yn 2010.

## Atodiad B: Rhestr o holl ddangosyddion MALIC 2019

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael yn yr Adroddiad Technegol.

| Dangosydd | Unedau | Enwadur | Cyfnod y Dangosydd | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|---|
| **Y Maes Incwm** | | | | |
| Canran y boblogaeth sy'n cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm<br><br>Fe'i diffinnir fel y rhai sydd naill ai: | Canran | Amcangyfrifon Poblogaeth Ardaloedd Bach 2016 (llai poblogaeth y carchardai 2016), SYG | | |
| (a) Yn oedolyn, neu'n blentyn dibynnol i oedolyn, sy'n cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm | | | 2016/17 | Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) |
| (b) Yn oedolyn, neu'n blentyn dibynnol i oedolyn sy'n cael Credydau Treth Gwaith a Phlant, sydd ag incwm sy'n llai na 60% o ganolrif Cymru | | | Awst-15 | Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) |
| (c) Yn Geisydd Lloches (fel y'i diffinnir gan Adran 95) | | | Meh-17 | Y Swyddfa Gartref |
| (d) Yn bobl sy'n cael Credyd Cynhwysol (ac eithrio'r rhai "sy'n gweithio heb unrhyw ofynion") | | | 2016/17 | DWP |
| **Y Maes Cyflogaeth** | | | | |
| Canran y boblogaeth oedran gweithio sy'n cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth (lwfans ceisio gwaith, lwfans cyflogaeth a chymorth, neu Gredyd Cynhwysol ac nid mewn gwaith) | Canran | Amcangyfrifon Poblogaeth Ardaloedd Bach 2016 (llai poblogaeth y carchardai 2016), SYG | 2016/17 | DWP |

| Dangosydd | Unedau | Enwadur | Cyfnod y Dangosydd | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|---|
| **Iechyd** | | | | |
| Pobl â diagnosis o gyflwr cronig a gofnodwyd gan feddyg teulu (wedi'i safoni'n anuniongyrchol yn ôl oedran-rhyw) [Clefyd Coronaidd y Galon, Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint, Strôc a Thrawiad Isgemig Darfodedig, Clefyd Rhydwelïol Ymylol, Clefyd Cronig yr Arennau, Diabetes Mellitus, neu Epilepsi] | Cyfradd fesul 100 | Amcangyfrifon Poblogaeth Ardaloedd Bach 2018 (llai poblogaeth y carchardai 2018), SYG | 31 Mawrth 2019 | Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru |
| Salwch Hirdymor Cyfyngol (wedi'i safoni'n anuniongyrchol yn ôl oedran-rhyw) | Cyfradd fesul 100 | Poblogaeth ACEHI, Cyfrifiad | 2011 | Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) |
| Cyfradd Marwolaethau Cynamserol (marwolaeth y rhai dan 75 oed) | Cyfradd fesul 100,000 | Amcangyfrifon Poblogaeth Ardaloedd Bach, SYG | 2009-18 (cyfartaledd 10 mlynedd) | Marwolaethau a Gofrestrwyd, SYG |
| Pobl â diagnosis o gyflwr iechyd meddwl a gofnodwyd gan feddyg teulu [Iselder, Hwyliau isel (gyda phresgripsiwn amlroddadwy gweithredol ar gyfer gwrth-iselydd), Anhwylder gorbryder (gan gynnwys anhwylderau panig), Dementia, Salwch meddwl difrifol (sgitsoffrenia, anhwylder affeithiol deubegynol a seicosisau eraill)] | Cyfradd fesul 100 | Amcangyfrifon Poblogaeth Ardaloedd Bach 2018 (llai poblogaeth y carchardai 2018), SYG | 31 Mawrth 2019 | Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru |
| Nifer yr achosion o Ganser (wedi'i safoni'n anuniongyrchol yn ôl oedran-rhyw) | Cyfradd fesul 100,000 | Amcangyfrifon Poblogaeth Ardaloedd Bach, SYG | 2007-16 (cyfartaledd 10 mlynedd) | Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Felindre |
| Pwysau Geni Isel, Genedigaethau Sengl (genedigaethau byw sy'n llai na 2.5 Kg) | Canran | Nifer y genedigaethau byw sengl | 2009-18 (cyfartaledd 10 mlynedd) | Genedigaethau a Gofrestrwyd, SYG |
| Plant 4-5 oed sy'n Ordew | Canran | Nifer y plant 4-5 oed, Rhaglen Mesur Plant | 2012/13 – 2017/18 | Rhaglen Mesur Plant, Iechyd Cyhoeddus Cymru |

| Dangosydd | Unedau | Enwadur | Cyfnod y Dangosydd | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|---|
| **Addysg** | | | | |
| Sgôr Pwyntiau Cyfartalog y Cyfnod Sylfaen | Sgôr pwyntiau | Cyfanswm y disgyblion yng Ngrŵp Blwyddyn 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol | Blynyddoedd Academaidd 2015/16 – 2017/18 | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Casglu Data Cenedlaethol |
| Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 2 | Sgôr pwyntiau | Cyfanswm y disgyblion yng Ngrŵp Blwyddyn 6 y Cwricwlwm Cenedlaethol | Blynyddoedd Academaidd 2015/16 – 2017/18 | CYBLD, Casglu Data Cenedlaethol |
| Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer Pynciau Craidd | Sgôr pwyntiau | Cyfanswm y disgyblion yng Ngrŵp Blwyddyn 11 y Cwricwlwm Cenedlaethol | Blynyddoedd Academaidd 2015/16 – 2017/18 | CYBLD, y Gronfa Ddata Disgyblion Genedlaethol, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru |
| Absenoldeb Mynych | Canran | Cyfanswm y disgyblion Ysgol Gynradd ac Ysgol Uwchradd | Blynyddoedd Academaidd 2015/16 – 2017/18 | CYBLD, y Gronfa Ddata Disgyblion Genedlaethol |
| Cyfran disgyblion Cyfnod Allweddol 4 sy'n gadael yr ysgol ac yn mynd i Addysg Uwch | Canran | Cyfran disgyblion Cyfnod Allweddol 4 sy'n gadael yr ysgol ac yn mynd i Addysg Uwch | Blynyddoedd Academaidd 2011/12 – 2014/15 | CYBLD, Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) |
| Nifer yr oedolion 25-64 oed Heb Gymwysterau | Canran | Cyfanswm y boblogaeth 25-64 oed, Cyfrifiad | 2011 | Cyfrifiad 2011, SYG |

| Dangosydd | Unedau | Enwadur | Cyfnod y Dangosydd | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|---|
| **Y Maes Mynediad i Wasanaethau** | | | | |
| Mynediad Ffisegol – amseroedd teithio dwyffordd cyfartalog i wasanaethau allweddol gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat: siopau bwyd, meddygfeydd, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, swyddfa bost, llyfrgell gyhoeddus, fferyllfa, cyfleuster chwaraeon, gorsaf betrol (trafnidiaeth breifat yn unig) | Munudau | Dd/G | Maw-19 | Llywodraeth Cymru |
| Mynediad Digidol – Diffyg argaeledd canrannol band eang ar 30Mb/e | Canran | Nifer yr eiddo | Ion-19 | Y Swyddfa Gyfathrebu (Ofcom) |
| **Tai** | | | | |
| Canran y bobl sy'n byw mewn cartrefi gorlawn (mesur ystafelloedd gwely) | Canran | Nifer y bobl sy'n byw mewn cartrefi, Cyfrifiad | 2011 | Cyfrifiad 2011, SYG |
| Y tebygolrwydd o dai o ansawdd gwael (sydd mewn cyflwr gwael neu'n cynnwys peryglon difrifol)<br><br>Cyhoeddir dau is-ddangosydd hefyd, sef y tebygolrwydd y bydd anheddau:<br>• yn cynnwys un o beryglon Categori 1 ar gyfer oerni gormodol, cwympo neu beryglon eraill o dan y System Mesur Iechyd a Diogelwch Tai (HHSRS)<br>• mewn cyflwr gwael (bydd o leiaf un o gydrannau allweddol yr adeilad yn hen a bod angen ei hadnewyddu neu ei hatgyweirio'n sylweddol oherwydd ei chyflwr; neu bydd mwy nag un o gydrannau eraill yr adeilad yn hen a bod angen eu hadnewyddu neu eu hatgyweirio'n sylweddol) | Canran (tebygolrwydd) | Nifer yr anheddau preswyl | 2017/18 | Sefydliad Ymchwil Adeiladu |

| Dangosydd | Unedau | Enwadur | Cyfnod y Dangosydd | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|---|
| **Yr Amgylchedd Ffisegol** | | | | |
| Gwerthoedd crynodiad cyfartalog wedi'i bwysoli gan y boblogaeth ar gyfer Nitrogen deuocsid ($NO_2$) | Gwerthoedd | Dd/G | 2017 | DEFRA, SYG |
| Gwerthoedd crynodiad cyfartalog wedi'i bwysoli gan y boblogaeth ar gyfer Gronynnau < 10 µm ($PM_{10}$) | Gwerthoedd | Dd/G | 2017 | DEFRA, SYG |
| Gwerthoedd crynodiad cyfartalog wedi'i bwysoli gan y boblogaeth ar gyfer Gronynnau < 2.5 µm ($PM_{2.5}$) | Gwerthoedd | Dd/G | 2017 | DEFRA, SYG |
| Agosrwydd at Fan Gwyrdd Naturiol Hygyrch – sy'n mesur cyfran y cartrefi sydd o fewn 300 metr i fan gwyrdd naturiol hygyrch | Canran | Nifer y cartrefi yn yr ACEHI | 2017 | MasterMap Topography Layer, AddressBase Plus Arolwg Ordnans |
| Sgôr ar gyfer Mannau Gwyrdd Amgylchol – sy'n mesur Mynegai Llystyfiant â Gwahaniaeth wedi'i Normaleiddio (NDVI) cymedrig cartrefi) | Sgôr | Dd/G | dd/g – Lluniau o'r awyr a gasglwyd dros gyfres amser adolygol | WISERD |
| Perygl Llifogydd | Sgôr (rhwng 1 a 100) | Dd/G | 2017 | FRAW, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **Diogelwch Cymunedol** | | | | |
| Difrod Troseddol a Gofnodwyd gan yr Heddlu | Cyfradd (fesul 100) | Amcangyfrifon Poblogaeth Ardaloedd Bach 2017 (llai poblogaeth y carchardai 2017), SYG | 2017/18, 2018/19 | Heddluoedd Cymru |
| Troseddau Treisgar a Gofnodwyd gan yr Heddlu | | | | |
| Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Gofnodwyd gan yr Heddlu | | | | |
| Bwrgleriaethau a Gofnodwyd gan yr Heddlu | | | | |
| Achosion o Ddwyn a Gofnodwyd gan yr Heddlu | | | | |
| Digwyddiadau Tân | Cyfradd (fesul 100) | Amcangyfrifon Poblogaeth Ardaloedd Bach 2017 (llai poblogaeth y carchardai 2017), SYG | 2017/18, 2018/19 | System Cofnodi Digwyddiadau, Llywodraeth Cymru |